



DYDDIAD CYHOEDDI:
21/10/2016

Adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

Adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru



Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai Llywodraeth Cymru o reidrwydd

Am wybodaeth bellach, cysylltwch ag:

Enw: Helen Scaife

Llywodraeth Cymru

Ty'r Afon

Ffordd Bedwas

Bedwas

Caerfili

CF83 8WT

Ffôn: 01443 66 3895

E-bost: helen.scaife@cymru.gsi.gov.uk

Tabl y cynnwys

Rhestr o'r tablau.....	4
Geirfa.....	5
Crynodeb gweithredol.....	6
1. Cyflwyniad i'r adolygiad.....	13
2. Adolygiad llenyddiaeth.....	20
3. Trosolwg o'r ddarpariaeth ACL bresennol yng Nghymru.....	59
4. Tystiolaeth ansoddol o ymweliadau astudiaethau achos a gweithgarwch ymgynghori gyda rhanddeiliaid.....	71
5. Casgliadau ac argymhellion yr adolygiad.....	81
Atodiad A: Cyfeiriadau.....	88
Atodiad B: Offerynnau ymchwil.....	94

Rhestr o'r tablau a ffigurau

<i>Tabl 1</i>	<i>Crynodeb o ganfyddiadau ymchwil WEA (2014a a 2014b).</i>	22
<i>Tabl 2</i>	<i>Dadansoddiad o'r elw cymdeithasol ar fuddsoddiad.</i>	25
<i>Tabl 3</i>	<i>Canfyddiadau astudiaeth hydredol WEA am iechyd a lles (WEA, 2014b).</i>	30
<i>Tabl 4</i>	<i>Cyllid y Grant Dysgu Cymunedol, 2013/14 i 2016/17.</i>	60
<i>Ffigur 1</i>	<i>Dyraniadau'r Grant Dysgu Cymunedol fesul awdurdod lleol, 2016-2017.</i>	61

Geirfa

Acronym/Gair allweddol	Diffiniad
AB	Addysg Bellach
ACL	Dysgu Oedolion yn y Gymuned
ASO	Addysg Sylfaenol i Oedolion
AU	Addysg Uwch
BAMER	Du, Asiaidd, Lleiafrifoedd Ethnig a Ffoaduriaid
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
CLIF	Cronfa Arloesedd Dysgu Cymunedol
CLT	Ymddiriedolaeth Dysgu Cymunedol
DDC	Dysgu a Datblygu Cymunedol
DSW	Dysgu seiliedig ar waith
ESF	Cronfa Gymdeithasol Ewrop
ESOL	Saesneg ar gyfer Siaradwyr Ieithoedd Eraill
GDC	Grant Dysgu Cymunedol
NEET	Pobl nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant
NIACE	Y Sefydliad Cenedlaethol dros Addysg Barhaus i Oedolion
ONS	Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
UNESCO	Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig
WEA	Cymdeithas Addysg y Gweithwyr

Crynodeb gweithredol

Cyflwyniad

- i. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gwblhawyd gan Ymchwil Arad rhwng mis Chwefror a mis Mai 2016. Nod yr adolygiad oedd darparu tystiolaeth am natur a gwerth ACL yng Nghymru, fel y mae'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a sefydliadau Addysg Bellach (AB), er mwyn cyfrannu at ddatblygiad polisi yn y dyfodol.
- ii. Seiliwyd yr adolygiad ar ddull gweithredu o ddefnyddio dulliau cymysg. Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad yn manteisio ar adolygiad llenyddiaeth (o'r lenyddiaeth a gyhoeddwyd yng Nghymru ac ar draws y DU); ymarfer i fapio'r ddarpariaeth ACL yng Nghymru; a 23 o gyfweiliadau gyda rhanddeiliaid a chynrychiolwyr Partneriaethau ACL.

Canfyddiadau

- iii. Mae ACL yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad ac ymdrech sefydliadau ar draws y sector. Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn amlygu gwerth ACL i unigolion ac i gymdeithas yn ehangach. Mae ACL yn cynnig cyfleoedd i unigolion feithrin sgiliau newydd, i sicrhau cymwysterau, i symud ymlaen i lwybrau dysgu pellach, neu i symud ymlaen yn uniongyrchol i gyflogaeth neu gyfleoedd gwirfoddoli. Yn ogystal, mae ACL yn cyfrannu at iechyd a lles, cynhwysiant cymdeithasol, cydlyniant cymunedol ac mae modd iddo fod yn offeryn er mwyn mynd i'r afael â thlodi.
- iv. Yng Nghymru, mae Partneriaethau ACL rhanbarthol yn cynorthwyo sgiliau dysgwyr cyflogedig ac anghyflogedig. Mae'r ddarpariaeth ACL yn gwella cyflogadwyedd ac mae'n cael effaith yn y tymor byr ac yn y tymor hir ar weithgarwch economaidd dysgwyr a'u rhagolygon o sicrhau cyflogaeth.

Mae ACL yn cyfrannu at ystod eang o ganlyniadau a blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, gan gynnwys annog grwpiau anodd eu cyrraedd i ymgysylltu o'r newydd gyda gweithgarwch dysgu, cysylltu cymunedau, meithrin sgiliau a chynorthwyo iechyd a lles.

- v. Mae'r sector ACL yng Nghymru wedi bod dan bwysau difrifol o ganlyniad i'r toriadau ariannol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddarpariaeth wedi lleihau ar draws Cymru ac mae wedi lleihau'n ddifrifol mewn rhai ardaloedd. Er bod y sector wedi ceisio parhau i gyfrannu at ystod eang o flaenoriaethau, ceir problemau sy'n ymwneud â'r ffordd y caiff ACL ei gynllunio, ei ariannu a'i ddarparu ar hyn o bryd. Mae'r rhain yn cyfyngu ar allu ac effeithiolrwydd y sector i roi sylw i anghenion dysgu a sgiliau ar draws Cymru.
- vi. Er bod Partneriaethau ACL yn buddsoddi cryn amser ac egni yn y gwaith o gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth, mae'r sector yn parhau i fod yn gymharol ddigynllun ac nid oes ganddo ddatganiad o fwriad pendant sy'n ei ddwyn ynghyd. Dylid rhoi sylw i hyn, gan bwysleisio'r angen hefyd i ddysgu oedolion yn y gymuned gael cymorth fel rhan o addysg y brif ffrwd.

Argymhelliad 1:

Dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ei hymrwymiad i gynorthwyo ACL, gan egluro ei gweledigaeth ar gyfer y sector. Byddai hyn yn golygu paratoi diffiniad eglur a phenodol o rôl ACL mewn perthynas â:

- chynorthwyo cyflogadwyedd a ffyniant economaidd;
- hyrwyddo iechyd a lles;
- ymgysylltu a chynorthwyo cydlyniant cymdeithasol.

- vii. Mae ansawdd ac effeithiolrwydd Partneriaethau ACL yn amrywio. Mewn rhai achosion, ceir dulliau gweithredu partneriaeth effeithiol sy'n ceisio ymateb i anghenion dysgwyr a chyflogwyr mewn gwahanol ardaloedd lleol. Mewn ardaloedd eraill, mae ACL yn parhau i fod yn seiliedig ar batrymau darparu hanesyddol i raddau helaeth, ac ni cheir fawr iawn o dystiolaeth o weithgarwch craffu cadarn o'r ansawdd neu'r deilliannau.

Argymhelliad 2:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r dewisiadau a ffeirir ganddi er mwyn ailstrwythuro'r ffordd y caiff y ddarpariaeth ACL ei chynllunio a'i darparu ar draws Cymru. Dylai hyn ystyried y dystiolaeth o'r adolygiad hwn, sy'n cyfeirio at yr angen am weledigaeth sy'n fwy eglur o ran ei diffiniad ar gyfer ACL a darpariaeth sy'n fwy teg a chyson ar gyfer dysgwyr.

- viii. Mae'r broses o gyllido ACL yng Nghymru yn gymhleth ac yn anghyfartal, ac nid yw'n seiliedig ar angen ar hyn o bryd. Mae'r amrywiadau sylweddol o ran y cyllid sydd ar gael trwy'r Grant Dysgu Cymunedol yn cyfrannu at yr annhegwch o ran y cyfleoedd i ddysgwyr fanteisio ar y ddarpariaeth mewn gwahanol rannau o Gymru; ac mae'r gostyngiadau pellach i'r cyllid cyffredinol ar gyfer dysgu rhan-amser mewn Colegau AB wedi arwain at sialensiau ychwanegol i ddarparwyr ACL. Mae'n hanfodol bod cymorth digonol ar gael ar gyfer ACL er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ar draws Cymru, sy'n gyson ac yn hygyrch. Os mai gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cynnal ACL a sicrhau gwelliannau o ran yr ansawdd a'r deilliannau, mae angen cael seilwaith, adnoddau ac ymarferwyr sy'n gallu denu dysgwyr a chadw gafael arnynt.

Argymhelliad 3:

Mae angen cynnal adolygiad manwl o'r cyllid ar gyfer ACL. Dylai hyn ystyried dichonolrwydd cydgrynhoi neu gyfuno'r ffrydiau cyllid cyhoeddus amrywiol sy'n cynorthwyo ACL, gyda'r nod o sicrhau gweithgarwch cynllunio strategol mwy ystyrlon a phwrpasol.

- ix. Gwelir diffyg cysondeb o ran yr hyn a gynnigir i oedolion sy'n ddysgwyr mewn gwahanol rannau o Gymru. Mae modd priodoli hyn i sawl peth, gan gynnwys modelau darparu hanesyddol, gwahanol ddulliau gweithredu wrth ymateb i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru, gwahanol rolau cyswllt sefydliadau partner amrywiol, a phwysau ariannol. Wrth wraidd y broblem, fodd bynnag, gwelir absenoldeb cwricwlwm craidd neu fframwaith dysgu

oedolion cyffredin. Felly, gallai datblygiad fframwaith ar gyfer ACL a weithredir mewn ffordd gyson ganiatáu dull gweithredu cenedlaethol sy'n cynnig yr hyblygrwydd i ddatblygu cryfderau'r ddarpariaeth leol.

Argymhelliad 4:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid ar draws y sector ACL er mwyn paratoi fframwaith cenedlaethol cyffredin ar gyfer ACL, a fydd yn cynnig sail ar gyfer gwaith cynllunio a darparu yn y dyfodol. Dylid datblygu'r fframwaith hwn yn unol â'r gweithgareddau a gynigir yn Argymhelliad 1.

- x. Gan ystyried y ffaith bod lefelau sgiliau hanfodol yn isel o hyd a bod cyfraddau anweithgarwch economaidd uchel i'w gweld mewn sawl rhan o'r wlad, mae angen darpariaeth ACL effeithiol ar Gymru sy'n ymgysylltu gyda'r grwpiau anoddaf eu cyrraedd, sy'n helpu i newid agweddau tuag at ddysgu ac sy'n cynnig ail gyfle i bobl fanteisio i'r eithaf ar eu potensial. Fel y mae'r adolygiad llenyddiaeth a thystiolaeth y Partneriaethau yn dangos, gall ACL wneud gwahaniaethau go iawn i fywydau pobl trwy gynnig llwyfan iddynt er mwyn symud ymlaen i ddysgu pellach, hyfforddiant, ymgysylltu cymunedol a chyflogaeth.

Modelau darparu yn y dyfodol: casgliadau ac ystyriaethau

- xi. Mae mwyafrif clir o'r rhai a gyfrannodd i'r adolygiad – gan gynnwys rhanddeiliaid a chynrychiolwyr Partneriaethau ACL – yn cydnabod bod angen ad-drefnu'r sector a symud tuag at fodel darparu mwy effeithiol a theg. Gwelir achos cryf dros newid a dros ddatblygu modelau darparu newydd.

Argymhelliad 5:

Gan gydnabod effaith gadarnhaol ACL ar unigolion, cymunedau a'r economi ehangach, dylid hyrwyddo ACL fel rhan allweddol o strategaethau ar draws Cymru er mwyn trechu tlodi a chynorthwyo lles dinasyddion. Byddai hyn yn helpu i godi proffil ACL, gan gysylltu'r sector gyda pholisïau addysg, iechyd a lles a chynhwysiant cymdeithasol.

- xii. Gallai cryfhau'r cysylltiadau rhwng ACL ac agendâu polisi eraill godi cwestiynau ynghylch yr angen i gysoni ffrydiau cyllido, fel y nodwyd yn Argymhelliad 3 uchod. Mae ACL yn cyfrannu at flaenoriaethau iechyd, lles ac adfywio cymunedol a dylai hyn agor y drws i drafodaethau ynghylch y cwestiwn a ddylai cyllid o gyllidebau rhaglenni neu gyllidebau adrannol eraill gynorthwyo'r ddarpariaeth. Dylai unrhyw fodel yn y dyfodol geisio cyfuno a neilltuo cyllid mewn ffordd decach, ar sail anghenion dysgu a sgiliau.
- xiii. Byddai modd cynllunio a rheoli rhai elfennau o ACL ar lefel genedlaethol, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gan un asiantaeth yn gweithredu ar ei rhan. Dylid rhoi blaenoriaeth genedlaethol i'r ymdrech i godi safonau a chynorthwyo proffesiynoli'r gweithlu, ac fe ddylai hyn fod yn rhan o un strategaeth a weithredir ar draws Cymru gyfan. Yn yr un modd, gallai'r ddarpariaeth ACL fod yn destun safonau sicrhau ansawdd unffurf sy'n berthnasol i'r holl ddarpariaeth.

Argymhelliad 6:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cam o gomisiynu datblygiad strategaethau a fframweithiau cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a sicrhau ansawdd o fewn ACL. Byddai hyn yn helpu i godi proffil ACL, gan gysylltu'r sector gyda pholisïau addysg, iechyd a lles a chynhwysiant cymdeithasol.

- xiv. Dan fodel darparu newydd, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried ffyrdd lle y byddai modd defnyddio dulliau gweithredu arloesol er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth, gan gynnwys annog darparwyr i fabwysiadu strategaethau mwy 'masnachol'. Er enghraifft, pan godir ffioedd am gyrsiau hamdden ac adloniant, gellid annog (neu fynnu bod) darparwyr yn ail-fuddsoddi unrhyw warged mewn darpariaeth ar gyfer grwpiau targed, ac mae'r adolygiad llenyddiaeth yn amlinellu pwysigrwydd gwaith allgymorth er mwyn ymgysylltu â'r dysgwyr mwyaf ymylol. Gallai hyn annog dull gweithredu mwy arloesol ac ymatebol wrth ddatblygu darpariaeth. Yn ogystal, byddai modd ail-fuddsoddi gwarged neu elw

mewn creu llwybrau dilyniant newydd i ddysgwyr ac offerynnau dysgu o ansawdd uchel, y mae'r adolygiad llenyddiaeth yn cyfeirio atynt fel rhywbeth hanfodol er mwyn denu dysgwyr a'u cadw.

- xv. Roedd rhai o'r bobl a gyfrannodd at yr adolygiad yn credu'n gryf mewn symud i ffwrdd o strwythur cyfredol y Bartneriaeth ACL tuag at fodel rhanbarthol. Awgrymwyd y byddai modd seilio partneriaethau darparu ACL rhanbarthol ar olion traed y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol cyfredol. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod yr adolygiad, ceir manteision amlwg i'r cam o symleiddio'r gweithgarwch cynllunio a darparu, gan dynnu adnoddau i ffwrdd o'r prosesau gweinyddol a'u cyfeirio at ddysgwyr. Gallai hyn olygu bod asiantaethau ar wahân yn cael eu comisiynu neu'n cael cylch gwaith i arwain y gwaith o ddarparu ACL ym mhob rhanbarth, gan fanteisio ar gymorth darparwyr amrywiol yn ôl y gofyn.
- xvi. Roedd rhanddeiliaid eraill yn cefnogi model darparu amgen, lle y gallai un sefydliad fod yn gyfrifol am arwain ACL ar draws Cymru, trwy gyfrwng model gwasanaeth canolog a gwasanaethau cysylltiedig. Awgrymwyd y byddai'r dull gweithredu hwn yn cynnig arweinyddiaeth genedlaethol, gwelededd ac arbenigedd i'r sector, y mae angen dirfawr amdano, ac y byddai'n cynnig ffocws ar gyfer cyllid a chydgyssylltu ar draws y rhanbarthau.
- xvii. Gan nas cynlluniwyd yr adolygiad hwn i fod yn asesiad opsiynau strwythuredig, ni fyddai'n briodol gwneud argymhelliad trwy gyfeirio at fodel a ffeirir. Mae'r ddau fodel yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu cryfderau'r Partneriaethau sy'n bodoli eisoes a'r trefniadau darparu lleol ar draws Cymru. Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn awgrymu bod ymateb i'r angen lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau ymgysylltu effeithiol, ac mae'n dynodi bod modd i strategaethau rhanbarthol effeithiol sy'n cael eu cynorthwyo gan seilwaith sy'n cefnogi darpariaeth leol fod o fudd i ddarpariaeth ACL.
- xviii. Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn nodi sut y gallai'r modelau amgen hyn weithio, ynghyd â'u priod manteision ac anfanteision.
- xix. Yn ogystal, dylai'r ddarpariaeth yn y dyfodol gyd-fynd yn agos gyda

chanlyniadau Adolygiad Donaldson a datblygiad trefniadau cwricwlwm newydd yng Nghymru. Roedd Donaldson wedi dadlau o blaid cael 'dysgwyr gydol oes cydnerth'. Mae modd trosglwyddo'r 'colofnau' yn Adolygiad Donaldson i faes ACL, yn enwedig yr uchelgais i greu 'dysgwyr galluog uchelgeisiol; unigolion iach hyderus; cyfranwyr creadigol moesegol a dinasyddion gwybodus moesegol'.

- xx. Er gwaethaf y toriadau i'r cyllid a'r sialensiau ar draws y sector, mae ACL yng Nghymru yn parhau i gynnig ystod eang o fanteision i ddysgwyr trwy gyfrannu at addysg, iechyd a lles y genedl. Gyda ffocws o'r newydd ar weledigaeth a strategaeth, strwythurau, partneriaethau ac ansawdd, heb os nac oni bai, mae potensial i'r sector ACL barhau i gyflawni rôl arweiniol wrth gynorthwyo unigolion a chymunedau ar draws Cymru.

1. Cyflwyniad i'r adolygiad

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Adolygiad o Ddysgu Oedolion yn y Gymuned (ACL) yng Nghymru, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gwblhawyd gan Arad rhwng mis Chwefror a mis Mai 2016.

Nod ac amcanion

- 1.2 Nod yr adolygiad hwn oedd darparu tystiolaeth am natur a gwerth ACL yng Nghymru, fel y mae'n cael ei ddarparu gan awdurdodau lleol a sefydliadau Addysg Bellach (AB), er mwyn cyfrannu at y gwaith o ddatblygu polisi yn y dyfodol.
- 1.3 Amcanion yr adolygiad oedd casglu tystiolaeth er mwyn helpu i ateb y cwestiynau ymchwil canlynol:
- (a) Beth yw ACL a sut mae'n cael ei ddarparu ar draws Cymru ar hyn o bryd, a sut mae'n gwahaniaethu rhwng ardaloedd?
 - (b) Beth yw cyfraniad ACL i gymdeithas yng Nghymru, gan gynnwys ei effaith ar gynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles, swyddi, twf a chyflogadwyedd ehangach?
 - (c) Pa fathau o ACL yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth gynorthwyo'r amrediad hwn o ddeilliannau i ddysgwyr?
 - (d) A oes strwythur darparu penodol y byddai modd ei fabwysiadu er mwyn sicrhau darpariaeth fwy gydlynol ar draws Cymru?

Cefndir a chyd-destun

- 1.3 Mae Sefydliad Addysg, Gwyddoniaeth a Diwylliant y Cenhedloedd Unedig (UNESCO) yn diffinio dysgu oedolion fel 'rhan greiddiol o ddysgu gydol oes ... lle y mae'r rhai sy'n cael eu hystyried fel oedolion gan y gymdeithas y maent yn byw ynnddi yn datblygu ac yn cyfoethogi eu galluoedd ar gyfer bywyd a gwaith' (UNESCO, 2014, t. 2). Mae'r Undeb

Ewropeaidd yn ategu rôl hanfodol dysgu oedolion, gan bwysleisio manteision galluogi oedolion i addasu i newidiadau yn y farchnad gyflogaeth ac arwyddocâd dysgu oedolion wrth uwchsgilio neu ailsgilio'r rhai y bydd diweithdra yn effeithio arnynt, yn ogystal â chyflawni rôl pwysig yn natblygiad personol, dinasyddiaeth a chynhwysiant pobl (Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd, 2011, t.1).

- 1.4 Mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn cynnig rhesymeg sylfaenol ar gyfer datblygiad ACL hefyd, wedi'i strwythuro ar warantu cyflenwad digonol o sgiliau er mwyn bodloni'r galw gan dwf economaidd; i gywiro methiannau addysg a hyfforddiant blaenorol; ac i gynorthwyo cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol. Fodd bynnag, ar draws Ewrop, mae'r cyfleoedd i fanteisio ar ddysgu o'r fath yn amrywio'n fawr ac mae mwy o gynnydd yn cael ei sicrhau mewn gwledydd fel Denmarc, Gwlad yr Iâ, Y Ffindir a Sweden (Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Ymchwil ac Arloesedd y Comisiwn Ewropeaidd, 2013). Yn ogystal, mae'r Comisiwn yn nodi'r methiant i gyflawni'r targed Ewropeaidd o sicrhau bod 12.5 y cant o oedolion yn cymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu gydol oes, fel y nodwyd yn Strategaeth Lisbon; yn wir, roedd cyfranogiad oedolion yn 9.1 y cant erbyn 2010, a gwelwyd y niferoedd yn gostwng yn 2012 (ibid: 22).

Dysgu Oedolion yn y Gymuned yng Nghymru

- 1.5 Roedd polisi *Cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru* (2010) Llywodraeth Cymru yn cydnabod amrediad a hyblygrwydd ACL, a'i botensial i fodloni anghenion dysgu lleol, yn ogystal â'i gyfraniad i'r agenda sgiliau ehangach yng Nghymru. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ACL yn canolbwyntio ar fwy o gyfranogi, ansawdd gwell a chydlyniant wrth ddarparu.
- 1.6 Mae ACL yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr gaffael gwybodaeth a sgiliau trwy gyfrwng ystod amrywiol o gyrsgiau, gan gynnwys dysgu achrededig a heb ei achredu. Nod y cyrsiau a ddarparir i oedolion ar draws Cymru yw cyflawni'r dibenion a nodwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ACL:
- o gymryd y camau cyntaf i faes dysgu

- darparu sgiliau am oes ac ymwreiddio sgiliau sylfaenol
- darparu sgiliau er mwyn byw bywyd annibynnol a sgiliau ar gyfer byd gwaith
- cyfrannu at ddatblygiad personol a lles, a
- datblygu dinasyddiaeth weithredol. (Llywodraeth Cymru, 2016)

1.7 Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru i Gymru, sef datblygu iaith Gymraeg ffyniannus a ddefnyddir yn ystod bywyd bob dydd, yn gofyn am gyfleoedd a chymorth i bobl ddysgu'r iaith ac mae gan ddarpariaeth ACL rôl wrth gyfrannu at y nod strategol hwn hefyd.

1.8 Mae *Cynllun Gweithredu Sgiliau* Llywodraeth Cymru (2014. t. 8) yn cydnabod rôl sylfaenol AB wrth wella ansawdd y ddarpariaeth dysgu oedolion sy'n ymateb i anghenion cyflogwyr. Canfu arolwg ymhlith cyflogwyr a gynhaliwyd yn ddiweddar gan Gomisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2016, t. 187) bod nifer o swyddi gwag heb eu llenwi o ganlyniad i brinder sgiliau ar draws y DU nas gwelwyd ei debyg o'r blaen, er gwaethaf y ffaith y bu twf economaidd cymedrol er 2011. Mae Cymru mewn sefyllfa debyg i sawl rhanbarth arall yn y DU, ac mae 17 y cant o gyflogwyr yn cofnodi bwlch o ran sgiliau neu ddiffyg sgiliau. Mae ACL yn rhan bwysig o'r dewisiadau sydd ar gael i unigolion uwchsgilio, os ydynt mewn cyflogaeth neu'n chwilio am waith.

1.9 Mae gostyngiadau i gyllid y Grant Dysgu Cymunedol (GDC) ac i gyllid rhan-amser ym maes AB yn golygu bod llai o gyfleoedd ar gael i oedolion sy'n ddysgwyr yn y gymuned, a gwelwyd y ffocws yn newid tuag at sgiliau hanfodol. O ganlyniad, bu gostyngiad yn nifer y bobl sy'n manteisio ar ACL. Bu'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cael cyswllt gyda dysgu cymunedol yn fwy na'r gostyngiad yn y niferoedd sy'n cael cyswllt gydag AB a Dysgu Seiliedig ar Waith (DSW), yn ôl y gyfran. Gwelwyd dysgu Cymunedol Awdurdodau Lleol yn gostwng o 28,050 yn 2013/14 i 17,355 yn 2015/16, a oedd yn ostyngiad o 38 y cant (Ystadegau Cymru, 2015, t. 6). O ganlyniad i'r newid er mwyn canolbwyntio ar ddarparu Sgiliau Hanfodol, nid oes modd i ddysgwyr gymryd rhan mewn ystod mor eang o gyrsiau ag yr oeddent yn cael eu cynnig yn flaenorol, ac mae gofyn cynyddol arnynt i dalu am gyrsiau.

- 1.10 Mae data ynghylch Deilliannau Dysgwyr a gesglir bob blwyddyn gan Lywodraeth Cymru yn dangos bod cyfradd lwyddo y gweithgarwch dysgu cyffredinol ar gyfer ACL wedi codi'n gyson o 82 y cant yn 2011/12 i 88 y cant yn 2014/15 (y data mwyaf diweddar a gyhoeddwyd).¹ Dylid nodi bod y mesur hwn yn cyfeirio at ddysgu achrededig yn unig, a bod ACL yn darparu nifer fawr o weithgareddau heb eu hachredu hefyd.
- 1.11 Mae'r ddarpariaeth ACL yn galluogi unigolion i ddysgu sgiliau newydd, i sicrhau cymwysterau ac i ddatblygu llwybrau dilyniant dysgu gydol oes. Yn ogystal, mae'r ddarpariaeth yn cynorthwyo polisïau ehangach sy'n ymwneud â chynhwysiant cymdeithasol a symudedd cymdeithasol, trechu tlodi a lles, gan ddangos cyfraniad ACL i nifer o flaenoriaethau allweddol Llywodraeth Cymru.
- 1.12 Mae cyrhaeddiad addysgol a thwf a swyddi yn ddwy o'r bedair blaenoriaeth i Gymru a bennwyd gan Lywodraeth Cymru (Llywodraeth Cymru, 2015a, t.4). Mae sicrhau dilyniant trwy ddysgu yn cyflawni elfen hanfodol o hyn wrth i unigolion geisio caffael y sgiliau sy'n angenrheidiol er mwyn llwyddo yn y gweithle. Yn ogystal, roeddent yn rhan allweddol o bolisi Llywodraeth Cymru a oedd yn ceisio torri'r cyswllt rhwng tlodi a chyrhaeddiad. Ceir cyswllt agos hefyd rhwng effaith bosibl y ddarpariaeth ACL a nodau allweddol a amlinellir yn *Neddf Cenedlaethau'r Dyfodol* (2015), gan gynnwys nodau cyrff cyhoeddus yn cydweithio er mwyn sicrhau Cymru decach a mwy llewyrchus, gwlad o gymunedau cydlynol ac iaith Gymraeg sy'n ffynnu.
- 1.13 Mae trefniadau cyllido a mecanweithiau darparu ar gyfer ACL yng Nghymru wedi arwain at anghyfartalwch rhwng awdurdodau lleol a rhanbarthau. Gan edrych i'r dyfodol, os yw Llywodraeth Cymru yn mynd i sicrhau bod yr hyn y mae ACL yn ei gynnig i Gymru mor gadarn ac mor gynhwysol ag y bo modd, mae'n hanfodol ei bod yn dysgu o'r profiadau ar draws Cymru a thu hwnt. Dyma'r hyn y bydd yr adolygiad hwn yn ceisio'i gynorthwyo.

¹ <http://gov.wales/statistics-and-research/learner-outcome-measures-further-education-work-based-learning-community-learning/?lang=en>

Dysgu Oedolion yn y Gymuned ar lefel y DU

- 1.14 Gan ystyried ACL yn ei gyd-destun ehangach yn y DU, mae'r adolygiad hwn yn un amserol oherwydd y bydd y ddarpariaeth AB ar draws y DU yn destun gweithgarwch craffu yn dilyn gostyngiadau i'r cyllid. Mae dysgu cymunedol yn rhanbarthau eraill y DU yn cynnig amrediad o gyfleoedd dysgu cymunedol hefyd, a ddarparir gan awdurdodau lleol a cholegau AB yn bennaf.
- 1.15 Yn Lloegr, bu gostyngiad yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn AB i oedolion, ac mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 7.2 y cant yn y niferoedd sy'n cymryd rhan mewn dysgu cymunedol. (BIS, 2016, t. 136). Mynegwyd pryderon am gynladwyedd ariannol ac am ddyfodol y sector yn Lloegr gan adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ddiweddar (Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin, 2015, t. 8). Mae darpariaeth ACL y penderfynir arni mewn ffordd fwy leol wedi cael ei chyflwyno ar draws Lloegr ers peilot yr Ymddiriedolaeth Dysgu Cymunedol (CLT) yn 2012, ac mae'n cynnwys sawl math gwahanol o seilwaith.
- 1.16 Er bod Senedd yr Alban yn pennu gofyniad statudol ar yr holl awdurdodau lleol i ddarparu datblygiad a dysgu cymunedol, bu gostyngiad hefyd yn y cyllid ar gyfer cyrsiau byr a'r rhai nad ydynt yn arwain at gymhwyster cydnabyddedig (Offerynnau Statudol yr Alban, 2013, t. 1). Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o 48 y cant yn niferoedd y myfyrwyr rhan-amser yn yr Alban (Audit Scotland, 2015, t. 11). Yn debyg i'r sefyllfa yng Nghymru, mae gweithgarwch ad-drefnu yng Ngogledd Iwerddon wedi arwain at ostyngiad yn nifer y colegau AB a cheir ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth ac ar y cyd. Mae model cyllido AB Gogledd Iwerddon yn cael ei adolygu ar hyn o bryd hefyd, a bydd hwn yn cynnig dewis defnyddiol er mwyn cyfrannu at strwythurau arfaethedig ar gyfer yr adolygiad hwn (Adran Cyflogaeth a Dysgu, 2016, t. 65).

Methodoleg

- 1.17 Mabwysiadwyd dull gweithredu o ddefnyddio dulliau cymysg er mwyn sicrhau bod y lenyddiaeth fwyaf perthnasol yn cyfrannu at yr adolygiad, a'i fod yn manteisio ar brofiadau ac arbenigedd cynrychiolwyr ar draws y sector ACL. Roedd yr adolygiad yn ceisio cyfleu gwybodaeth fanwl a chyfredol am y gwahanol fodolau o gynnig y ddarpariaeth ACL ar draws Cymru.
- 1.18 Roedd yr adolygiad yn cynnwys y camau gweithgarwch ac ymchwil canlynol:
- Cam cychwynnol a chwmpasu
 - Cyfarfod cychwynnol
 - Cynllunio offerynnau a thempledi ymchwil
 - Cytuno ar gwmpas yr adolygiad llenyddiaeth
 - Adolygiad llenyddiaeth
 - Mapio'r ddarpariaeth ACL, manteisio ar ymchwil desg a gwybodaeth a ddarparwyd gan Bartneriaethau ACL
 - Cyfweiliadau gyda rhanddeiliaid a chynrychiolwyr Partneriaethau ACL. At ei gilydd, cwblhawyd 23 o gyfweiliadau, yr oeddent yn cynnwys 11 o ddarparwyr dysgu, naw o gynrychiolwyr awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru (dau gyfweiliad) a'r Sefydliad Dysgu a Gwaith.
- 1.19 Drafftwyd dau dempled ymchwil: defnyddiwyd y templed cyntaf – ffurflen archwilio data – er mwyn cofnodi data o'r adolygiad llenyddiaeth mewn ffordd strwythuredig, a oedd yn cyfateb gyda chwestiynau ymchwil yr adolygiad; defnyddiwyd yr ail dempled er mwyn mapio'r ddarpariaeth ACL ar draws holl ardaloedd y Partneriaethau ACL. Roedd y templed a ddefnyddiwyd er mwyn mapio'r ddarpariaeth ACL ar draws Partneriaethau yn casglu gwybodaeth am aelodaeth, cyllid, nodau strategol a blaenoriaethau, mathau o ddarpariaeth a'r lleoliadau a ddefnyddir er mwyn darparu ACL.

Strwythur yr adroddiad

1.20 Strwythurwyd yr adroddiad fel a ganlyn:

Pennod
1. Cyflwyniad i'r adolygiad
2. Adolygiad llenyddiaeth
3. Dadansoddiad o'r ddarpariaeth ACL gyfredol yng Nghymru
4. Tystiolaeth ansoddol
5. Casgliadau ac argymhellion yr adolygiad
Atodiadau

2. Adolygiad llenyddiaeth

Cwmpas a chynnwys yr adolygiad llenyddiaeth

- 2.1 Gan fanteisio ar lenyddiaeth a gyhoeddwyd yng Nghymru ac ar draws y DU, nod yr adolygiad llenyddiaeth hwn yw cynnig atebion i ddau o brif gwestiynau ymchwil yr adolygiad sef:
- (a) Beth yw cyfraniad ACL i gymdeithas (yng Nghymru), gan gynnwys ei effaith ar gynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles, swyddi, twf a chyflogadwyedd ehangach?
 - (b) Pa fathau o ACL yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth gynorthwyo'r amrediad hwn o ddeilliannau i ddysgwyr?
- 2.2 Ni fu modd cynnal adolygiad systematig o'r dystiolaeth o fewn yr amserlenni a oedd ar gael a chan ddefnyddio'r adnoddau a neilltuwyd i'r adolygiad hwn. Bu tîm yr adolygiad yn defnyddio rhestr o gyfeiriadau a luniwyd gan wasanaeth Llyfrgell ac Archif Llywodraeth Cymru yn 2014, a oedd yn cyfeirio at y dystiolaeth fwyaf berthnasol a chadarn sydd ar gael ar draws y DU. Cynhwyswyd cyhoeddiadau mwy diweddar ychwanegol (gan gynnwys cyhoeddiadau gan Estyn, y Sefydliad Dysgu a Gwaith/NIACE Dysgu Cymru, datganiadau ystadegol Llywodraeth Cymru) yn yr adolygiad llenyddiaeth hefyd.
- 2.3 Cytunwyd ar feysydd ymchwilio allweddol ac fe'u defnyddiwyd i strwythuro'r adolygiad. Strwythurwyd y bennod hon yn unol â'r pynciau hyn: yn gyntaf, tystiolaeth o gyfraniad ACL i gymdeithas (paragraffau 2.4-2.55) ac yn ail, tystiolaeth o effeithiolrwydd modelau darparu ACL (paragraffau 2.56-2.116). Mae'r bennod yn cau gyda chrynodeb o'r casgliadau a'r prif faterion a nodwyd yn y lenyddiaeth a adolygwyd.

Tystiolaeth o gyfraniad ACL i gymdeithas

- 2.4 Mae'r adran hon yn trafod cyfraniad ACL i gymdeithas, gan adolygu tystiolaeth o effaith ACL mewn perthynas ag amrediad o ganlyniadau economaidd a chymunedol ehangach.

- Cyflogadwyedd
- Gwerth yr elw ar y buddsoddiad
- Cynhwysiant cymdeithasol, cyswllt cymunedol a chydlyniant
- Iechyd a lles
- Gwelliant mewn sgiliau
- Dysgu fel teulu
- Dysgu pellach

- 2.5 Yn y lenyddiaeth, mesurwyd effaith a gwerth ACL trwy gyfrwng gweithgarwch hunan-adrodd dysgwyr. Yn aml, cesglir y wybodaeth yn ystod cyfweiliadau neu drafodaethau grŵp. Mewn rhai achosion, fe'i chesglir trwy gyfrwng holiaduron neu ddyddiaduron dysgwyr.
- 2.6 Yn y ddogfennaeth a adolygwyd, mae meintiau'r samplau dysgwyr a roddodd adborth am effaith ACL yn amrywio o samplau bach o tua 100, i samplau mwy o tua 6,000 o unigolion. Gan amlaf, adroddir tystiolaeth o'r effaith trwy gyflwyno canran o sampl sydd wedi hunan-adrodd manteision i'w hunain.

Cyflogadwyedd

- 2.7 Mae cyflogadwyedd yn cynnig cymhelliant er mwyn buddsoddi mewn ACL ac ar gyfer cyfranogiad nifer o ddysgwyr mewn ACL. Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran yr effaith gadarnhaol y mae ACL yn ei gael ar gyflogadwyedd. Fel y trafodir yn yr adrannau yn nes ymlaen sy'n canolbwyntio ar gydlyniant cymdeithasol, iechyd a lles a dysgu fel teulu, nid oes gan rai dysgwyr unrhyw ddisgwyliadau i wella'u cyflogadwyedd gan eu bod yn aml yn cymryd rhan mewn ACL am resymau hamdden a chymdeithasol yn unig.

Cyflogadwyedd

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae ACL yn galluogi dysgwyr i gaffael sgiliau newydd.
- Mae ACL yn meithrin hyder dysgwyr wrth iddynt chwilio am swydd.
- Mae ACL yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn cael swydd newydd neu ddyrchafiad.

- Mae ACL yn gwella perfformiad dysgwyr yn eu swydd.
- Mae ACL yn peri i ddysgwyr deimlo'n fwy bodlon yn eu swydd.

- 2.8 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ACL yn cael effaith gadarnhaol ar weithgarwch economaidd a chyflogadwyedd (e.e. WEA, 2014a; Estyn 2014; Evans et al, 2013 a NIACE, 2014b). Er enghraifft, mae adroddiad am effaith gyffredinol gwaith NIACE (2015b) yn nodi bod 75 y cant o ddysgwyr (o sampl o 2,390) yn teimlo'n fwy cadarnhaol am gyflogaeth ar ôl cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu.
- 2.9 Mae'r lenyddiaeth yn amlinellu nifer o ffyrdd lle y mae ACL yn cael effaith gadarnhaol ar gyflogadwyedd a gweithgarwch economaidd dysgwyr. Rhoddir crynodeb o'r meysydd mwyaf cyffredin o ran yr effaith yn adroddiadau WEA (2014a a 2014b). Mae adroddiad cyntaf WEA (2014a) yn cyflwyno effeithiau ACL ar gyflogadwyedd a gweithgarwch economaidd yn y tymor byr. Mae ail adroddiad WEA (2014b) yn cyflwyno effeithiau hirdymor ACL (18 mis ar ôl i fyfyrwyr gwblhau eu cwrs). Mae Tabl 1 yn rhoi crynodeb o'r canfyddiadau hyn.

Tabl 1. Crynodeb o ganfyddiadau ymchwil WEA (2014a a 2014b).

WEA (2014a) – effeithiau tymor byr. Sampl = 659	WEA (2014b) – effeithiau hirdymor. Sampl = Ton 1 – 522 a Thon 2 – 276
Dywedodd 64 y cant o fyfyrwyr WEA bod eu cwrs wedi rhoi sgiliau newydd iddynt y gallent eu defnyddio mewn swydd.	Roedd 52 y cant wedi dysgu sgiliau newydd ar gyfer eu cyflogaeth, gan ymgymryd ag ystod ehangach o gyfrifoldebau.
Roedd 38 y cant o fyfyrwyr yr oeddent mewn cyflogaeth yn teimlo'n fwy hyderus i symud ymlaen yn eu gyrfa.	Roedd 35 y cant wedi dechrau ennill mwy ac roedd 11 y cant wedi cael dyrchafiad.
Roedd 35 y cant yn gallu gwneud eu swydd yn well.	Dywedodd 68 y cant eu bod yn gallu gwneud eu swydd yn well nag yr oeddent adeg arolwg 2013.
Roedd 11 y cant wedi cael swydd newydd neu maent yn gwneud gwahanol fath o waith erbyn hyn.	O blith y myfyrwyr hynny yr oeddent yn gyflogedig (49 y cant), roedd 41 y cant wedi cael swydd newydd ers y don gyntaf ac roedd 23 y cant yn gwneud gwahanol fath o waith erbyn hyn.
Adroddodd 86 y cant o fyfyrwyr yr oeddent yn ddi-waith ac yn chwilio am waith, eu bod yn teimlo'n fwy hyderus wrth fynd ati i chwilio am swydd.	Roedd 53 y cant yn hapusach gyda'u swydd ac yn teimlo'n fwy bodlon gyda'u gwaith.

2.10 Mae canfyddiadau dwy astudiaeth WEA (WEA, 2014a; WEA, 2014b) yn dangos bod ACL wedi cael effeithiau yn y tymor byr a'r tymor hir ar gyflogadwyedd a gweithgarwch economaidd dysgwyr. Mae'n ymddangos y bu'r prif effaith ar feithrin sgiliau newydd, sy'n cael effaith gynyddol ar gynyddu hyder dysgwyr wrth iddynt chwilio am swydd a'u tebygolrwydd o gael swydd newydd neu ddyrchafiad; yn ogystal â gwella'u perfformiad yn eu swydd a'u bodlonrwydd gyda'u swydd.

2.11 Mae nifer o adroddiadau ymchwil eraill yn cefnogi'r honiad bod ACL yn galluogi dysgwyr i gaffael sgiliau newydd (e.e. Estyn, 2012a; Estyn, 2014; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, dim dyddiad). Er enghraifft, mae adroddiad canfyddiadau'r Gronfa Trawsnewid am ddysgu cymunedol a dysgu oedolion anffurfiol yn Lloegr yn amlinellu nifer o sgiliau y bydd dysgwyr yn aml yn eu sicrhau, megis sgiliau trefnu personol ac agweddol (NIACE, 2010a).

2.12 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod ACL yn meithrin sgiliau dysgwyr cyflogedig ac anghyflogedig, sy'n gwella'u cyflogadwyedd (BIS, 2013c). I ddysgwyr cyflogedig, mae meithrin eu sgiliau yn eu galluogi i ymgymryd ag ystod ehangach o gyfrifoldebau o fewn eu swydd gyfredol (WEA, 2014b), i wella'u perfformiad yn eu swydd (Estyn, 2014), i gael dyrchafiad (London Economics ac Ipsos MORI, 2013) neu i gael swydd newydd (London Economics ac Ipsos MORI, 2013). Mae'r lenyddiaeth yn cynnig enghreifftiau cadarn o achosion lle y mae ACL wedi cael effaith yn y meysydd hyn:

'...ar ôl cael addysg a hyfforddiant, dywedodd 35 y cant o ddynion a 29 o fenywod eu bod wedi cael swydd well, a dywedodd 18 y cant o ddynion a 12 y cant o fenywod eu bod wedi cael dyrchafiad.'

London Economics ac Ipsos MORI (2013, t.8)

2.13 I ddysgwyr di-waith, mae cynyddu eu sgiliau yn eu hannog i fod yn fwy hyderus wrth chwilio am swydd yn y dyfodol. Mae adroddiad sy'n cyflwyno astudiaethau achos o gynlluniau peilot CLT yn cefnogi'r honiad hwn. Mae'r adroddiad yn rhoi crynodeb o brif ganfyddiadau ton gyntaf yr Arolwg Dysgwyr am Ddysgu Cymunedol, a gynhaliwyd gyda 4,000 o bobl

yr oeddent wedi cwblhau cwrs dysgu cymunedol yn Lloegr yn ddiweddar. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r ffaith bod 70 y cant o ymatebwyr di-waith wedi adrodd eu bod yn teimlo'n fwy hyderus ynghylch chwilio am swydd yn y dyfodol (BIS, 2013c, t. 11)

2.14 Mae caffael sgiliau newydd yn cynyddu'r rhagolygon o sicrhau cyflogaeth. Felly, yn ychwanegol i feithrin hyder dysgwyr di-waith wrth iddynt chwilio am swydd, mae tystiolaeth yn awgrymu bod ACL yn gwella'r tebygolrwydd y bydd dysgwyr yn cael swydd trwy ddatblygu sgiliau dysgwyr (e.e. Fujiwara, 2012; Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, dim dyddiad).

Elw ar fuddsoddiad mewn ACL

2.15 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth sy'n dynodi manteision penodol buddsoddi mewn dysgu oedolion.

Gwerth yr elw ar y buddsoddiad

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae modd priodoli gwerth ariannol i effeithiau cadarnhaol ACL.
- Gall cymryd rhan mewn ACL arwain at ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol llai costus.
- Awgrymwyd bod ACL yn lleihau'r gwariant ar fudd-daliadau diweithdra, taliadau lles a phensiynau ymddeol cynnar mewn ffordd anuniongyrchol.
- Gall ACL wella annibyniaeth pobl hŷn: gallai oedi'r angen am ofal 'gymaint â mis yn unig arbed £1.8 miliwn y flwyddyn i Gymru'.

2.16 Mesurodd Fujiwara (2012) effaith dysgu oedolion gan ddefnyddio'r dulliau diweddaraf a amlinellwyd yng nghanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM (Fujiwara a Campbell, 2011). Yn gyntaf, adroddodd Fujiwara (2012) bod ACL yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd, cyflogaeth, perthnasoedd cymdeithasol a gwirfoddoli. Cyfrifodd Fujiwara amcangyfrifon o werth ariannol yr effeithiau cadarnhaol hyn gan ddefnyddio dulliau a awgrymwyd gan ganllawiau Trysorlys EM. Yn gyffredinol, roedd yr adroddiad yn amlinellu gwerth nifer o effeithiau i oedolion sy'n cymryd rhan mewn cwrs rhan-amser, megis:

- Gwelliannau i iechyd sy'n werth £148 i'r unigolyn;
- Mwy o debygolrwydd y byddant yn cael swydd a/neu'n aros mewn

swydd, sy'n werth £231 i'r unigolyn;

- Gwella perthnasoedd cymdeithasol, sy'n werth £658 i'r unigolyn; a
- Mwy o debygolrwydd y bydd pobl yn gwirfoddoli'n rheolaidd, sy'n werth £130 i'r unigolyn (2012, t. 28).

2.17 Mae'r canfyddiadau uchod yn dangos bod modd rhoi gwerth ar effeithiau cadarnhaol ACL megis y rhai a drafodwyd yma. Mae'n dangos hefyd bod manteision ariannol i fuddsoddi mewn dysgu.

2.18 Mae tystiolaeth bellach yn dynodi elw cymdeithasol ar fuddsoddiad mewn ACL. Roedd adroddiad yn cyflwyno astudiaethau achos o'r gwasanaethau Dysgu a Datblygu Cymunedol yn yr Alban (Rheolwyr Dysgu a Datblygu Cymunedol yr Alban, 2013) yn dangos yr elw cymdeithasol ar fuddsoddiad yn y gwasanaethau hyn. Roedd dadansoddiad o'r elw cymdeithasol ar fuddsoddiad rhaglenni dysgu llythrennedd oedolion Cyngor Dinas Dundee yn un enghraifft a amlinellwyd yn yr adroddiad hwn. Cynhaliwyd hwn ar gyfer 60 o ddysgwyr dros gyfnod o flwyddyn. Yn gyffredinol, daeth i'r casgliad bod £7 o elw am bob punt a fuddsoddiwyd. Mae Tabl 2 yn rhoi crynodeb o ganfyddiadau'r dadansoddiad hwn.

Tabl 2. Dadansoddiad o'r elw cymdeithasol ar fuddsoddiad.

Allbynnau a Chanlyniadau	Elw Cymdeithasol (Blwyddyn 1)
Roedd 100% wedi adrodd bod ganddynt fwy o hyder	£12,139
Roedd 100% wedi adrodd am lefelau llythrennedd uwch	£29,000
Roedd 20 wedi sicrhau cymhwyster sgiliau craidd	£18,610
Adroddodd 84% am welliant o ran eu lles meddyliol	£9,531
Roedd 3 dysgwr wedi symud ymlaen i gyflogaeth	£11,750
Adroddodd 35 o ddysgwyr eu bod wedi datblygu sgiliau er mwyn chwilio am waith	£39,803
Adroddodd 33 o ddysgwyr am rwydweithiau cymdeithasol gwell	£2,206
Bu 20 o rieni/gofalwyr yn helpu eu plant i ddysgu	£13,680

Ffynhonnell: Rheolwyr Dysgu a Datblygu Cymunedol yr Alban, 2013, t.12

2.19 Yn ychwanegol i'r elw cymdeithasol ar y buddsoddiad, mae'r lenyddiaeth yn dynodi gwerth gwella iechyd unigolion trwy gyfrwng ACL ac o

ganlyniad, mae unigolion yn fwy gweithredol, yn fwy cymdeithasol, yn iachach ac yn fwy addysgedig, ac nid ydynt yn gymaint o faich ar 'eu teulu, a thrwy hynny, ar adnoddau a gwasanaethau cymuned' (Merriam a Kee, 2014, t. 131). Mae cryfhau annibyniaeth pobl hŷn a'u gallu i ofalu am eu hunain yn gallu oedi'r angen am ofal neu gymorth ac mae modd iddo arbed arian hefyd, er enghraifft, 'byddai oedi'r angen hwn gymaint â mis hyd yn oed yn gallu arbed £1.8 miliwn y flwyddyn i Gymru' (Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru, (dim dyddiad, t. 35).

2.20 Mae'r lenyddiaeth yn amlinellu manteision ariannol effaith ACL ar gyflogadwyedd ac mae'n dynodi arbedion posibl i'r pwrs cyhoeddus. Er enghraifft, mae adroddiad Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (dim dyddiad) yn dweud, trwy wella cyflogadwyedd, bod ACL yn lleihau'r gwariant ar fudd-daliadau diweithdra, taliadau lles a phensiynau ymddeol cynnar mewn ffordd anuniongyrchol.

Cynhwysiant cymdeithasol, cyswllt â'r gymuned a chydlyniant

2.21 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r lenyddiaeth o ran effaith gadarnhaol ACL ar gynhwysiant cymdeithasol, cyswllt â'r gymuned a chydlyniant.

Cynhwysiant cymdeithasol, cyswllt â'r gymuned a chydlyniant

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae ACL yn hyrwyddo iechyd a lles, cynhwysiant cymdeithasol ac mae'n helpu i leihau arwahanrwydd.
- Mae ACL yn annog cyswllt â'r gymuned, sy'n cynyddu cydlyniant cymunedol a chymdeithasol.
- Mae ACL yn annog mwy o gyswllt gyda gwaith gwirfoddol.
- Mae ACL yn ysbrydoli dysgwyr i annog eraill i gymryd rhan mewn gweithgareddau i ddysgwyr.

2.22 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ACL yn helpu i hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lleihau arwahanrwydd cymdeithasol (e.e. Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol, 2014; NIACE, 2012a; a HMIE, 2011). Mae hyn yn arbennig o bwysig er mwyn gwella bywydau rhai o'r grwpiau mwyaf difreintiedig, megis y rhai ar incwm isel, pobl Dduon, Asiaidd ac o

gefndiroedd Ethnig Lleiafrifol neu Ffoaduriaid (BAMER), pobl oedrannus ynysig a'r rhai sydd ag anableddau (WEA, 2014a). Roedd adroddiad gan NIACE (2012a) yn nodi bod dysgu cymunedol gwledig yn cynyddu rhyngweithio cymdeithasol ac yn lleihau arwahanrwydd, a chanfuwyd bod hyn yn arbennig o fuddiol i bobl oedrannus ac oedolion difreintiedig.

2.23 Dywedir bod cyfarfod pobl newydd yn ganlyniad cadarnhaol i nifer o ddysgwyr (Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol, 2014; WEA, 2014a). Er enghraifft, canfu gwaith ymchwil ynghylch effaith cyrsiau WEA bod 88 y cant o fyfyrwyr, o blith sampl o 659, wedi cyfarfod pobl ar eu cwrs na fyddent yn cymysgu gyda nhw fel arfer (WEA, 2014a, t. 7). Mae canfyddiadau'r Gronfa Trawsnewid a fu'n cynorthwyo 214 o fentrau lleol a oedd yn profi dulliau gweithredu arloesol yn ategu hyn; gan amlinellu sut y mae prosiectau wedi helpu unigolion a chymunedau i feithrin cysylltiadau cryf a chyfeillgarwch trwy gyfrwng gweithgareddau dysgu. Roedd hyn yn peri i ddysgwyr fod yn fwy cyfarwydd gyda phobl o gefndiroedd amrywiol, gan godi ymwybyddiaeth ddiwylliannol a lleihau rhagfarn (NIACE, 2010a).

2.24 Mae cyfres o astudiaethau achos am Gwricwlwm Dinasyddion (Robey 2015a, 2015b, 2015c a 2015d) yn darparu tystiolaeth bellach o rôl pwysig ACL wrth hyrwyddo cydlyniant a chynhwysiant cymdeithasol. Bu un o'r prosiectau peilot yn gweithio gydag English for Action gan ddatblygu sgiliau Saesneg, gyda phwyslais ar fanteisio ar ofal iechyd (Robey, 2015a). Bu cynllun peilot arall yn ymgysylltu gyda theuluoedd mudol cyn i'w plant gychwyn yr ysgol, gyda'r nod o ddatblygu gallu'r rhieni i gynorthwyo eu plant i ddeall ac i ddefnyddio Saesneg (Robey, 2015b). Roedd y ddau gynllun peilot wedi helpu dysgwyr i feithrin ymdeimlad o berthyn i gymuned. Roedd natur ryngweithiol a chymdeithasol y rhaglenni yn cynorthwyo dysgwyr i feithrin cyfeillgarwch a lleihau arwahanrwydd, gan roi mwy o hyder iddynt i gymryd rhan yn y gymuned ac i ddefnyddio gwasanaethau lleol.

2.25 Yn ychwanegol i leihau arwahanrwydd cymdeithasol, mae ACL yn annog cyswllt cymunedol (WEA, 2014b; Merriam a Kee, 2014; Rheolwyr Dysgu a Datblygu Cymunedol yr Alban, 2013; BIS, 2012), sy'n arwain at fwy o

gydlyniant cymdeithasol a chymunedol. Canfu adroddiad sy'n cynnig trosolwg o effaith gwaith NIACE (2015b) bod 79 y cant o ddysgwyr wedi cael mwy o gyswllt gyda'u cymuned o ganlyniad i'w dysgu. Mae ffyrdd y bydd dysgwyr yn cael mwy o gyswllt gyda'u cymuned o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu yn cynnwys gwirfoddoli, cynnal eu dosbarthiadau neu eu gweithgareddau eu hunain ac annog eraill i gymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu. Mae cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn dynodi bod dysgwyr yn fwy parod i gyfrannu i'r gymuned ac i fywyd cyhoeddus ehangach o ganlyniad i'r dysgu (Estyn, 2014). Mae enghreifftiau o'r effaith a adroddwyd yn dilyn cyrsiau WEA yn cynnwys:

- roedd 44 y cant yn honni bod modd iddynt gyflawni rôl mwy cadarnhaol yn eu cymuned.
- roedd 34 y cant yn fwy ymwybodol o sut y mae modd iddynt gymryd rhan yn y penderfyniadau a wneir.
- Roedd 12 y cant wedi cofrestru i bleidleisio.
- Roedd 10 y cant wedi cysylltu ag awdurdodau cyhoeddus at ddibenion ymgynghori neu er mwyn trafod mater.
(WEA, 2014a, t. 7)

2.26 Mae ACL yn annog mwy o gyswllt gyda gwaith gwirfoddol (BIS, 2012).

Canfu adroddiad am effeithiau dysgu oedolion ar wahanol rannau o fywyd (Fujiwara, 2012) bod pobl yr oeddent yn dilyn cwrs yn ystod y flwyddyn y cynhaliwyd y gwaith ymchwil ynddi neu yr oeddent wedi cwblhau cwrs yn ystod y flwyddyn honno, yn fwy tebygol o ddod yn wirfoddolwyr mynych. Mae eraill yn cefnogi hyn: yn dilyn dysgu gan oedolion hŷn, roedd 57 y cant o sampl o 125 o ddysgwyr wedi gwella'u cyswllt â'r gymuned a'u gweithgarwch gwirfoddoli (Estyn, 2012a, t. 11). Gallai budd allweddol i'r gwirfoddolwr gynnwys symud ymlaen i wneud gwaith am dâl (BIS, 2014).

2.27 Mae'r lenyddiaeth yn amlinellu sut y mae ACL yn annog aelodau'r gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu. Er enghraifft, canfu ymgynghoriad cenedlaethol (gyda sampl o 6,306 o unigolion a 227 o grwpiau) a oedd yn canolbwyntio ar ddysgu cymunedol a dysgu oedolion anffurfiol, y canlynol:

- byddai 45 y cant yn dymuno trefnu gweithgarwch dysgu anffurfiol;
- byddai 43 y cant yn dymuno cynnal sesiwn i roi blas ar ddysgu anffurfiol;
- byddai 41 y cant yn dymuno cymryd rhan mewn dysgu oedolion anffurfiol gan

- gyflawni rôl megis hyrwyddwr neu gynrychiolydd dysgu; a byddai 40 y cant yn dymuno cynnal grŵp dysgu anffurfiol. (NIACE, 2012b, t. 28)

2.28 Darparir enghreifftiau penodol yn y lenyddiaeth o'r ffordd y mae dysgwyr wedi cael mwy o gyswllt gyda'u cymuned o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan mewn ACL. Darparir rhai o'r enghreifftiau hyn yma ac maent yn dangos sut y mae ACL yn annog cyswllt gyda'r gymuned o ran trwytho sgiliau dysgwyr a'u diddordeb mewn trefnu a darparu amrediad o weithgareddau yn y gymuned.

'Mae Dinas a Sir Abertawe wedi sefydlu fforwm i oedolion sy'n ddysgwyr. Mae'r dysgwyr sy'n ymwneud â'r fforwm wedi dilyn cyrsiau mewn sgiliau eiriolaeth, trefnu, a rheoli cyfarfodydd a chymryd cofnodion. Mae tri o'r dysgwyr hyn wedi gwneud defnydd da o'r dysgu hwn er mwyn dechrau cynnal eu dosbarthiadau eu hunain ym maes gemwaith, tecstilau a gleinwaith.'

Estyn (2014, t.10)

'Mae dysgwyr wedi defnyddio'u sgiliau a'u gwybodaeth newydd mewn ffordd dda er mwyn trefnu amrediad o weithgareddau, gan gynnwys Uwch-gynhadledd i fenywod yn Abertawe, drama am y swffragetiaid, ymgyrch Achub y Gwenyn a digwyddiad i godi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod.'

Estyn (2014, t.10)

2.29 Mae tystiolaeth yn dangos bod ACL yn ysbrydoli dysgwyr i annog aelodau eraill yn eu cymuned i gymryd rhan mewn dysgu. Er enghraifft, yn adroddiad Estyn (2014), esbonnir sut yr oedd ACL wedi helpu i wella ymwybyddiaeth un dysgwr o'r rhwystrau y mae rhai pobl yn eu hwynebu, sy'n eu hatal rhag dysgu. Ers cymryd rhan yn ACL, mae'r dysgwr hwn wedi annog pobl ddigartref y mae hi'n gweithio gyda nhw i ddychwelyd i fyd addysg. Mae dysgwyr o gymunedau duon a lleiafrifoedd ethnig wedi helpu eraill yn eu cymunedau i ystyried cyfleoedd dysgu newydd hefyd (ibid). Cefnogir y canfyddiadau hyn gan waith ymchwil WEA, a fu'n archwilio effeithiau hirdymor cyrsiau WEA; 18 mis ar ôl i'r myfyrwyr gwblhau eu cwrs, roedd 85 y cant o fyfyrwyr (o sampl o 276) wedi annog

eraill i gymryd rhan mewn gweithgarwch dysgu (WEA, 2014b, t. 7). Mae'r canfyddiadau hyn yn dynodi bod ACL yn helpu oedolion i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros hyrwyddo manteision ac anfanteision dysgu i bobl arall.

Iechyd a lles

2.30 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r lenyddiaeth o ran effaith gadarnhaol ACL ar iechyd a lles unigolion.

Iechyd a lles

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae ACL yn gwella iechyd meddyliol a chorfforol dysgwyr.
- Mae ACL yn annog gweithgarwch corfforol.
- Mae ACL yn cynyddu hyder dysgwyr, eu tybiaethau o ran hunan-werth ac mae'n lleihau iselder.
- Mae ACL yn gwella ansawdd bywyd dysgwyr a'u bodlonrwydd gyda'u bywyd.
- Mae ACL yn gostwng nifer yr ymweliadau i weld meddygon teulu a'r defnydd a wneir o wasanaethau iechyd eraill, gan leihau cost ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol.

2.31 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ACL yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles unigolion (NIACE, 2014b). Er enghraifft, pan ystyriodd Estyn effaith ACL ar les dysgwyr hŷn, canfu bod 94 y cant o ddysgwyr (o'r 125 a gyfwelwyd) wedi adrodd manteision i'w hiechyd o fynychu sesiynau dysgu (Estyn, 2012a, t. 11). Cefnogir hyn gan astudiaeth hydredol WEA a oedd wedi canfod bod 87 o ymatebwyr wedi adrodd o leiaf un canlyniad i'w hiechyd a'u lles 18 mis ar ôl cwblhau'r cwrs (WEA, 2014b, t. 6). Rhoddir crynodeb o ganfyddiadau pellach y gwaith ymchwil hwn yn Nhabl 3.

Tabl 3. Canfyddiadau astudiaeth hydredol WEA am iechyd a lles (WEA, 2014b)

- Adroddodd 56 y cant am welliannau mewn lles ac iechyd meddyliol, ac adroddodd 27 y cant am welliannau mewn iechyd corfforol a ffitrwydd.
- Mae 65 y cant yn gwneud mwy o weithgareddau er mwyn cadw eu meddwl a'u corff yn iach.
- Adroddodd 56 y cant bod eu hunan-hyder wedi gwella.
- Roedd 57 y cant yn honni bod ganddynt fwy o weithgareddau i lenwi eu hamser sbâr ac roedd 53 y cant yn gadael y tŷ yn fwy aml.
- Ar raddfa lles goddrychol ONS, roedd yr ymatebwyr wedi rhoi sgôr o 8.5 allan o 10 ar gyfer eu bodlonrwydd gyda'u bywyd (a oedd wedi codi o sgôr y flwyddyn flaenorol sef 7.5), 9 ar gyfer eu lles (a oedd wedi codi o 8) ac 8.7 ar gyfer eu hapusrwydd ddoe (a oedd wedi codi o 7.5).

- 2.32 Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos nifer o ffyrdd y mae ACL yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles dysgwyr. Un maes allweddol yw gwella iechyd meddyliol a chorfforol dysgwyr. Mae tystiolaeth yn dangos bod ymgysylltu gyda gweithgareddau dysgu yn helpu i gadw dysgwyr yn weithredol yn feddyliol ac yn gorfforol (BIS, 2011a). O ran iechyd corfforol, mae tystiolaeth yn awgrymu bod unigolion sy'n cymryd rhan mewn dysgu yn llai tebygol o adrodd problemau corfforol megis problemau ar y galon a gyda'u pwysedd gwaed (Fujiwara, 2012). Nododd adroddiad gan NIACE (2014b) a fu'n ystyried canlyniadau 97 o brosiectau a ariannwyd trwy'r Gronfa Arloesedd Dysgu Cymunedol (CLIF) bod canlyniad mwyaf cyffredin ACL ar iechyd dysgwyr y cyfeiriwyd ato yn ymwneud â gallu dysgwyr i reoli eu hiechyd corfforol.
- 2.33 Un ffordd arall y mae ACL yn gwella iechyd corfforol yw trwy annog dysgwyr i gadw'n heini. Er enghraifft, mae adroddiad sy'n canolbwyntio ar effaith gyffredinol gwaith NIACE yn nodi bod yr holl ddysgwyr a gofrestrodd ar weithgareddau dysgu, 2,390 ohonynt, wedi gwneud mwy o weithgarwch corfforol o ganlyniad i'r ffaith eu bod wedi cymryd rhan mewn dysgu (NIACE, 2015b, t. 11).
- 2.34 O ran iechyd meddwl, mae ACL yn cynyddu hyder dysgwyr a'u tybiaethau o'u hunan-werth (Llywodraeth Cymru, 2010a; BIS, 2011b; Estyn, 2012a). Adroddodd un adroddiad a fu'n ystyried manteision economaidd a chymdeithasol addysg bellach a sgiliau bod 81 y cant o 1,955 o ddysgwyr nad oeddent mewn cyflogaeth wedi dweud eu bod wedi meithrin eu hunan-hyder neu eu hunan-barch yn dilyn eu hyfforddiant (London Economics ac Ipsos MORI, 2013, t. 55).
- 2.35 Mae'n ymddangos bod meithrin hunan-hyder a hunan-barch dysgwyr yn effaith gadarnhaol allweddol y mae ACL yn ei gynnig i iechyd meddwl dysgwyr. Mae'r lenyddiaeth yn awgrymu mai'r rheswm mwyaf cyffredin am hyn yw bod ACL yn cynyddu sgiliau a galluoedd dysgwyr (NIACE, 2010a) ac yn rhoi'r adnoddau iddynt i reoli eu tynged (WEA, 2014a).
- 2.36 Gall mwy o hunan-hyder o ganlyniad i ACL arwain at agwedd well tuag at ddysgu. Mae astudiaeth achos o gynllun peilot y Cwricwlwm Dinasyddion

a ddarparwyd trwy Tomorrow's Women Wirral (TWW), elusen gymunedol i fenywod yn unig, yn cefnogi'r honiad hwn (Robey, 2015d). Un o brif nodau'r prosiect oedd cynnig cymorth i fenywod er mwyn atal troseddu a'u helpu trwy'r cyfnod adfer. O ganlyniad i'r prosiect, gwelwyd lefelau hunan-hyder uwch dysgwyr yn cynyddu eu cymhelliant i ddysgu, gan roi'r hyder iddynt i gofrestru ar gyfer dysgu pellach (ibid).

2.37 Yn ychwanegol i feithrin hunan-hyder dysgwyr, mae ACL yn helpu i leihau iselder (BIS, 2012), mae'n rhoi rhywbeth defnyddiol i ddysgwyr ei wneud yn ystod eu hamser sbâr (London Economics ac Ipsos MORI, 2013) ac mae'n rhoi egwyl iddynt o straen dyddiol (WEA, 2014a). Mae hyn wedi arwain at gynnydd mewn lefelau bodlonrwydd dysgwyr gyda'u bywyd cymdeithasol a'u defnydd o'u hamser hamdden (BIS, 2012). Mae'r canfyddiadau hyn yn dangos bod ACL yn galluogi dysgwyr i wneud newid cadarnhaol i'w bywydau, ac mae hyn yn ei dro yn cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddyliol.

2.38 Yn gysylltiedig gydag iechyd meddwl, mae tystiolaeth bellach yn awgrymu bod ACL yn gwella ansawdd bywyd dysgwyr, ac felly, eu bodlonrwydd gyda'u bywyd. Er enghraifft, canfu canfyddiadau ton gyntaf Arolwg Dysgwyr Dysgu Cymunedol bod 71 y cant o ddysgwyr yn adrodd bod ansawdd eu bywyd wedi gwella o ganlyniad i'w cwrs (BIS, 2013c, t. 10). Cefnogir hyn gan WEA, sy'n nodi bod 84 y cant o'r holl ymatebwyr wedi adrodd am welliannau i ansawdd eu bywyd a bod 81 y cant yn teimlo'n well am eu hunain yn gyffredinol o ganlyniad i'r cwrs (WEA, 2014a, t. 6).

2.39 Mae astudiaethau wedi dadansoddi cyfranogiad pobl hŷn mewn dysgu a'i effaith ar leddfau unigrwydd. Er enghraifft, nododd astudiaeth yn Nhaiwan (2010-2012) am 486 o ddysgwyr hŷn yr effaith gadarnhaol y mae dysgu yn ei gael ar leddfau unigrwydd trwy helpu unigolion i feithrin cyfeillgarwch ystyrllon a rhwydwaith cymdeithasol (Hung a Lu, 2014). Bu astudiaeth a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Sbaen yn canolbwyntio ar ddysgwyr hŷn hefyd (rhwng 57 ac 86 oed) a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar heneiddio mewn ffordd egnïol wrth gymryd rhan mewn cwrs TGCh, gan ystyried ymatebion gan grŵp arbrofol o 112 o unigolion a fu'n cymryd rhan mewn

dysgu a grŵp rheoli o 72 na wnaethant gymryd rhan yn y cwrs (Díaz-López et al., 2016, t. 3). Daeth yr astudiaeth i'r casgliad bod gwahaniaethau ystadegol rhwng y grwpiau rheoli ac arbrofol ar ddiwedd y cyfnod o dri mis pan gynhaliwyd yr astudiaeth. Roedd yn ymddangos bod o manteision i'w gweld ym maes iechyd goddrychol a bodlonrwydd gyda'u bywyd yn bennaf (ibid: 4).

2.40 Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu hefyd bod effaith ACL ar iechyd gwahanol grwpiau o bobl yn amrywio gan ddibynnu ar y math o ddysgu. Er enghraifft, daeth adolygiad o waith ymchwil ynghylch manteision ehangach dysgu oedolion (BIS, 2012) i'r casgliad bod yr effeithiau ar rhieni a grwpiau incwm gwahanol yn amrywio yn ôl y math o ddysgu. Yn fwy penodol, canfu'r adolygiad bod rhieni a grwpiau incwm is yn profi mwy o fanteision iechyd gan ddysgu ffurfiol, a bod y rhai nad ydynt yn rhieni a grwpiau incwm uwch yn profi mwy o fanteision iechyd gan ddysgu anffurfiol. Er mwyn i ACL gael yr effaith fwyaf ar iechyd, mae hyn yn awgrymu y dylid targedu dysgu ffurfiol ar gyfer rhieni a grwpiau incwm is ac y dylid targedu dysgu anffurfiol ar gyfer y rhai nad ydynt yn rhieni a grwpiau incwm uwch.

2.41 Trwy wella iechyd a lles dysgwyr, trwy annog ffyrdd o fyw iach, mae ACL yn helpu i leihau cost ymyriadau iechyd a gofal cymdeithasol (Estyn, 2012a). Mae hyn yn arbennig o amlwg ymhlith pobl hŷn sy'n cymryd rhan mewn dysgu, gan ei fod yn caniatáu iddynt barhau i fod yn annibynnol a theimlo hunangyflawniad (ibid). At hynny, mae tystiolaeth yn dynodi bod ACL yn helpu i leihau'r defnydd o wasanaethau dysgu (Hague, 2009), ac yn arbennig, mae'n lleihau nifer yr ymweliadau i weld meddygon teulu (BIS, 2012). Mae ACL yn gwneud hyn trwy gadarnhau annibyniaeth pobl a'u gallu i ofalu am eu hunain (Llywodraeth Cymru, 2010a). Caiff gwerth yr elw ar y buddsoddiad ei ystyried yn nes ymlaen, ac mae'n cynnig trafodaeth bellach ynghylch gwerth gwella iechyd unigolion.

Gwella sgiliau a dysgu fel teulu

2.42 Mae'r adran hon yn amlinellu canfyddiadau'r lenyddiaeth o ran effaith gadarnhaol ACL ar sgiliau unigolion. Trafodir sgiliau eraill, mwy cyffredinol, yn hytrach na sgiliau cyflogadwyedd, sy'n helpu dysgwyr i wella rhannau eraill o'u bywyd. Er enghraifft, sgiliau sy'n galluogi rhieni i gynorthwyo eu plant yn well ac i wella perthnasoedd teuluol.

Gwella sgiliau a dysgu fel teulu

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae ACL yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau megis sgiliau creadigol, sgiliau cyfathrebu a sgiliau TG.
- Mae ACL yn bwysig wrth roi sgiliau i ddysgwyr ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain.
- Mae ACL yn rhoi sgiliau i rieni er mwyn eu galluogi i gynorthwyo'u plant.
- Mae ACL yn helpu i wella perthnasoedd teuluol.
- Mae ACL yn helpu i drwytho diwylliant o ddysgu yn y teulu.

2.43 Mae tystiolaeth yn awgrymu bod ACL yn cael effaith gadarnhaol ar sgiliau unigolion (NIACE, 2014b). Mae'r lenyddiaeth yn nodi nifer o wahanol sgiliau y mae ACL wedi helpu dysgwyr i'w datblygu, gan gynnwys:

- Sgiliau creadigol (WEA, 2014b)
- Sgiliau cyfathrebu (WEA, 2014b; NIACE, 2010a)
- Sgiliau TG a sgiliau ymarferol (WEA, 2014b; Estyn, 2012a)
- Sgiliau personol a chymdeithasol (Estyn, 2014)
- Sgiliau cydnerthedd emosiynol a phendrantrwydd (Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol, 2014)

2.44 Mae'n ymddangos bod pwysigrwydd ACL wrth roi sgiliau i ddysgwyr ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain yn thema gyffredin a gyflwynir yn y lenyddiaeth. Er enghraifft, mae adroddiad gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru (dim dyddiad) sy'n ystyried pwysigrwydd ac effaith gwasanaethau cymunedol yng Nghymru, yn cydnabod pwysigrwydd bod yn ymwybodol o'r technolegau modern diweddaraf er mwyn manteisio ar wybodaeth a chyngor trwy gyfrwng dysgu digidol.

2.45 Cyflwynir enghraifft arall o bwysigrwydd ACL yn rhoi sgiliau i ddysgwyr ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain mewn adroddiad am ganlyniadau

digwyddiad y Bartneriaeth Dysgu Rhanbarthol (2014) a oedd yn ceisio cyfleu safbwyntiau dysgwyr am ddysgu oedolion; gan ddangos sut y mae ACL yn darparu sgiliau i unigolion sy'n gallu helpu i wella perthnasoedd teuluol. Yn arbennig, perthnasoedd rhwng rhieni a'u plant neu eu hwyrion a'u hwyresau:

'Mae cymryd rhan mewn dysgu oedolion yn rhoi'r cyfle i mi...feithrin sgiliau newydd. Mae'r sgiliau hyn yn hanfodol i bobl yr un oed â mi er mwyn i ni allu dal i fyny gyda'r plant a'r wyrion a'r wyresau. Os na fyddwn, gallai bywyd ein gadael ar ôl mewn cymaint o ffyrdd, ac fe allem dueddu i fod yn enciliol, gan roi mwy o bwysau ar gronfeydd eraill y wladwriaeth.'

Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol (2014, t11)

2.46 Caiff y ffaith bod ACL yn cyfrannu at wella perthnasoedd teuluol ei gefnogi gan y gwaith ymchwil ynghylch effaith cyrsiau WEA hefyd, a ganfu bod 38 y cant o fyfyrwyr wedi adrodd am welliannau i'w perthnasoedd teuluol a bod 42 o rieni wedi adrodd am berthnasoedd gwell gyda'u plant (WEA, 2014a, t. 6-9). Yn aml, mae'r perthnasoedd gwell hyn yn deillio o'r ffaith bod ACL yn rhoi mwy o hyder a gallu i rieni i gael cyswllt cadarnhaol gyda'u plant (HMIE, 2011). Yn achos rhieni y mae ganddynt blant yn eu harddegau, gall ACL feithrin hyder y rhieni hyn i ddelio gyda materion sy'n berthnasol i'w plant nhw y maent yn eu harddegau (WEA, 2014b).

2.47 Mae'r lenyddiaeth yn dynodi bod ACL yn helpu i ddarparu'r sgiliau i ddysgwyr sy'n rhieni i'w galluogi i gynorthwyo'u plant gyda'u dysgu (London Economics ac Ipsos MORI, 2013). Canfu gwaith ymchwil WEA bod 66 y cant o rieni wedi adrodd eu bod wedi helpu eu plant yn fwy gyda phynciau ysgol nag y gwnaethant y flwyddyn flaenorol (cyn dilyn y cwrs) (WEA, 2014b, t. 8). Yn fwy penodol, canfu gwaith ymchwil WEA bod 56 y cant o rieni yn teimlo'n fwy hyderus i helpu eu plant i ddarllen, 59 y cant gydag ysgrifennu, 49 y cant gyda mathemateg a 55 y cant gyda phwnc arall yn yr ysgol (WEA, 2014a, t. 8).

2.48 Trwy wella sgiliau rhieni i gynorthwyo eu plant i ddysgu, mae ACL yn helpu i drwytho diwylliant o ddysgu yn y teulu. Er enghraifft, canfu'r trosolwg o effaith gwaith NIACE bod 77 y cant o ddysgwyr wedi adrodd am gynnydd o ran y diwylliant dysgu o fewn eu teulu (NIACE, 2015b, t. 11). Mae hyn yn awgrymu bod ACL yn 'cyflawni rôl pwysig yn natblygiad addysgol teuluoedd' (Llywodraeth Cymru, 2010a, t.5) a'i fod yn cael dylanwad pwysig ar 'ddatblygiad a chyfleoedd bywyd' plant y mae eu rhieni yn cymryd rhan mewn dysgu (Llywodraeth Cymru, 2010a, t. 5). Felly, nid yn unig y mae ACL yn cael effaith ar yr oedolion hynny sy'n cymryd rhan mewn dysgu, ond mae'n cael effaith ar eu teuluoedd hefyd.

Dysgu pellach

2.49 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran effaith cadarnhaol ACL ar annog unigolion i ganlyn dysgu pellach ar ôl iddynt gymryd rhan mewn ACL.

Dysgu pellach

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- I rai, ACL yw'r cam cyntaf yn ôl i ddysgu.
- Mae ACL yn Meithrin hyder unigolion a'u brwdfrydedd i ddysgu.
- Ar ôl cymryd rhan mewn ACL, bydd unigolion yn aml yn cofrestru ar ac yn dilyn cyrsiau dysgu pellach.
- Mae ACL yn annog dysgu annibynnol, megis darllen, defnyddio'r rhyngwrwd ac ymweld ag amgueddfeydd neu lyfrgelloedd.

2.50 I rai unigolion, ACL yw'r cam cyntaf yn ôl i ddysgu. Gall ailgychwyn dysgu, trwy ACL, roi'r cyfle i'r unigolion hyn symud ymlaen i ddysgu pellach (Llywodraeth Cymru, 2010a). Un ffordd y mae ACL yn annog dysgu pellach yw trwy gynyddu brwdfrydedd unigolion i ddysgu (NIACE, 2015b). Mewn adroddiad a oedd yn ystyried manteision economaidd a chymdeithasol sgiliau ac addysg bellach, adroddwyd bod 84 y cant o 1,955 o ddysgwyr yn teimlo'n fwy brwdfrydig am ddysgu (London Economics ac Ipsos MORI, 2013, t. 53). Cefnogir hyn gan eraill, pan nodir bod 85 y cant o fyfyrwyr yn teimlo'n fwy brwdfrydig am ddysgu ers iddynt gwblhau eu cwrs (WEA, 2014a, t. 9).

2.51 Yn aml, mae mwy o frwdfrydedd i ddysgu yn arwain at unigolion yn parhau i ddysgu ar ôl iddynt gymryd rhan mewn ACL. Mae'r lenyddiaeth yn amlinellu achosion lle y mae unigolion a fu'n cymryd rhan mewn ACL wedi mynd ymlaen i gofrestru ar gyfer (WEA, 2014a; Robey, 2015a; Robey, 2015c) a dilyn cyrsiau pellach (NIACE, 2012a; Robey, 2015c; Rheolwyr Dysgu a Datblygu Cymunedol yr Alban, 2013). Er enghraifft, canfu WEA bod 45 y cant o'r myfyrwyr a gyfwelwyd eisoes wedi cofrestru ar gyrsiau eraill ar ôl iddynt gwblhau eu cwrs WEA (WEA, 2014a, t. 9). Mae hyn yn awgrymu bod ACL yn cynnig platfform ar gyfer dysgu pellach. Mae'n gwneud hyn trwy roi'r hyder a'r brwdfrydedd i unigolion ddysgu.

2.52 Yn ogystal ag annog unigolion i gofrestru ar gyfer a chymryd rhan mewn cyrsiau dysgu pellach, mae ACL yn annog dysgwyr i ymgymryd â dysgu annibynnol hefyd. Mae rhai canfyddiadau ymchwil yn cefnogi hyn, wrth i 50 y cant o fyfyrwyr adrodd eu bod wedi gwneud rhywfaint o ddysgu annibynnol yn dilyn eu cwrs. Roedd y gweithgareddau dysgu annibynnol yn cynnwys y canlynol:

- Darllen deunyddiau (80 y cant)
- Defnyddio'r rhyngrwyd (78 y cant)
- Ymweld ag amgueddfeydd neu lyfrgelloedd (62 y cant) (WEA, 2014a, t. 8)

2.53 Mae'r dystiolaeth hon yn awgrymu bod ACL yn rhoi'r cymhelliant i unigolion barhau i ddysgu ar ôl cymryd rhan mewn ACL. Mae hyn yn galluogi unigolion i ehangu eu gwybodaeth ac i ddarganfod diddordebau newydd o bosibl.

Natur ac effeithiolrwydd modelau darparu ACL

2.54 Mae'r adran hon yn trafod natur ac effeithiolrwydd y ffordd y darparir ACL. Mae'n cynnig trosolwg o'r meysydd allweddol dan sylw:

- Modelau darparu ACL
- Partneriaethau

- Cyllid
- Cynnwys dysgwyr
- Rôl gwirfoddolwyr
- Targeddu'r ddarpariaeth
- Strwythur a chynnwys y cwricwlwm
- Lleoliadau

Modelau darparu ACL

2.55 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau yn y lenyddiaeth o ran gwahanol fodelau er mwyn darparu ACL.

Modelau darparu ACL

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Wrth gynllunio'r ffordd y darparir ACL, dangoswyd bod cael grŵp craidd o benderfynwyr ac un grŵp gweithredol neu fwy, yn effeithiol. Gall y broses o wneud penderfyniadau fod yn arafach pan geir sawl partner cyfartal yn hytrach nag un partner arweiniol.
- Mae modd i ddull gweithredu strategol rhanbarthol helpu i ddelio gydag unrhyw ddyblygu mewn darpariaeth, gan symleiddio prosesau darparu.
- Gall un tîm arweiniol gydag un gyllideb fod yn gryfach ac yn fwy effeithiol.

2.56 Treialwyd pymtheg o brosiectau Peilot gan yr Ymddiriedolaeth Dysgu Cymunedol (CLT) yn Lloegr rhwng mis Awst 2012 a mis Gorffennaf 2013, gan ganolbwyntio ar ddulliau gweithredu lleol tuag at gynllunio a darparu. Roedd y prosiectau peilot yn dangos gwahanol fodelau o ran trefniadaeth a darpariaeth gan gynnwys un awdurdod lleol fel arweinydd y gweithgarwch; awdurdodau lleol yn cydweithio fel partneriaid neu bartneriaethau rhwng awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol. Gwelwyd colegau AB yn ymgymryd â'r rôl arweiniol mewn rhai achosion hefyd, ac mewn un prosiect peilot, gwelwyd sefydliad menter gymdeithasol yn arwain (BIS, 2014).

2.57 Roedd gwerthusiad yr Adran Busnes, Arloesedd a Sgiliau o beilot CLT yn nodi, er bod gwahanol fodelau o ran y seilwaith, bod tebygrwydd o ran y dulliau gweithredu ar gyfer trefniadaeth a gwneud penderfyniadau. Roedd elfennau allweddol yn cynnwys grŵp craidd o benderfynwyr yn

canolbwyntio ar gyfeiriad strategol ac ar wneud penderfyniadau, ac un grŵp gweithredol neu fwy yn canolbwyntio ar ddarparu'r gweithgareddau (BIS, 2014). Arweiniodd y gwaith o neilltuo tasgau penodol ar gyfer grwpiau gweithredol at sicrhau cynnydd cyflymach wrth gyflawni camau gweithredu.

- 2.58 Mae adroddiadau blaenorol gan Estyn wedi nodi gwendidau yn arweinyddiaeth a rheolaeth ACL, ynghyd â diffyg eglurder ynghylch argaeledd adnoddau er mwyn darparu ACL effeithiol (Estyn, 2013a, t. 4). Mae rhoi sylw i'r gwendidau hyn trwy ddatblygu cyfeiriad strategol mwy eglur a thrwy ddefnyddio arbenigedd sefydliadau partner mewn ffordd effeithiol, wedi arwain at welliannau yn 'effeithiolrwydd arweinyddiaeth strategol, rheolaeth a chydlynw dysgu oedolion yn y gymuned' (Estyn, 2015a, t. 4).
- 2.59 Yn ogystal, mae'r gwerthusiad o beilot CLT yn adrodd bod gweithgarwch penderfynu a chynnydd cyffredinol arafach yn fwy amlwg mewn partneriaethau sy'n cynnwys sawl partner cyfartal, yn hytrach na'r rhai sydd ag un partner arweiniol. Ar ddechrau'r peilot, gwelwyd cynlluniau peilot a arweiniwyd gan golegau yn sicrhau cynnydd arafach; credwyd bod hyn o ganlyniad i'r ffaith mai un o swyddogaethau a blaenoriaethau niferus colegau yw dysgu cymunedol. Mae'r gwerthusiad yn nodi na fydd y model arweinyddiaeth unigol, er ei fod yn effeithiol, yn gweithio ym mhob man efallai, gan bod defnyddio model arweinyddiaeth mwy dosbarthedig yn gallu helpu i sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymrwymo (BIS, 2014, t. 37). Mae'r gwerthusiad o CLIF yn Lloegr yn 2012 – 2013 yn nodi hefyd bod diffyg 'edefyn sy'n uno' yn rhwystro cydlynw y ddarpariaeth o bryd i'w gilydd (NIACE, 2014b, t. 68).
- 2.60 Yn yr Alban, fel yng Nghymru, mae Dysgu a Datblygu Cymunedol (DDC) yn eistedd mewn gwahanol adrannau ar draws strwythurau sefydliadol awdurdodau lleol. Mae gan rai awdurdodau lleol un tîm sy'n dal cyllideb, ac mewn ardaloedd eraill, rhennir y cyfrifoldeb dros DDC rhwng sawl adran. Mae'r adroddiad yn dod i'r casgliad bod un tîm gydag un gyllideb yn gryfach ac yn fwy effeithiol (Blake Stephenson Ltd, 2011, t. 26).

- 2.61 Mae canllawiau sydd ar gael i ddarparwyr yn Iwerddon yn cydnabod, er y ceir amrywiaeth o ddulliau gweithredu er mwyn darparu addysg gymunedol, lle y mae'r ddarpariaeth yn ymateb i'r angen a nodwyd, er enghraifft er mwyn goresgyn arwahanrwydd cymdeithasol, a ddisgrifir fel un 'hybrid', mai'r model hwn sy'n cynnig y dull gweithredu mwyaf poblogaidd (Adran Addysg a Sgiliau, 2012, t. 3).
- 2.62 Fodd bynnag, er bod gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ACL yn cynnwys cydweithio ar draws partneriaethau a gyda darparwyr eraill er mwyn gwaredu dyblygu (Llywodraeth Cymru, 2010a, t. 11), nodwyd bod y gwaith cynllunio cyfredol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru yn gallu bod yn 'feichus ac yn rhy fiwrocraidd' (NIACE 2013, t. 5). Yn ôl NIACE, gall arwain at ddyblygu hefyd, ac nid yw'n adlewyrchu gwerth am arian (ibid: 5).
- 2.63 Un cynnig i Gymru yw cael model darparu sy'n seiliedig ar bartneriaid strategol rhanbarthol ar draws y genedl, gan arwain at un darparwr arweiniol yn cyflawni rôl cydlynu a strategol, gan weithio gyda phartneriaethau gweithredol lleol a darparwyr eraill yn ôl y gofyn (NIACE, 2013, t. 12).

Partneriaethau

- 2.64 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran gweithio mewn partneriaeth.

Partneriaethau

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae cael un arweinydd partneriaeth ar gyfer ACL wedi bod yn effeithiol.
- Ystyrir rôl cydlynnydd y bartneriaeth yn un cadarnhaol iawn.
- Mae rhannu rolau ar draws partneriaethau yn arwain at arbed costau.
- Mae modd i bartneriaeth effeithiol wneud cais am gyllid a grantiau ar y cyd, a chyfuno cyllid.
- Mae'n bwysig bod partneriaethau yn ymateb i anghenion yr ardal leol.

- 2.65 Bu gwaith effeithiol mewn partneriaeth yn bwysig ymhlith prosiectau yn Lloegr a ddarparwyd trwy CLIF, gyda 'phrosesau cyfathrebu da, eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau, a'r gallu i ddangos ymdrech go iawn fel tîm'

yn sicrhau canlyniadau effeithiol' (NIACE, 2014b, t. 30). Pwysleisiwyd ymrwymiad unigolion mewn sefydliadau partner hefyd (ibid: 30). Yn yr Alban, roedd trefniadau partneriaeth newydd wedi arwain at ddysgu cymunedol lleol datblygedig, gyda grwpiau lleol yn gweithio gyda chyrrff cyhoeddus er mwyn canolbwyntio ar anghenion lleol ar draws yr Alban ac o fewn rhanbarth (HMIE, 2011; Grŵp Addysg Oedolion Caeredin, 2014).

2.66 Mae model partneriaeth mwy integredig yn caniatáu arbedion o ran adnoddau ac amser, fel sy'n cael ei hyrwyddo yn Iwerddon; gall integreiddio o'r fath olygu proses ymgeisio gyffredin a chomisiynu ar y cyd er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i gyrsiau (Adran Addysg a Sgiliau, 2012). Mae enghraifft bellach yn dangos y potensial i ehangu mynediad ac arbed costau: roedd partneriaeth rhwng Prifysgol y Drydedd Oes (U3A) a Phrifysgol Caerhirfryn wedi cynnig y cyfle i bobl hŷn fanteisio ar ddarlithoedd israddedig pan fyddai lleoedd gwag ar y rhain (NIACE, 2010b, t. 7).

2.67 Mae gweithio mewn partneriaeth wedi cael ei hyrwyddo yng Nghymru hefyd, wrth i weithgarwch i rannu rolau ymhlith partneriaid arwain at arbed costau, a phartneriaid penodol yn cael eu nodi fel rhan bwysig wrth ymgysylltu â dysgwyr yn y lle cyntaf. Er enghraifft, mewn rhai ardaloedd, mae Cymunedau yn Gyntaf yn cynnig camau cychwynnol i weithgarwch dysgu, gan feithrin hyder unigolyn a chan arwain atynt yn symud ymlaen i ACL (NIACE, 2015a). Yn ogystal, mae NIACE yn nodi na ddylai gwaith mewn partneriaeth fod yn rhywbeth sy'n cael ei ysgogi o'r 'brig', ond y dylai partneriaethau ymateb i'r anghenion dysgu a hyfforddi sy'n benodol i'w hardal leol nhw. Yn y gorffennol, beirniadwyd partneriaethau ACL yng Nghymru am fethu rhoi sylw i'r angen lleol, ac yn dilyn hyn, cydnabu Estyn welliannau yn yr ymdrech i ddatblygu darpariaeth er mwyn bodloni'r angen hwn (Estyn, 2012b, t. 5).

2.68 Ceir tystiolaeth sy'n amlygu pwysigrwydd cael arweinydd strategol rhanbarthol effeithiol sy'n cael eu cynorthwyo gan seilwaith sy'n cynorthwyo darpariaeth leol (NIACE, 2013, t. 7).

- 2.69 Mae canlyniadau arolygiadau Estyn o ACL yng Nghymru yn dangos pwysigrwydd gwaith effeithiol mewn partneriaeth, a ddangosir gan 'gyfeiriad strategol cadarn' a 'llawer iawn o ymddiriedaeth a pharch ar y ddwy ochr' (Estyn, 2013b, t. 10). Yn ogystal, mae rhai o'r partneriaethau ACL yng Nghymru yn dangos tystiolaeth o bwysigrwydd cydweithio; ac mae brwdfrydedd a realaeth y rhai a fu'n ymwneud gyda phennu'r strategaeth wedi cael ei ganmol gan arolygwyr (e.e. Estyn, 2015b, t. 9).
- 2.70 Yn ogystal, cydnabuwyd bod pwysigrwydd gwaith effeithiol mewn partneriaeth yn allweddol i'r ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr hŷn yng Nghymru; arweiniodd y cam o weithio gydag adrannau eraill ac asiantaethau lleol at 'gynllunio holistig' er mwyn bodloni anghenion pobl hŷn sy'n dymuno ymgysylltu gyda dysgu (Estyn, 2012a).
- 2.71 Roedd y gwerthusiad o beilot CLT yn nodi'r her sy'n gysylltiedig gyda sefydlu 'ymddiriedaeth ar y ddwy ochr a gweithredu mewn ffordd agored ymhlith partneriaid'. Mewn rhai achosion, roedd hyn wedi cymryd amser, wrth i awdurdodau lleol ei chael hi'n anodd gweithio mewn partneriaeth ac ildio'u cyfrifoldebau o wneud penderfyniadau (BIS, 2014, t. 12). Roedd datblygu protocolau, a oedd yn egluro'r rheolau sylfaenol, yn golygu bod y cydweithio rhwng partneriaid wedi gwella yn ystod peilot CLT; mae'n bwysig cydnabod bod sefydlu gwaith effeithiol mewn partneriaeth yn cymryd amser. Roedd paratoi 'dogfen gryno er mwyn helpu i 'werthu' syniadau i ddarpar bartneriaid yn cynorthwyo'r broses hon (ibid: 11).
- 2.72 Nododd prosiectau peilot CLT a CLIF bod y cyfle i ymgeisio am grantiau a chronfeydd eraill yn fantais fawr gweithio mewn partneriaeth (BIS, 2014, t. 118). Llwyddwyd i osgoi dyblygu hefyd trwy weithio gyda sefydliadau eraill i gynorthwyo ACL, megis gweithwyr ieuchyd, Swyddogion Datblygu Cymunedol, undebau llafur, cyfiawnder troseddol, a mudiadau o'r sector gwirfoddol (BIS, 2014, t.11; Grŵp Addysg Oedolion Caeredin, 2014, t. 3; Cymdeithas y Colegau, 2013, t. 14).
- 2.73 Mae NIACE wedi amlygu pwysigrwydd lleihau dyblygu gymaint ag y bo modd a chynnal ACL trwy gyfrwng ffrydiau cyllido amrywiol (2014). Nododd NIACE bod cydweithio da yn bodoli yng Nghymru, gan gynnwys

rhannu swyddi ar draws partneriaethau, sy'n cynnwys amodau a thelerau cyflogaeth cyffredin (NIACE, 2015a). Fodd bynnag, nid yw hyn yn gyson, ac awgrymwyd bod potensial i fanteisio ar neu i ddysgu gan strwythurau eraill yng Nghymru (megis y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc a'r consortia Dysgu Seiliedig ar Waith) er mwyn helpu i ysgogi gwelliant a chysondeb ar draws y sector (NIACE, 2014a, t. 52-53).

2.74 Mae agweddau cadarnhaol ar weithio mewn partneriaeth yng Nghymru y cyfeiriwyd atynt mewn llenyddiaeth yn cynnwys:

- ymrwymiad i weithio ar lefel weithredol – rhannu arfer gorau a chydweithio
- mae hyfforddiant ar y cyd a rhannu arfer da yn arwain at weithlu mwy proffesiynol
- defnyddio a dadansoddi gweithgarwch rhannu data a meincnodi
- ffocws ar grwpiau anodd eu cyrraedd yn cael ei gynnal trwy ymgysylltu gyda'r sector gwirfoddol, cymdeithasau tai a Chymunedau yn Gyntaf (NIACE, 2013, t. 9).

Cyllid

2.75 Gan fanteisio ar enghreifftiau o gynlluniau peilot ACL a gynhaliwyd yn Lloegr, mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran y cyllid cyffredinol ar gyfer mentrau ACL.

Cyllid

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Gall sicrhau bod cyllid ar gael i'r sector gwirfoddol gynnig cymhelliant i'w cyswllt gydag ACL.
- Ceir rhywfaint o dystiolaeth nad yw'n ymddangos bod talu ffioedd yn peri i ddysgwyr osgoi ACL.
- Mae symleiddio prosesau ymgeisio wedi helpu i ymgysylltu sefydliadau.
- Mae ymwreiddio cynaladwyedd ariannol wedi arwain at ddarpariaeth ACL lwyddiannus.

2.76 Roedd y peilot CLT yn Lloegr yn cynnwys cydweithio gyda'r sector cymunedol gwirfoddol; un o ganfyddiadau'r peilot oedd bod sefydlu potiau grantiau ar gyfer y sector gwirfoddol yn cymhell sefydliadau llai i gymryd rhan mewn ACL (BIS, 2014, t. 51). Roedd rhai cynlluniau peilot

yn disgwyl i ddysgwyr gyfrannu ffi fach tuag at y gost, gan nodi mai rhodd oedd hon tuag at gostau'r lluniaeth. Llwyddodd hyn i sicrhau incwm a hefyd, 'ymrwymiad' y dysgwyr, gan osgoi gorfod cael lefelau gwahanredol o ran ffioedd ar gyfer dysgwyr mewn gwahanol amgylchiadau (ibid: 115). Mewn rhai achosion, roedd y ffi yn flaendal yr oedd modd ei ad-dalu. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod y ffi yn peri i ddysgwyr osgoi'r ddarpariaeth, ac mae'n ymddangos ei bod wedi gwella lefelau presenoldeb dysgwyr (ibid: 115). Cefnogir hyn gan ganfyddiadau arolwg mawr (dros 6,000 o ddysgwyr); roedd 55 y cant yn cytuno y dylid defnyddio cyllid er mwyn cynorthwyo'r rhai ar incymau is, ac y byddai hyn yn helpu i hyrwyddo tegwch yn y pen draw. O blith y rhai yr oeddent yn fodlon talu ffioedd, roeddent yn 'gallu fforddio rhwng £1 a £5 yr awr' (NIACE, 2012b, t. 6). Roedd nifer o'r farn hefyd y dylai dysgu fod am ddim beth bynnag fo incwm pobl (ibid: 7).

2.77 Yn Iwerddon, argymhellir bod holl yr raglenni addysg cymunedol a ariannir gan yr Adran Addysg a Sgiliau yn cael eu cynnig am ddim i oedolion y mae lefel eu cyflawniad mewn addysg yn is na'r ail lefel uwch a/neu y maent yn ddifreintiedig ar lefel gymdeithasol neu o ran eu haddysg (Adran Addysg a Sgiliau, 2012, t. 4). Mae NIACE (2015a) yn awgrymu hefyd y dylai rhaglenni a ddarparir yn y gymuned gael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, gan sicrhau bod ACL mewn lleoliadau penodol. Mae cynnig ynghlwm wrth hyn, sef y dylai'r cyllid a ddyrannir ar draws awdurdodau lleol adlewyrchu'r angen mewn ffordd fwy briodol (ibid).

2.78 Yn ystod y peilot CLT, gwelwyd proses ymgeisio symlach a phartneriaethau sy'n cynnwys cyrff cynrychioliadol o'r sector gwirfoddol yn gwella lefelau ymgysylltu sefydliadau o'r trydydd sector y mae eu hadnoddau yn gyfyngedig. Nodwyd hefyd, er ei bod yn gallu bod yn anodd i fusnesau ar lefel genedlaethol i gyfrannu, bod modd gweld llwyddiant trwy gyfrwng cytundebau noddi unigol ar lefel leol. Yng Nghymru, mae llwybrau cyllido amgen megis Cronfa Gymdeithasol Ewrop wedi ariannu rhaglenni fel Pontydd i Waith (Estyn, 2012a, t. 7).

- 2.79 Mae astudiaeth achos a goladwyd gan NIACE yn nodi bod Gwasanaeth Dysgu Oedolion a'r Gymuned Cyngor Swydd Stafford wedi cynnig grantiau er mwyn talu am 60 awr y flwyddyn ar ffurf costau llogi lleoliadau. Cynorthwywyd amrywiaeth eang o weithgareddau grŵp, a'r unig amod oedd y dylai ddysgu ddigwydd. Yn y pen draw, y nod yw bod grwpiau yn hunangynhaliol (NIACE, 2012a, t. 42).
- 2.80 Y dulliau gweithredu mwyaf llwyddiannus a gynhwyswyd ym mhrosiectau CLIF oedd y prosiectau hynny yr oeddent yn ceisio cynnwys cynladwyedd o'r cychwyn. (NIACE, 2014b, t. 55). Roedd dulliau gweithredu eraill yn cynnwys sefydlu grwpiau sy'n trefnu eu hunain, caffael cronfeydd gan ffynonellau cyhoeddus eraill, incwm gan ffioedd, cyllid gan gyflogwyr neu ffynonellau preifat eraill a/neu ddatblygu menter gymdeithasol, cwmni buddiannau cymunedol neu fenter gydweithredol (ibid: 55).
- 2.81 Roedd yr Adolygiad o bartneriaethau ACL a gynhaliwyd gan NIACE yn 2013 yn amlygu'r ffaith bod y partneriaethau gorau yn defnyddio'r GDC 'er mwyn denu cronfeydd ychwanegol neu gyd-fynd gyda darpariaeth arall, os yw hynny'n cael ei ariannu gan rannau eraill o Lywodraeth Cymru neu wahanol gyllidwyr' (NIACE, 2013, t. 8). Yn ogystal, mae Estyn wedi argymhell y dylai holl adrannau Llywodraeth Cymru gyfuno'r holl gyllidebau sy'n targedu lles a dysgu gydol oes pobl hŷn (Estyn, 2012a).

Cynnwys dysgwyr

- 2.82 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran cynnwys dysgwyr.

Cynnwys dysgwyr

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae ymateb i'r angen lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau ymgysylltu effeithiol.
- Nodwyd bod mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn ffactor er mwyn sicrhau llwyddiant.
- Mae'n gallu cymryd amser i feithrin ymddiriedaeth dysgwyr.
- Ceir potensial i roi cymorth pellach i ddysgwyr i drefnu eu dysgu eu hunain.

2.83 Nodwyd bod mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwyr trwy gydol y broses o ddarparu prosiectau CLIF yn ffactor pwysig er mwyn sicrhau llwyddiant, yn enwedig pan fo darparwyr yn hyblyg ac yn gallu ymateb i anghenion sy'n newid (NIACE, 2014b, t. 66). Yn ogystal, ymgysylltwyd â phobl leol ym mhrosiectau peilot CLT er mwyn cyfrannu at y ddarpariaeth leol ac er mwyn darparu adborth trwy'r dulliau canlynol:

- defnyddio cynrychiolwyr cymunedol ac ymchwilwyr sy'n gymheiriaid
- cynnal digwyddiadau ymgynghori cyhoeddus
- cynnal presenoldeb yn y gymuned
- mynychu digwyddiadau a chyfarfodydd cymunedol eraill
- defnyddio gweithgareddau ymchwil y farchnad
- defnyddio cyfryngau cymdeithasol (BIS, 2014, t. 89).

2.84 Yng Nghymbrria, bu partneriaid CLT yn siarad gyda rhieni yn ystod nosweithiau rhieni er mwyn cael adborth am y galw am gyrsiau. Canfuwyd nad yw 'digwyddiadau ymgynghori mawr yn gweithio cystal' wrth gyrraedd cymunedau lleol. Os byddai digwyddiadau ymgynghori yn cael eu cynnal, byddent yn fwy effeithiol os byddent yn gweithio law yn llaw gyda rhaglenni ymgysylltu eraill (ibid: 14). Mae'r adroddiad am brosiectau CLIF yn ategu pwysigrwydd defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu megis cyfryngau cymdeithasol, taflenni, cylchlythyrau a hysbysfyrddau lleol er mwyn cyrraedd darpar ddysgwyr, gan bwysleisio'r ffaith bod 'pobl yn sôn wrth ei gilydd am hyn' yn effeithiol (NIACE, 2014b, t. 72).

2.85 Gan geisio canolbwyntio ar y sgiliau y mae eu hangen ar unigolion, yn hytrach na chanolbwyntio ar ofynion haearnidd ynghylch cymwysterau, aeth NIACE ati i ddatblygu Cwricwlwm Dinasyddion; bu dros 160 o ddysgwyr yn cyd-ddatblygu cynnwys rhaglen mewn 16 o dreialon (NIACE, 2015b, t. 6). Bu'r berchnogaeth a'r cymhelliant a darddodd o'r 'dull gweithredu a arweiniwyd gan y dysgwyr' yn ffactor hollbwysig wrth sicrhau llwyddiant cyrsiau Saesneg a ddarparwyd trwy thema iechyd (Robey, 2015a, t. 8). Roedd gweithgarwch ymgynghori gyda rhieni cyn iddynt ymgysylltu gyda chynllun peilot a oedd yn canolbwyntio ar

ddatblygu gallu rhieni mudol i gynorthwyo eu plant, yn sicrhau y byddai'r cwrs yn hygyrch ac yn bodloni gofynion dysgu'r grŵp (Robey, 2015b, t. 8). Arweiniodd ymgynghori manwl gyda darpar ddysgwyr mewn prosiect peilot arall at 'ddull gweithredu hyblyg iawn sy'n canolbwyntio ar y dysgwr', nid yn unig cyn darparu ond trwy gydol y profiad dysgu, gan ganiatáu i ddiwygiadau gael eu gwneud i'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i gynnwys dysgwyr (Robey, 2015d, t. 5).

2.86 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys dysgwyr o fewn ACL, ac mae gofyn i bob darparwr dysgu ôl-16 bennu strategaethau ffurfiol er mwyn cynnwys defnyddwyr (Llywodraeth Cymru, 2010b). Yn ogystal, ceir ystod eang o gyfleoedd i ddysgwyr gymryd rhan trwy gyfrwng fforymau, grwpiau ffocws a chynadledau (Estyn, 2014). Mae dysgwyr yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd hyn; er enghraifft, bu dysgwyr ym Mhartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Gwent yn hollbwysig wrth ddarparu adborth, a arweiniodd at gyrсияu newydd ym maes harddwch, hanes teuluol a lefel-A Saesneg; ac yn dilyn cyfarfodydd gyda dysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu cynllunio dysgu sy'n fwy perthnasol i anghenion dysgwyr (Estyn, 2014, t. 9; t. 12). Amlygwyd amrediad o weithgareddau ymgynghori ym mhartneriaeth ACL Wrecsam, gan gynnwys digwyddiadau mewn llyfrgelloedd ac mewn lleoliadau cymunedol; mae arolygon a grwpiau ffocws yn cynnig y cyfle i gynnwys dysgwyr hefyd ac o ganlyniad, caiff y ddarpariaeth ddysgu ei gosod mewn cyd-destun a'i haddasu yn unol â gofynion gwahanol grwpiau o ddysgwyr (ibid: 13).

2.87 Mae tystiolaeth gan arolwg Llais y Dysgwr Cymru yn dangos bod dysgwyr yn cydnabod bod darparwyr yn gofyn am eu barn ac yn eu hysbysu o'r camau sy'n cael eu cymryd er mwyn ymateb i hyn. Canfu canfyddiadau Arolwg 2015 bod 56 y cant o ddysgwyr o'r farn bod eu darparwr yn 'dda iawn' wrth ofyn i ddysgwyr fynegi eu safbwyntiau; a nododd 47 y cant bod eu darparwr yn 'dda iawn' wrth roi adborth am y safbwyntiau hyn. Mae'r ddau ffigur hwn yn cynrychioli gwelliant o'i gymharu â'r canfyddiadau a welwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol (Llywodraeth Cymru, 2015b, t. 47).

2.88 Adroddodd Estyn hefyd y gallai darparwyr ACL gynorthwyo gyda'r broses o gynnwys dysgwyr ymhellach, wrth iddynt roi cymorth wrth drefnu dosbarthiadau a gweithgareddau. Fodd bynnag, nid oes gan y rhan fwyaf o ddarparwyr ACL y seilwaith er mwyn helpu dysgwyr i drefnu eu dysgu eu hunain; ni all dysgwyr droi at wybodaeth am leoliadau, sut i drefnu darpariaeth, deall materion ariannol, iechyd a diogelwch, a'r gweithdrefnau yswiriant sy'n ofynnol. Nodwyd bod rhai darparwyr yn cynnig sgiliau datblygu arweinyddiaeth i ddysgwyr (Estyn, 2014, t. 11).

Rôl gwirfoddolwyr

2.89 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran rôl gwirfoddolwyr.

Rôl gwirfoddolwyr

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae gwirfoddolwyr yn adnodd hanfodol wrth gynorthwyo ACL.
- Mae gwirfoddolwyr yn annog eraill i ddysgu ac maent yn cynorthwyo dysgu.
- Gallai hyfforddi gwirfoddolwyr wella'u rôl ymhellach.

2.90 Darganfu arolwg helaeth a gynhaliwyd gan NIACE yn 2012 ymhlith dysgwyr bod bron i un o bob tri o'r rhai a holwyd yn awyddus i helpu trefnu gweithgareddau trwy ymgymryd â chyfrifoldebau dros drefnu neu arwain gweithgarwch dysgu neu fod yn 'hyrwyddwr dysgu' (NIACE, 2012b, t. 6).

2.91 Yng nghynllun peilot CLT, bu 'hyrwyddwyr dysgu' yn annog dysgwyr i ddysgu ac yn eu cynorthwyo 'trwy eu taith ddysgu'; bu mentoriaid gwirfoddol yn helpu i ddwyn TG i leoliadau cyfarwydd i ddysgwyr megis llyfrgelloedd a chanolfannau cymunedol (BIS 2014, t. 13). Bu prosiect partneriaeth yn Swydd Efrog yn dangos y manteision i ddysgwyr gwirfoddol; dysgu anffurfiol 'yn y gwaith', a allai arwain at ddysgu mwy ffurfiol (Cymdeithas y Colegau, 2013, t. 4). Yn ogystal, nodwyd dilyniant i waith cymunedol am dâl a dilyniant pellach i gyrsiau 'Paratoi i Addysgu yn y Sector Dysgu Gydol Oes', gan ddod yn diwtoriaid yn nes ymlaen, yn ystod prosiectau CLT a CLIF (NIACE, 2014b, t. 27; BIS 2014, t. 122).

Llwyddodd prosiectau CLIF i sicrhau 55,800 o oriau gan wirfoddolwyr hefyd, er mwyn cynorthwyo gweithgarwch allgymorth cymunedol a datblygiad a darpariaeth rhaglenni (NIACE, 2014b, t. 20).

2.92 Mae'r rhai sy'n dewis gwirfoddoli yn gwneud hynny oherwydd 'eu bod yn mwynhau helpu pobl arall a chyfrannu at les yn eu cymdogaethau' (BIS, 2013b, t. 12). Fodd bynnag, roedd cynllun peilot CLT yn amlygu'r ffaith bod angen hyfforddiant ar wirfoddolwyr ac mae hyn yn rhan bwysig o unrhyw strategaeth (ibid: 12). Mynegwyd y pwynt hwn gan arolwg dysgwyr NIACE hefyd; er bod dros 25 y cant yn awyddus i wirfoddoli, roedd y rhan fwyaf yn dymuno cael eu cynorthwyo, naill ai trwy hawlio'u treuliau neu bod hyfforddiant neu fentoriaid yn cael eu darparu (NIACE, 2012b, t. 27).

Targedu'r ddarpariaeth

2.93 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran targedu'r ddarpariaeth.

Targedu'r ddarpariaeth

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae targedu a gwaith allgymorth yn hollbwysig wrth ymgysylltu gyda dysgwyr ar y cyrion.
- Os caiff yr holl ACL ei dargedu, ceir risg y gallai'r rhai sy'n gallu talu golli cyfle i fanteisio ar ddarpariaeth.
- Trwy gydweithio, mae modd i asiantaethau fod yn arbennig o effeithiol wrth dargedu dysgwyr.
- Mae gofyn cael gwahanol ddulliau gweithredu wrth dargedu mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol.

2.94 Roedd gwaith effeithiol mewn partneriaeth ar gyfer peilot CLT yn golygu bod ACL wedi estyn allan i gymunedau difreintiedig (BIS, 2014). Er enghraifft, roedd cynlluniau peilot CLT wedi targedu anghenion dynion gyda chysiau'n ymwneud â chrefftau'r cartref a chwaraeon (pêl-droed yn arbennig) mewn ffordd effeithiol (ibid: 71). Fodd bynnag, amlygwyd hefyd os yw cyllid yn targedu'r grwpiau mwyaf difreintiedig yn unig, y gallai hyn arwain at 'ddim byd sy'n cael ei gynorthwyo gan arian cyhoeddus yn cael ei gynnig i ddysgwyr sy'n gallu talu' (BIS, 2011a, t. 7).

- 2.95 Yn Iwerddon, targedir y rhai sy'n wynebu 'rhwystrau penodol ac aciwt' gyda gwaith allgymorth dwys. Mae hyn yn adlewyrchu'r angen i gynnwys strategaethau penodol ar gyfer grwpiau ar y cyrion, yn enwedig y rhai sy'n cael eu tangynrychioli, er enghraifft dynion mewn ardaloedd gwledig (Adran Addysg a Sgiliau, 2012, t. 4). Yn yr Alban, mae'r dull gweithredu wedi'i dargedu yn sicrhau y bodlonir anghenion y rhoddir blaenoriaeth iddynt, wrth i gysylltiadau gydag ysgolion, gweithwyr cymdeithasol a'r heddlu fod o gymorth wrth dargedu'r ddarpariaeth mewn ffordd effeithiol (HMIE, 2011, t. 19). Gwelir enghraifft gan beilot CLT yn Lloegr a weithredwyd gan Gyngor Bwrdeistref Rochdale (Robey, 2015c). Ymgynghorwyd â sawl asiantaeth, ac ar ôl diffinio sefyllfa teulu, byddai gweithiwr prosiect yn targedu aelod o'r teulu yr oedd angen cymorth arnynt (Robey, 2015c, t. 6).
- 2.96 Pan gaiff darpariaeth ei thargedu mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, ceir trafodaeth gyda dysgwyr, asiantaethau cyfeirio a mudiadau gwirfoddol sydd eisoes yn ymgysylltu gyda grwpiau penodol (NIACE, 2012a, t. 33). Yng Nghymru, beirniadwyd y pwyslais ar dargedu sgiliau ar gyfer cyflogaeth gan nad ydynt yn addas i ddysgwyr hŷn, a bod eu diddordebau nhw yn canolbwyntio'n fwy ar weithgareddau sy'n cyfoethogi (Estyn, 2012a, t. 12).

Cynnwys a strwythur y cwricwlwm

- 2.97 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran cynnwys a strwythur y cwricwlwm.

Cynnwys a strwythur y cwricwlwm

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae angen i'r dysgu fod yn berthnasol i brofiadau bywyd pob dydd dysgwyr.
- Gall cyrsiau byrrach fod yn fwy deniadol i ddysgwyr.
- Mae ail-frandio cyrsiau yn gallu bod yn llwyddiannus wrth ddenu dysgwyr.
- Mae technoleg yn cynnig cyfleoedd cost-effeithiol ar gyfer dysgu.
- Mae'n bwysig bod yn hyblyg gyda dulliau darparu, y cwricwlwm a dulliau gweithredu asesu.

2.98 Mae'r lenyddiaeth yn manteisio ar amrediad o enghreifftiau o gynnwys a strwythurau cyrsiau, sy'n dangos pwysigrwydd sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol ac yn hygyrch i ddysgwyr. Roedd enghraifft o fenter yn yr Alban yn canolbwyntio ar llythrennedd a rhifedd, ond er mwyn iddi ymgysylltu â dysgwyr, roedd hi'n hanfodol bod y cynnwys yn berthnasol i brofiadau pob dydd dysgwyr, fel y mae'r dyfyniad canlynol yn dangos:

'Roedd angen iddynt gynnig gweledigaeth i bobl, a dewisiadau yr oeddent yn gallu newid eu bywyd. Roedd sicrhau bod llythrennedd yn berthnasol i fywydau pobl yn hanfodol. Roedd ystyried materion y mae'n rhaid iddynt ddelio â nhw yn ystod eu bywydau bob dydd, megis llenwi ffurflenni, yn fodd o'u cynnwys, ac fe wnaeth hyn ganiatáu'r prosiect i arwain pobl ymlaen i ddysgu arall yn raddol'.

Rheolwyr Dysgu a Datblygu Cymunedol yr Alban (2013, t. 18)

2.99 Mae canllawiau a ddarparwyd ar gyfer darparwyr ACL yn Iwerddon yn ategu hyn, gan amlygu'r ffaith bod angen i raglenni ddechrau 'gyda phrofiad byw y cyfranogwyr a'u bod wedi'u lleoli yn eu bywydau cymdeithasol a theuluol bob dydd' (Adran Addysg a Sgiliau, 2012, t. 10). Roedd adolygiad a gynhaliwyd yn ddiweddarach o'r ddarpariaeth llythrennedd i oedolion yn Iwerddon yn pwysleisio pwysigrwydd 'darpariaeth llythrennedd i'r teulu' hefyd, ynghyd â photensial 'dysgu dwys', yn ogystal â gwneud mwy o ddefnydd o gyfleoedd dysgu trwy gyfrwng TGCh (Adran Addysg a Sgiliau, 2013, t. 34).

2.100 Mae amrediad o gyfleoedd dysgu wedi deillio o bartneriaethau effeithiol gyda sefydliadau yn y trydydd sector. Mae'r rhain yn cynnwys teithiau cerdded, celf a chreffft traddodiadol a ddarparir gan Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt, y Comisiwn Coedwigaeth, y Cyngor Astudiaethau Maes, y Parciau Cenedlaethol a'r Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth. Darparwyd y cyfleoedd hyn fel sesiynau unigol, cyrsiau ffurfiol, a gweithgareddau penwythnosau neu wyliau. (NIACE, 2012a). Ceir tystiolaeth bod rhai dulliau darparu yn arbennig o effeithiol mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys dulliau gweithredu megis gweminarau, fel y dangosir yn y dyfyniad canlynol gan brosiect yn Berkshire.

'Mae gweminarau'n cynnig manteision aruthrol sy'n mynd y tu hwnt i'r ffaith eu bod yn gost-effeithiol. Mae modd i chi fynychu'r cyrsiau o unrhyw le, a'r unig beth y bydd ei angen arnoch er mwyn cymryd rhan fydd mynediad i'r rhyngrwyd a chlustffon. [] bydd dysgwyr yn cyfarwyddo â'r dechnoleg yn gyflym, ac mae hyn yn fantais ychwanegol i'r hyfforddiant. Yn ogystal, mae'n ymddangos bod rhai cyfranogwyr yn cymryd rhan fwy weithredol ar-lein nag y byddent mewn ystafell ddosbarth draddodiadol efallai, gan oresgyn swildod a chan gyfrannu yn fwy. Mae gweminarau yn brofiad hyfforddi rhyngweithiol gwirioneddol gyffrous!'

NIACE, (2012a, t. 17)

2.101 Mae amrywiaeth wrth ddarparu dysgu mewn ardaloedd gwledig yn amlwg; er enghraifft, defnyddir Skype, SmartBoard a Moodle er mwyn galluogi dysgwyr i fanteisio ar ddeunyddiau ar-lein yn Ynysoedd Sili (NIACE, 2012a); roedd menter gymdeithasol a oedd yn gweithio gyda chartrefi gofal wedi hyfforddi gwirfoddolwyr i fynd i mewn i'r cartref a darparu dysgu anffurfiol, o chwarae offeryn i drafod materion cyfoes (NIACE, 2012a); a chanolfan addysgu symudol (NIACE, 2012a) – ar hyn o bryd, mae'r Ganolfan dysgu Menter, Comput@bus yn flaenorol, yn darparu cyrsiau am E-bost, y Rhyngrwyd a holl feddalwedd Microsoft office ar draws Swydd Caerwrangon.

2.102 Mae arolwg dysgwyr NIACE yn rhoi adborth am gynnwys pynciau penodol a ffefrir gan ddysgwyr, a nodwyd mai technoleg ddigidol (TGCh a ffotograffiaeth ddigidol) yw'r un mwyaf poblogaidd (59 y cant o unigolion a 70 y cant o grwpiau), a bod ieithoedd yn boblogaidd iawn hefyd ymhlith unigolion a grwpiau (42 y cant) (NIACE, 2012b, t. 20). Ymatebodd dros 200 o grwpiau i'r arolwg, ac roedd y rhain yn ffafrio cyrsiau cerddoriaeth, dawns a drama a chreffft (ibid: 19). Roedd gwybodaeth arall a gasglwyd gan yr arolwg yn canolbwyntio ar ddewisiadau yr oeddent yn ymwneud â dysgu gan diwtor sy'n cael eu talu; roedd 92 y cant o unigolion a 94 y cant o grwpiau yn cytuno y byddent yn dymuno dysgu yn y ffordd hon (ibid: 22). Dylid nodi hefyd y dysgwyd gwers yn ystod prosiectau CLIF, sef bod cyrsiau 'blasu' byr yn debygol o fod yn fwy deniadol i ddysgwyr ar

y dechrau, yn hytrach nag ymrwymo i gwrs am sawl wythnos (NIACE, 2014b, t. 73).

2.103 Mae pwynt dysgu allweddol yn deillio o beilot CLT yn Lloegr yn amlygu'r ffaith bod angen adolygu'r ffordd y caiff cyrsiau eu brandio, wrth i'r cam o newid teitlau cyrsiau ennyn mwy o ddiddordeb, er mwyn osgoi termau fel 'Mathemateg' a 'Saesneg'. Un dull gweithredu arall a nodwyd yn ystod peilot CLT er mwyn goresgyn ofnau pobl ynghylch meysydd pwnc arbennig, TG yn benodol, oedd darparu 'addysg anuniongyrchol' trwy bartneru â digwyddiadau cymunedol neu weithgareddau dysgu eraill, e.e. boreau coffi, neu gyrsiau coginio a chreffft (BIS, 2014, t. 78). Mae Estyn hefyd yn nodi tystiolaeth o'r ffaith bod datblygiad sgiliau llythrennedd a rhifedd ar ei fwyaf llwyddiannus pan gynigir y ddarpariaeth law yn llaw â sgiliau eraill sy'n ymwneud â diddordebau dysgwyr, megis hanes teuluol er enghraifft (Estyn, 2012a, t. 7). Mae rhai darparwyr yn osgoi defnyddio'r geiriau Saesneg a Mathemateg mewn teitlau cyrsiau. Fodd bynnag, mewn rhai achosion pan gyfeiriwyd dysgwyr gan asiantaethau megis y gwasanaethau cymdeithasol, roedd yn well gan y sefydliadau partner hyn weld geiriau fel Saesneg a Mathemateg mewn teitlau cyrsiau gan eu bod yn teimlo'u bod yn cydymffurfio gyda blaenoriaethau'r llywodraeth (BIS, 2014, t. 84).

2.104 Roedd pwysigrwydd canolbwyntio ar sgiliau TGCh ar gyfer oedolion sy'n ddysgwyr yn amlwg yn y lenyddiaeth (Hague, 2009). Fodd bynnag, mae'r cynnwys a gynigir i ddysgwyr hŷn wedi cael ei feirniadu am y ffaith ei fod wedi cael ei gynllunio ar ei ben ei hun, heb i wahanol asiantaethau gysylltu eu darpariaeth. O ganlyniad, nid oes nifer o ddysgwyr hynach yn parhau i ddysgu ar ôl iddynt ymddeol a phan fyddant yn oedrannus (Estyn, 2012a).

2.105 Mae cynnig cyfleoedd i ddysgwyr reoli eu dysgu yn bwysig, ac mae dysgu hunangyfeiredig, myfyrio beirniadol a sgiliau 'dysgu sut i ddysgu' yn cyfrannu at ddysgwyr yn sicrhau llwyddiannau trwy gydol y profiad dysgu. Anogir pwyslais ar ddysgu fel grŵp hefyd, gan gynnig fframwaith ar gyfer cydlyniant a gweithredu cymunedol (Adran Addysg a Sgiliau, 2012). Amlygwyd hyblygrwydd o ran dulliau darparu, dewis o ran

cwricwlwm ac asesu yn y lenyddiaeth, a bod angen gweithio gyda'r gymuned er mwyn sicrhau darpariaeth briodol, ac mae angen hyblygrwydd penodol wrth anelu dysgu ar gyfer y rhai dros 70 oed (Uned Datblygu Addysg Bellach, Adran Addysg a Gwyddoniaeth 2008; Estyn, 2012a).

2.106 Roedd arolwg diweddaraf Llais y Dysgwr Cymru yn cofnodi bod 13 y cant o ddysgwyr ACL yn dymuno dysgu trwy gyfrwng y Gymraeg/yn ddwyieithog a nododd dau y cant bod yn well ganddynt ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Roedd y galw am y Gymraeg yn y sector ACL ychydig yn uwch nag yr oedd yn y sectorau Addysg Bellach a Dysgu Seiliedig ar Waith (Llywodraeth Cymru, 2015b, t. 50).

2.107 Mae rhoi'r dysgu mewn cyd-destun a sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol i fywydau dysgwyr wedi bod yn thema gref ar draws y lenyddiaeth. Er enghraifft, gwelwyd cyrsiau i gynorthwyo datblygiad sgiliau Saesneg mudwyr yn defnyddio thema gyffredinol iechyd, gan arwain at iaith yn cael ei hymwreiddio mewn bywydau bob dydd (Robey, 2015a). Mewn cyrsiau a gynigiwyd i fenywod yn unig, bu ffocws ar hunan-hyder a datblygiad personol o gymorth gyda'r cymhelliant i barhau i gymryd rhan mewn dysgu (Robey, 2015d). Yn ogystal, cydnabuwyd pwysigrwydd dinasyddiaeth fel edefyn allweddol ar gyfer cyrsiau ESOL a'r angen i ymgorffori llythrennedd a rhifedd a gosod cyd-destun o fewn gwahanol feysydd pwnc (NIACE, 2014a).

2.108 Mae canfyddiadau cynnar menter a beilotwyd yn yr Alban rhwng mis Medi 2015 a mis Chwefror 2016, gyda deg canolfan sy'n cynorthwyo 130 o oedolion sy'n ddysgwyr, yn nodi budd cadarnhaol dysgwyr yn llenwi dyddlyfr myfyriol a gwerth cael cymorth uniongyrchol gan diwtor; mae'r Gwobrau Cyflawniad Oedolion yn cydnabod y sgiliau a gyflawnwyd yn ystod dysgu heb fod yn ffurfiol a phwysigrwydd sgiliau meddal trosglwyddadwy (Ross, 2016).

Lleoliadau

2.109 Mae'r adran hon yn amlinellu'r canfyddiadau o'r lenyddiaeth o ran y lleoliadau a ddefnyddir ar gyfer y ddarpariaeth ACL.

Lleoliadau

Prif negeseuon o'r lenyddiaeth:

- Mae darpariaeth hyblyg mewn lleoliadau niwtral hygyrch a chyfarwydd yn helpu i fodloni gofynion unigol a lleol.
- Mae lleoli ACL mewn 'lleoliad a rennir' wedi bod yn llwyddiannus.
- Gall seilwaith trafndiaeth hygyrch effeithio ar benderfyniadau dysgwyr, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

2.110 Mae rôl y lleoliad lle y cynigir darpariaeth ACL yn bwysig. Canfu astudiaeth fawr o bron i 2,000 o ddysgwyr, a oedd yn cynnwys ystyried y rhesymau dros ymgysylltu gyda dysgu, bod cyfleustra'r lleoliad yn allweddol i 43 y cant o ddysgwyr (London Economics ac Ipsos MORI, 2013, t. 5). Roedd arolwg dysgwyr NIACE yn nodi hefyd bod yn well gan y mwyafrif 'foddau dysgu confensiynol'; megis dosbarthiadau mewn coleg, canolfan addysg i oedolion neu ganolfan gymunedol (NIACE, 2012b, t. 19).

2.111 Nododd cynllun peilot CLT bwysigrwydd defnyddio 'cyfleusterau cyfarwydd' megis llyfrgelloedd, canolfannau cymunedol a thafarndai er mwyn lleihau'r gofid y gallai dysgwyr ei wynebu mewn amgylchedd newydd (BIS, 2014, t. 13; t. 69). Roedd gallu manteisio ar gyfleusterau eraill, megis crèches, yn bwysig i rai hefyd (Robey, 2015a, t. 5). Amlygwyd y cam o leoli ACL yn yr un safle â llyfrgell, gwybodaeth i dwristiaid a gwasanaethau gwybodaeth eraill mewn gwaith effeithiol mewn partneriaeth yn Northumberland (NIACE, 2012a, t. 45).

2.112 Darparir hyblygrwydd o ran y lleoliad dysgu i ddysgwyr hefyd wrth ddarparu dysgu ar-lein a/neu gan ddefnyddio gwasanaethau symudol (NIACE, 2012a). Roedd nifer o ymatebwyr i arolwg NIACE 2012 yn barnu bod materion megis hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus ac argaeledd adnoddau dysgu o ansawdd uchel yn bwysicach na'r math o leoliad (NIACE, 2012). Roedd nifer o brosiectau a gynorthwywyd gan CLIF yn sôn am bwysigrwydd 'amgylchedd dysgu diogel, cyfarwydd a chyffyrddus' (NIACE, 2014b, t. 68). Fodd bynnag, nododd lleiafrif o

ddysgwyr bod yn well ganddynt gael lleoliad niwtral weithiau o ganlyniad i'r stigma ymddangosiadol sy'n gysylltiedig gyda sefyllfaoedd penodol megis digartrefedd neu faterion iechyd meddwl (ibid: 68).

2.113 Gall 'lleoliadau annhraddodiadol' mewn ardaloedd gwledig sicrhau bod dysgu ar gael yn agosach i'r man lle y mae pobl yn byw, ac mae modd i ddysgu ar-lein helpu i oresgyn rhwystrau ymarferol megis diffyg trafndiaeth gyhoeddus (BIS, 2014, t. 75). Mae Estyn yn cefnogi hyn, gan nodi pwysigrwydd 'rhaglenni dysgu lleol i bobl hŷn er mwyn eu paratoi ar gyfer y cyfnod yn nes ymlaen yn eu bywyd' (Estyn, 2012a, t. 8). Dangosir arwyddocâd mynediad hawdd isod:

'Roedd y ffaith bod y cwrs ar gael gerllaw yn fater tyngedfennol yn fy mhenderfyniad i gymryd rhan. Pe byddai'r cwrs yn cael ei gynnal ymhellach i ffwrdd, ni fyddwn wedi trafferthu. Felly, y materion hollbwysig i mi yw lleoliad a rhyngweithio cymdeithasol. Yn fy marn i, byddai sefyllfa lle na fyddai'r cyrsiau hyn ar gael yn lleol yn cyfateb â rhyw fath o allgáu cymdeithasol!'

Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol, (2014, t. 11)

2.114 Fodd bynnag, arsylwyd yn Iwerddon hefyd bod staff ACL sy'n darparu gwasanaeth allgymorth yn gallu bod yn gweithio ar eu pen eu hunain, a bod y gwaith yn waith unig neu anodd; byddai gweithio mewn timau'n sicrhau na fyddai hyn yn digwydd (Uned Datblygu Addysg Bellach, Adran Addysg a Gwyddoniaeth, 2008, t. 11).

Casgliadau'r adolygiad llenyddiaeth

2.115 Mae'r adolygiad llenyddiaeth yn dangos bod ystod eang o gyfleoedd dysgu oedolion sy'n cael eu darparu yn bennaf gan awdurdodau lleol, Sefydliadau AB a mudiadau cymunedol ac addysgol ar draws y DU ac Iwerddon. Er bod darparwyr ACL yn yr holl genhedloedd yn wynebu sialensiau oherwydd bod y cyllid sy'n cael ei neilltuo yn is, mae'r lenyddiaeth er hyn yn pwysleisio gwerth ACL i unigolion ac i gymdeithas yn ehangach. Mae ACL yn cynnig cyfleoedd i unigolion feithrin sgiliau newydd, i sicrhau cymwysterau, i symud ymlaen i lwybrau dysgu pellach,

neu i gyflogaeth neu gyfleoedd gwirfoddoli yn uniongyrchol. Mae'r lenyddiaeth yn dangos enghreifftiau o effaith ehangach ACL ar amrediad o faterion gan gynnwys iechyd a lles, cynhwysiant cymdeithasol, cydlyniant cymunedol ac fel ffordd o drechu tlodi.

Partneriaethau a modelau darparu

2.116 Bu'r adolygiad llenyddiaeth yn archwilio gwahanol fodolau er mwyn darparu ACL a gwahanol ddulliau gweithredu partneriaeth a fabwysiadwyd ar draws y DU ac Iwerddon. Ceir tystiolaeth sy'n dynodi bod modd i ddulliau gweithredu strategol rhanbarthol tuag at gynllunio a darparu dysgu oedolion arwain at ddarpariaeth fwy hwylus. Pan ddarparir ACL trwy gyfrwng dulliau gweithredu partneriaeth, mae modelau darparu wedi'u seilio ar un partner arweiniol a grŵp craidd o benderfynwyr wedi bod yn effeithiol. Fodd bynnag, mae ymchwil wedi dangos bod y broses o wneud penderfyniadau yn gallu bod yn arafach pan geir sawl partner cyfartal yn hytrach nag un partner arweiniol a bod modd i un tîm y mae ganddo un gyllideb fod yn gryfach ac yn fwy effeithiol mewn achosion penodol.

Cyllid

2.117 Mae'n anochel bod gostyngiadau mewn lefelau cyllid ar gyfer ACL yn effeithio ar amrediad y ddarpariaeth sydd ar gael a'r gallu i ymgysylltu gyda dysgwyr. Er hyn, adroddwyd am rai meysydd lle y gwelwyd arfer da yn y lenyddiaeth. Un o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad yw bod ymgorffori cynaladwyedd ariannol (e.e. trwy gyfrwng cylchoedd cyllido ar gyfer y tymor hwy) wedi arwain at ddarpariaeth ACL lwyddiannus, a bod symleiddio prosesau ymgeisio wedi helpu i ymgysylltu amrediad o sefydliadau i gynorthwyo'r ddarpariaeth a'r broses o ddarparu. Ceir enghreifftiau yn y lenyddiaeth lle y mae rhannu rolau ar draws partneriaethau wedi arwain at arbed costau. Yn ogystal, mae ceisiadau ar y cyd am grantiau rhwng sefydliadau partner wedi cynnig ffordd o gyfuno cyllid ar gyfer ACL.

Bodloni anghenion lleol

2.118 Amlygwyd bod targedu cymunedau a dysgwyr y maent yn yr angen mwyaf trwy gyfrwng darpariaeth allgymorth, yn hanfodol er mwyn ymgysylltu dysgwyr ar y cyrion. Mae asiantaethau wedi cydweithio mewn ffordd effeithiol er mwyn targedu dysgwyr mewn cymunedau. Mae ymateb i'r angen lleol yn hanfodol er mwyn sicrhau ymgysylltu effeithiol ac mae'r lenyddiaeth yn dynodi bod modd i strategaethau rhanbarthol effeithiol sy'n cael eu cynorthwyo gan seilwaith sy'n cynorthwyo darpariaeth leol, fod o fudd. Mae'r lenyddiaeth yn nodi bod gwahanol ddulliau gweithredu tuag at gynllunio'r ddarpariaeth yn ofynnol mewn ardaloedd gwledig a threfol. Ceir cyfeiriad penodol at yr anghenion ychwanegol mewn ardaloedd gwledig, lle y mae hygyrchedd lleoliadau a thrafnidiaeth yn gallu creu rhwystrau ychwanegol i ddysgwyr sy'n dymuno ymgysylltu â dysgu.

Targeddu dysgwyr

2.119 O ran targedu dysgwyr unigol, nodwyd bod mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr wedi bod yn ffactor allweddol wrth sicrhau llwyddiant. Mae'r lenyddiaeth yn awgrymu bod angen i ddysgu fod yn berthnasol i brofiadau bywyd bob dydd dysgwyr, a bod dull gweithredu hyblyg, gan gynnwys cyrsiau byrrach, amrediad o ddulliau darparu a dulliau gweithredu asesu yn gallu bod yn bwysig wrth annog ymgysylltu gyda dysgu. Mae argaeledd adnoddau dysgu o ansawdd uchel yn allweddol wrth ddenu a chadw dysgwyr. Er bod y lenyddiaeth yn awgrymu nad yw'n ymddangos bod talu ffioedd yn peri i ddysgwyr beidio manteisio ar ACL, mynegir rhywfaint o bryder y bydd toriadau pellach i ddarpariaeth 'hamdden' yn arwain at ddiffyg unrhyw gynnig sy'n cael ei gynorthwyo gan arian cyhoeddus ar gyfer dysgwyr sy'n gallu talu.

3. Trosolwg o'r ddarpariaeth ACL bresennol yng Nghymru

Trosolwg o'r ymarfer mapio

3.1 Un o'r cwestiynau ymchwil a nodwyd yn y fanyleb ar gyfer yr adolygiad hwn oedd pennu '*Pa ACL a ddarparir ar draws Cymru ar hyn o bryd, a sut y caiff ei ddarparu, a sut y mae hyn yn gwahaniaethu o ardal i ardal?*' Er mwyn helpu i ateb y cwestiwn hwn, cwblhawyd ymarfer mapio gan y tîm ymchwil, a oedd yn cynnwys casglu gwybodaeth gan Bartneriaethau ACL am y canlynol:

- Strwythurau darparu Partneriaethau ACL;
- Aelodau Partneriaethau ACL;
- Sut y mae partneriaid yn cydweithio trwy fyrddau Partneriaeth ac is-grwpiau;
- Nodau a blaenoriaethau strategol;
- Mathau o ddarpariaeth;
- Lleoliadau lle y cyflwynir darpariaeth ACL.

3.2 Cyn troi at y pwyntiau hyn, rydym yn ystyried y trefniadau presennol er mwyn ariannu ACL yng Nghymru, sy'n cynnig cyd-destun ar gyfer yr adrannau canlynol a'r materion ehangach a godir ym Mhennod 4 yr adroddiad hwn.

Cyllid ar gyfer y ddarpariaeth ACL yng Nghymru

3.3 Ariannir y ddarpariaeth ACL yng Nghymru trwy gyfrwng cymysgedd gymhleth o ffrydiau cyllido, ac mae'r rhain yn aml yn gysylltiedig. Mae hyn yn cynnwys y Grant Dysgu Cymunedol (CLG) a chyllid ar gyfer darpariaeth rhan-amser mewn addysg bellach (AB). Cwtogwyd yn sylweddol ar y ddwy ffrwd gyllido dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae

hyn wedi cael effaith arwyddocaol ar swm yr ACL a ddarparir.² Defnyddir y Grant Dysgu Cymunedol i ddarparu rhywfaint o ddarpariaeth uniongyrchol gan awdurdodau lleol. Fe'i ddefnyddir hefyd er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth trwy gyfrwng masnachfreintiau a rhaglenni eraill y llywodraeth ac fe'i ddefnyddir gan rai awdurdodau lleol fel cyllid cyfatebol mewn prosiectau a ariannir gan gyllid Ewropeaidd. Yn ychwanegol i'r cyllid uniongyrchol trwy gyfrwng CLG, mae rhai awdurdodau lleol yn cael cyllid masnachfaint gan golegau; mae rhai awdurdodau lleol yn cael cyfraniadau uniongyrchol ychwanegol o gyllidebau awdurdodau lleol hefyd. Mae Tabl 4 isod, a baratowyd gan Lywodraeth Cymru, yn darparu ffigurau ar gyfer grant uniongyrchol (CLG) rhwng 2013/14 a 2016/17. Mae'n datgelu y bu gostyngiad o 37 y cant yn y Grant yn ystod y cyfnod hwn, o £6.1m i £3.8m.

Tabl 4: Cyllid y Grant Dysgu Cymunedol, 2013/14 i 2016/17


	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17
Grant Dysgu Cymunedol Llywodraeth Cymru – cyllid grant ACL uniongyrchol	£6,082,982	£3,801,864	£3,736,624	£3,811,356

3.4 Mae'r Grant Dysgu Cymunedol wedi bod yn gweithredu er 2000 ac mae'n seiliedig ar ymarfer hanesyddol a oedd yn tynnu cyfran allan o'r Grant Cynnal Refeniw oddi ar awdurdodau lleol, ac yn ei ailddosbarthu fel Grant Dysgu Cymunedol penodol, a ddosbarthwyd bob blwyddyn. Mae'r symiau a ddyfarnir i bob awdurdod lleol yn adlewyrchu'r swm a aberthwyd gan bob un ohonynt fel rhan o'r ymarfer cychwynnol hwnnw yn 2000. Mae'n amlwg y bu problemau gyda'r ymarfer, ac o ganlyniad, roedd swm y cyllid a ildwyd gan bob awdurdod lleol yn amrywio'n sylweddol. O ganlyniad, mae'r symiau a ddyfarnir i bob awdurdod lleol fel rhan o'r grant yn hynod o anghyson, gan amrywio o £2,075 (Sir y Fflint) i £941,951

²Gwelwyd swm y GDC a chyllid rhan-amser mewn AB yn gostwng 37.5 y cant yn 2014/15, a ddilynwyd gan ostyngiad pellach o 50 y cant yn y gyllideb AB rhan-amser yn 2015/16.

(Caerdydd). Dangosir yr arian a ddyrannir ar gyfer 2016/17 yn Ffigur 1 isod.

Ffigur 1. Dyraniadau'r Grant Dysgu Cymunedol fesul awdurdod lleol, 2016-2017



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

3.5 Mae gan rai awdurdodau lleol drefniadau masnachfrait gyda cholegau lleol ac maent yn cael cyllid gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol trwy GDC a chan sefydliadau AB trwy'r fasnachfrait. Pennir swm y cyllid gan golegau, wrth iddynt gynnal trafodaethau gydag awdurdodau lleol, ac nid yw'n gyllid sy'n cael ei glustnodi gan Lywodraeth Cymru. Yn awdurdodau lleol hynny lle y darparir y ddarpariaeth mewn masnachfrait gyda cholegau AB, mae gwerth y fasnachfrait ar draws Cymru yn debyg i werth y GDC uniongyrchol sy'n cael ei neilltuo i awdurdodau lleol.³ Yn

³ Yn 2015/16, cafodd y deg awdurdod lleol y mae ganddynt drefniadau masnachfrait gyda cholegau £1.8m trwy'r Grant Dysgu Cymunedol. Roedd gwerth y masnachfreintiau hyn i'w hawdurdodau lleol yn £1.6m pellach.

wir, mewn rhai achosion, mae swm y cyllid gan sefydliadau AB lawer yn uwch na swm y cyllid uniongyrchol y byddant yn ei gael.

- 3.6 Yn ychwanegol i drefniadau masnachfaint ffurfiol, mae colegau yn ariannu ACL trwy gyfrwng Cytundebau Lefel Gwasanaeth a Fframweithiau Comisiynu gydag awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo ystod o weithgarwch, gan gynnwys darpariaeth ESOL ac ASO. Mae hyn yn tanlinellu rôl hanfodol colegau wrth gynorthwyo a chynnal darpariaeth ACL ar adeg pan fo cyllidebau dan bwysau parhaus.
- 3.7 Mae nifer o awdurdodau lleol yn cyfrannu cronfeydd ychwanegol hefyd y tu allan i'r grant uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru a'r trefniadau masnachfaint er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth ACL. Ni cheir darlun cyson ar draws Cymru (ac yn wir, nid yw pob awdurdod lleol yn darparu cymorth o'r fath).
- 3.8 Mae ffynonellau cyllid eraill y cyfeiriwyd atynt gan Bartneriaethau ACL mewn dogfennaeth a ddarparwyd i dîm yr adolygiad yn cynnwys:
- Cyllid trwy raglenni eraill a ariannir gan arian cyhoeddus (Cymunedau yn Gyntaf yn arbennig; a hefyd cyllid Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf, Grant Amddifadedd Disgyblion);
 - Cyfraniadau mewn nwyddau neu wasanaethau megis costau staffio neu ddefnyddio cyfleusterau neu leoliadau y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt;
 - Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) neu brosiectau eraill a ariannir gan y Comisiwn Ewropeaidd;
 - Cyllid trwy raglenni adfywio a reolir gan awdurdodau lleol;
 - Cyllid gan y Loteri;
 - Cyllid Ehangu Mynediad i Addysg Uwch;
 - Cyllid penodol sy'n gysylltiedig gyda phrosiectau cymunedol;
 - Ystod eang o sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio gydag oedolion agored i niwed.

3.9 Mae statws cyfredol cyllid ACL yn dangos llwyddiant nifer o awdurdodau lleol wrth fanteisio ar ffrydiau cyllido lluosog er mwyn cynorthwyo a chynnal y ddarpariaeth ac er mwyn rhoi sylw i'r bylchau yn y cyllid. Er hyn, mae'n codi cwestiynau ynghylch pa mor strategol a chydlynol y mae modd i'r sector ACL fod pan fo'n ddibynnol ar ffrydiau cyllido anghyfartal, ar gyfer y tymor byr, ac y maent yn rhai ansicr mewn rhai achosion.

Partneriaethau ACL yng Nghymru

3.10 Mae'r holl ddarparwyr yn ymwneud â Phartneriaethau Strategol ACL, a sefydlwyd ar gais Llywodraeth Cymru fel rhan o raglen er mwyn trawsnewid ACL yn 2009. Er mwyn cael eu cydnabod yn swyddogol gan Lywodraeth Cymru, rhaid i Partneriaethau ACL gynnwys cynrychiolwyr o faes AB, AU, awdurdodau lleol a'r trydydd sector.

3.11 Ar hyn o bryd, mae 15 o Partneriaethau ACL yn gweithredu ar draws amrediad o wahanol fodolau darparu. Ceir pedwar mecanwaith darparu bras:

- Darpariaeth uniongyrchol gan awdurdodau lleol trwy gyfrwng y Grant Dysgu Cymunedol (CLG);
- Darpariaeth gan awdurdodau lleol mewn masnachfaint gyda cholegau;
- Darpariaeth gan golegau trwy gyfrwng Cytundebau Lefel Gwasanaeth (CLGau) a Fframweithiau Comisiynu gydag awdurdodau lleol;
- Darpariaeth uniongyrchol gan sefydliadau AB.

3.12 Caiff ACL ei gynllunio, ei gydlynw a'i ddarparu mewn gwahanol ffyrdd ar draws Cymru, a cheir anghysondeb o ran y ffordd y caiff Partneriaethau ACL eu cyflunio. Mae un Partneriaeth yn seiliedig ar yr awdurdod lleol sy'n cynnwys y boblogaeth leiaf yng Nghymru (Merthyr, gyda phoblogaeth o tua 59,000), a cheir dwy Partneriaeth sy'n gwasanaethu grwpiau o awdurdodau lleol sy'n cynnwys poblogaethau o bron i hanner miliwn (Partneriaeth ACL Gwent, a Chaerdydd a'r Fro).

- 3.13 Mae Llywodraeth Cymru yn monitro Partneriaethau ACL yn erbyn y Fframwaith Ansawdd ac Effeithiolrwydd ac mae Estyn yn eu monitro yn unol â'i Fframwaith Arolygu Cyffredin. Mae cynrychiolwyr Partneriaethau a rhanddeiliaid wedi awgrymu bod hyn wedi arwain at sefyllfa ddi-drefn gan nad yw'r Partneriaethau'n cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol, ond er hyn, nhw yw'r mecanwaith y caiff y ddarpariaeth ei gwerthuso yn ei erbyn.
- 3.14 Mae canlyniadau arolygiadau ers i'r partneriaethau gael eu sefydlu yn datgelu darlun cymysg o ran ansawdd y ddarpariaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd adroddiadau arolygu yn ystod y cyfnod tan 2013 yn tanlinellu nifer o wendidau o ran y ffordd yr oedd gweithgarwch Partneriaeth yn cael ei arwain a'i reoli. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn y bennod flaenorol, mae arolygiadau Estyn wedi arwain at ganlyniadau gwell dros y blynyddoedd diwethaf.
- 3.15 Mae'r anghysondebau o ran y cyllid a'r amrywiadau o ran y modelau darparu yn bodoli am resymau hanesyddol yn bennaf, yn hytrach nag unrhyw gynllunio pwrpasol neu strategol. Mae tystiolaeth a gyflwynir yn nes ymlaen mewn adrannau o'r adroddiad hwn yn ystyried effaith trefniadau cyfredol ar gydraddoldeb o ran mynediad ac ar ansawdd y ddarpariaeth.

Aelodaeth Partneriaethau ACL

- 3.16 Roedd Strategaeth 2010 Llywodraeth Cymru, '*Cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru*', yn nodi disgwyliad eglur y dylai partneriaethau ACL barhau i ddwyn ynghyd amrediad o ddarparwyr gan gynnwys AB, AU, awdurdodau lleol, y sector gwirfoddol a darparwyr eraill, ac y dylai'r partneriaethau hyn '*weithio yn unol â'u cryfderau unigol*'. Mae'r rhan fwyaf o Bartneriaethau'n adrodd bod ganddynt aelodaeth eang a chynhwysol. Nododd partneriaethau sy'n cynnwys y rhestr hiraf o aelodau bod gwahanol lefelau yn bodoli o ran gweithgarwch ac ymgysylltu. Fel y disgwyl, mae awdurdodau lleol, colegau AB a WEA YMCA Cymru yn arwain ar y prif agweddau ar gydlynu a chynllunio'r

ddarpariaeth. Yn y rhan fwyaf o Bartneriaethau, mae sefydliadau AU yn bartneriaid allweddol a gweithredol hefyd.

3.17 Yn ystod cyfweiliadau, adroddodd cynrychiolwyr partneriaethau bod aelodau eraill yn ymwneud yn llai gyda'r gwaith cynllunio strategol fel rheol, a'u bod yn cyflawni rôl partneriaid cynghori neu ddarparu 'ail haen' i raddau helaeth. Mae hyn yn cynnwys mudiadau o'r sector gwirfoddol, Cymraeg i Oedolion, Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru, cynrychiolwyr Cymunedau yn Gyntaf, sefydliadau hyfforddi, cymdeithasau tai a phrosiectau adfywio.

3.18 Mae partneriaid yn adrodd bod Partneriaethau ACL wedi arwain at lefelau rhwydweithio da rhwng darparwyr. Clywodd yr adolygiad dystiolaeth o'r ffaith bod rhai partneriaid yn cyfuno adnoddau ac yn cydlynu'r ddarpariaeth er mwyn cynnal darpariaeth ar adeg pan fo'r sector yn cael llai o gyllid, er mwyn rhoi sylw i unrhyw ddyblygu o ran y ddarpariaeth ac er mwyn cynnig llwybrau dilyniant eglur i ddysgwyr. Mae hyn yn cysylltu gyda phwysigrwydd dull gweithredu sy'n gynyddol ranbarthol tuag at agweddau ar yr agenda dysgu a sgiliau yng Nghymru. Er y bu gan Bartneriaethau Dysgu Rhanbarthol rôl cyfyngedig hyd yn hyn mewn perthynas ag ACL, efallai y byddai o ddefnydd ystyried sut y gall eu swyddogaethau a'u gweithgareddau mewn perthynas â chynorthwyo poblogaeth yr oedolion anweithredol ddatblygu ac ychwanegu gwerth i waith Partneriaethau ACL yn y dyfodol.

Blaenoriaethau a nodau strategol ar gyfer partneriaethau ACL

3.19 Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn i bartneriaethau nodi 'cyfeiriad eglur' yn eu cynlluniau strategol a datblygu ansawdd ar gyfer ACL. Mae gan y rhan fwyaf o Bartneriaethau 'Gynlluniau Strategol' cyfredol neu 'Ddatganiadau Strategol ACL' ac mae nifer ohonynt yn datblygu dogfennau o'r fath ar hyn o bryd. Ni cheir fawr iawn o gysondeb yn strwythur neu gwmpas y dogfennau hyn. Mewn rhai achosion, mae Strategaethau Dysgu Cymunedol cynhwysfawr ar draws y Bartneriaeth yn bodoli, sy'n nodi gweledigaeth, nodau a chynllun gweithredu, gyda

mesurau perfformio dros gyfnod o dair blynedd. Mae rhai cynlluniau strategol yn egluro'r cysylltiadau rhwng ACL a rhaglenni lleol a chenedlaethol eraill hefyd. Nid oes gan bartneriaethau eraill gynlluniau mor fanwl, ac maent yn cynnig disgrifiad bras o feysydd blaenoriaeth yn unig, a hynny heb bennu rôl a swyddogaethau'r Bartneriaeth ACL yng nghyd-destun ehangach dysgu a sgiliau.

3.20 Fel rhan o'r adolygiad, mae'r tîm ymchwil wedi archwilio amrediad y nodau, yr amcanion a'r blaenoriaethau a fynegwyd gan Bartneriaethau ACL. Gan adleisio'r pwyntiau uchod, mae'r rhain yn amrywio o ran eu manylion a'u cwmpas. Mae rhai Partneriaethau yn nodi eu nodau yn fras trwy gyfrwng datganiadau cenhadaeth sy'n cynnwys amrediad o themâu, ac mae eraill yn darparu rhestrau cymharol hir o amcanion strategol penodol. Mae'n bwysig nodi bod aelodau'r partneriaethau yn gweithio tuag at amcanion a chyfeiriad strategol eu sefydliad unigol hefyd, y mae'n ymddangos eu bod yn dylanwadu ar y ffordd y cyflwynir y nodau a'r amcanion hyn. O ganlyniad, mae nodau a blaenoriaethau strategol ar gyfer partneriaethau yn amrywio o ran eu cynnwys a'u ffocws.

3.21 Mae dogfen Llywodraeth Cymru, *Cyflenwi Dysgu Cymunedol i Gymru* (2010, t. 6), yn nodi'r dysgwyr a dargedir gan ACL, gydag o leiaf 80 y cant o gyfanswm y cyllid a ddyrennir i ddarpariaeth ACL yn cael ei neilltuo i'r:

- rhai sy'n 16 oed a throsodd ac sy'n dilyn rhaglen ACL sgiliau sylfaenol a/neu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), gan gynnwys cyrsiau sgiliau sylfaenol cyd-destunol a dinasyddiaeth;
- y rhai nad ydynt ar hyn o bryd mewn addysg, hyfforddiant na chyflogaeth (NEET) ac sy'n cael budd-daliadau neu gymorth gan y wladwriaeth (ac eithrio pensiwn ymddeol y wladwriaeth); neu
- y rhai sy'n 50 oed a throsodd nad ydynt mewn cyflogaeth lawnamser.

3.22 Mae partneriaethau'n cyfeirio at y meysydd blaenoriaeth hyn i ACL ac maent yn cael eu cydnabod yn uniongyrchol gan rai fel blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Y nodau a'r blaenoriaethau mwyaf cyffredin y cyfeirir atynt ac a nodir yng nghynlluniau strategol Partneriaethau ACL yw:

- Darparu sgiliau hanfodol; gwella cyflawniad mewn llythrennedd a rhifedd; cynorthwyo cyflogadwyedd;
- Cynnig amrediad o brofiadau a chynyddu cyfranogiad mewn dysgu;
- Darparu dysgu sy'n ymateb i anghenion a blaenoriaethau (dysgwyr, cyflogwyr, cymunedau a Llywodraeth Cymru);
- Gwella iechyd a lles, a chynhwysiant cymdeithasol.

3.23 Mae'r pwyntiau hyn yn cynnwys amrywiaeth o faterion, gan gynnwys 'mathau' o ddarpariaeth, prosesau cynllunio a strategol a chanlyniadau. Mae enghreifftiau o amcanion a blaenoriaethau eraill sy'n cael eu cynnwys mewn dogfennaeth strategol yn torri ar draws nifer o themâu. Mae rhai'n cyfeirio at y math o ddarpariaeth (gan adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru) ac mae eraill yn canolbwyntio ar faterion cynllunio strategol, megis yr ymdrech i wella ansawdd a sicrhau llwybrau dilyniant cydlynol i ddysgwyr. Mae eraill yn cynnwys canlyniadau ar gyfer y tymor hwy yn rhestr eu blaenoriaethau.

3.24 Er y caiff nodau Partneriaethau eu tywys gan y blaenoriaethau a nodwyd gan Lywodraeth Cymru, er hyn, ceir amrywiaeth o ran y nodau a'r blaenoriaethau a nodir ganddynt. Mae'n amlwg hefyd o weld ehangder y nodau a'r amcanion strategol, a'r grwpiau blaenoriaeth a dargedir, bod Partneriaethau ACL ar draws Cymru yn ceisio ymestyn allan yn helaeth ar draws cymunedau. Ceir diffyg cysondeb o ran sut y mae Partneriaethau ACL ar draws Cymru yn cyfleu eu nodau. Gellid dweud bod hyn yn dynodi diffyg ffocws neu ddiffyg eglurder ynghylch nodau cyffredinol darpariaeth ACL.

3.25 Mae partneriaethau'n targedu darpariaeth gan ymateb i'r angen lleol; caiff y dysgwyr mwyaf difreintiedig eu cynorthwyo mewn ardaloedd Dechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf, mae cydweithio gyda Chanolfan Byd Gwaith yn caniatáu i gyrsiau gael eu teilwra er mwyn rhoi sylw i'r swyddi gwag yn y farchnad swyddi. Law yn llaw gyda'r cam o dargedu'r grwpiau uchod, mae rhai partneriaethau'n pwysleisio pwysigrwydd targedu oedolion sy'n dysgu Cymraeg hefyd, rhieni a

nodwyd gan ysgolion fel y rhai y mae angen cymorth dysgu fel teulu arnynt, oedolion sydd ag anghenion ychwanegol, ffermwyr, cyn-droseddwyr a grwpiau difreintiedig ac sy'n cael eu tangynrychioli, a nodir trwy gyfrwng cysylltiadau gyda'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), Cymdeithasau Tai a'r sector gwirfoddol.

- 3.26 Ceir cwestiynau o hyd ynghylch pa mor realistig yw hi bod modd i Bartneriaethau ACL gyflawni rhestr mor helaeth o amcanion yn llawn ar gyfer ystod mor eang o grwpiau targed. Mae darparwyr a Phartneriaethau ACL wedi ymestyn eu hadnoddau ar adeg pan fo'r sector wedi ceisio cyfrannu at amrediad eang o feysydd polisi. Er bod hyn yn dangos y cyfraniad y gall ACL ei wneud ac y mae ACL yn ei wneud mewn gwahanol ffyrdd, mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch a yw cylch gwaith mor eang yn cael effaith negyddol ar allu'r sector i gyflawni ei rolau sylfaenol a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru.

Darpariaeth

- 3.27 Gofynnwyd i bartneriaethau ACL a ydynt yn darparu unrhyw ddarpariaeth ACL yn ychwanegol i dri maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru sef ESOL, Sgiliau Hanfodol a llythrennedd digidol. Dywedodd y rhan fwyaf o bartneriaethau ACL eu bod yn cynnig darpariaeth ychwanegol, a gwelwyd mai dim ond nifer fach a nododd nad ydynt. Yn y rhan fwyaf o achosion, darparwyd enghreifftiau gan bartneriaethau o'r math o ddarpariaeth a gynigir ganddynt. Er enghraifft, adroddodd un partneriaeth ei bod yn darparu cyrsiau ar gyfer oedolion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, megis sgiliau byw'n annibynnol. Nododd partneriaeth arall ei bod yn darparu gweithdai galwedigaethol megis plymio, gwaith coed a gwaith gof.
- 3.28 Nododd rhai partneriaethau eu bod yn darparu cyrsiau hamdden, a nododd un ohonynt yn ei hymateb bod y rhain yn gyrsiau y codir ffi amdanynt, nad ydynt yn defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru ac nad ydynt yn dibynnu ar gymhorthdal gan yr awdurdodau lleol. Mae enghreifftiau o'r cyrsiau hamdden hyn yn cynnwys y canlynol:

- Cyrsiau iechyd a lles
- Cyrsiau celf a chrefft
- Ieithoedd.

3.29 Adroddodd nifer o bartneriaethau eu bod yn darparu cyrsiau cyflogadwyedd yn ychwanegol i'r ddarpariaeth sy'n dod dan bedwar maes blaenoriaeth Llywodraeth Cymru. Nododd rhai partneriaethau eu bod yn cynnwys y cyrsiau cyflogadwyedd hyn dan faes pwnc y sector 'Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith'. Mae enghreifftiau o'r meysydd pwnc sy'n cael eu cynnwys dan gyrsiau cyflogadwyedd yn cynnwys y canlynol:

- Meithrin hyder
- Sgiliau astudio
- Chwilio am swydd
- Ysgrifennu CV a cheisiadau
- Technegau cyfweiliad.

3.30 Darparwyd enghreifftiau eraill o'r mathau o ddarpariaeth y maent yn eu cynnig ar hyn o bryd dan faes pwnc y sector 'Paratoi ar gyfer bywyd a gwaith' gan bartneriaethau. Roedd y canlynol ymhlith yr enghreifftiau y cyfeiriwyd atynt gan un o'r Partneriaethau neu fwy:

- Dysgu fel teulu
- Sgiliau hanfodol e.e. cyrsiau Llythrennedd, Rhifedd a Llythrennedd Digidol
- Sgiliau swyddfa sylfaenol
- Bod yn ddoeth gydag arian / cynllunio'ch sefyllfa ariannol personol
- Cyrsiau blas ar waith e.e. Cwrs Blas ar Waith Chwarae a Datblygiad Plant; a Chwrs Blas ar Waith Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Datblygiad personol a chymdeithasol
- Dinasyddiaeth.

3.31 Mae amrediad eang yr enghreifftiau o'r gwahanol fathau o ACL a ddarparir gan bartneriaethau yn dangos yr amrywiadau o ran y ddarpariaeth a gynigir i ddysgwyr ar draws Cymru.

4. Tystiolaeth ansoddol o ymweliadau astudiaethau achos a gweithgarwch ymgynghori gyda rhanddeiliaid

4.1 Fel yr amlinellwyd yn y bennod flaenorol, mae darpariaeth ACL yng Nghymru yn amrywio, ac mae'n seiliedig ar wahanol fecanweithiau darparu. O ganlyniad, mae'r map o ddarpariaeth ACL ar draws Cymru yn un cymhleth ac mae'n cynnwys symiau amrywiol o ran darpariaeth, gwahanol bartneriaid arweiniol yn cydlynu'r ddarpariaeth ar draws Cymru, ac anghysondeb o ran yr hyn sydd ar gael i ddysgwyr. Mae'r bennod hon yn manteisio ar y dystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn ystod yr adolygiad, gan gyflwyno hon dan y penawdau canlynol:

- Dulliau gweithredu Partneriaethau ACL tuag at gynllunio'r ddarpariaeth;
- Cyfraniad ACL i gymdeithas;
- Effeithiau cwtogi'r cyllid.

Partneriaethau ACL: cynllunio strategol a darpariaeth weithredol

4.2 Dull gweithredu cyffredin ar draws Partneriaethau ACL yw eu bod yn cael eu harwain gan Fwrdd Strategol cyffredinol, a'u bod yn cael eu cynorthwyo gan is-grwpiau sy'n canolbwyntio ar themâu penodol (e.e. ansawdd, cwricwlwm, monitro ac MIS, grwpiau gweithredol lleol). Fel rheol, mae Byrddau Strategol yn cyfarfod unwaith y tymor i drafod darpariaeth, cynllunio a strategaeth. Mae partneriaethau'n adrodd bod y dull gweithredu hwn yn eu galluogi i nodi bylchau yn y ddarpariaeth ar y cyd, ac i gydweithio '*er mwyn ceisio sicrhau cynnig cydlynol ar gyfer y dysgwr*'. Mae nifer o Bartneriaethau'n ymgynghori gyda chymunedau lleol (gan gynnwys cymunedau mewn ardaloedd mwy difreintiedig) er mwyn cynorthwyo'r broses o gynllunio'r ddarpariaeth, er nad yw'n ymddangos bod hyn yn cael ei wneud ym mhob ardal. Yn ogystal, mae partneriaethau mewn rhai ardaloedd wedi datblygu cysylltiadau da gyda chyflogwyr, a cheir rhai enghreifftiau o ddarpariaeth ACL yn cael ei chynllunio a'i darparu mewn ffordd sy'n ymateb i anghenion sgiliau a swyddi gwag cyflogwyr lleol.

- 4.3 Pan fo partneriaethau'n gweithio mewn ffordd effeithiol, caiff y ddarpariaeth arfaethedig ei chynllunio a'i rhannu ymlaen llaw er mwyn osgoi dyblygu. Mae hyn yn cynnwys nodi llwybrau dilyniant, sicrhau tryloywder o ran yr hyn a gynigir a datblygu cryfderau'r holl bartneriaid. Adroddodd partneriaeth arall eu bod yn cydweithredu ar arsylwadau gwersi, DPP ar gyfer tiwtoriaid a chylchlythyrau i ddysgwyr er mwyn ysgogi ansawdd, gan annog cysylltiadau gwaith mwy agored a chael gwared ar 'seilos'.

'Mae cynllunio cyrsiau a darpariaeth wedi dod yn gymharol hawdd, oherwydd dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi nodi arbenigedd ymhlith partneriaid – ar sail canlyniadau (dysgu), rhannu gwybodaeth, asesiadau cymheiriaid, ac argaeledd tiwtoriaid.' (Cydlynnydd Partneriaeth ACL)

- 4.4 Gwelwyd lleiafrif o Bartneriaethau, fodd bynnag, yn adrodd am anawsterau wrth sicrhau bod rheolwyr uwch mewn sefydliadau addysg bellach ac awdurdodau lleol yn ymrwmo. Yn yr achosion hyn, adroddodd y cynrychiolwyr nad oes fawr iawn o gydlyniant wrth gynllunio a darparu, ac na rennir fawr iawn o arfer da. Mae rhai Partneriaethau'n adrodd bod y sector yn dioddef '*diffyg gweledigaeth strategol*' ac nad oes gan Bartneriaethau bwerau penderfynu nac awdurdod digonol. Yn ôl rhai o'r cyfranwyr i'r adolygiad, mae Partneriaethau wedi cael eu bwrw yn fwy i'r ymylon, yn rhannol o ganlyniad i'r ffaith y collwyd swyddi swyddogion a rheolwyr arweiniol ar ôl cwtogi'r cyllid yn ddiweddar.

'Heb os, erydwyd y ddarpariaeth ac mae proffil ACL wedi dioddef. Yn ogystal, mae ACL yn cael rhywfaint o anhawster gyda diffyg ffocws. Mewn cyfnod lle y mae llai o gyllid ar gael, mae angen bod yn eglur am y sawl yr ydym yn eu gwasanaethu, yr hyn yr ydym yn ceisio'i gyflawni a sut y mae ACL yn cysylltu gydag addysg a hyfforddiant arall.' (Cydlynnydd Partneriaeth ACL)

'Ceir diffyg cydlynio effeithiol rhwng rhai partneriaid a rhaglenni. Gwelir y gorgyffwrdd mwyaf – a'r rhwystredigaeth fwyaf – gyda rhai o'r rhaglenni trechu tlodi, sy'n dyblygu rhywfaint o'r hyn yr ydym yn ceisio'i ddarparu.' (Cydlynnydd Partneriaeth ACL)

- 4.5 Ar y lefelau gweithredol a darparu, ceir ymrwymiad cryf i weithio mewn partneriaeth ar draws y sector ACL yng Nghymru. Canfu ymweliadau ag

ardaloedd Partneriaeth ACL fel rhan o'r adolygiad hwn bod partneriaid yn cydweithio i gasglu a rhannu gwybodaeth am anghenion dysgwyr lleol, gan gydlynu'r ddarpariaeth er mwyn ymateb i'r anghenion hyn. Trwy gyfrwng grwpiau strategol a gweithredol y Partneriaethau hyn, mae darparwyr yn cydweithredu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn bodloni anghenion, gan geisio osgoi dyblygu a nodi llwybrau dilyniant.

'Ceir ymwybyddiaeth o'r hyn a ddarparir gan bob sefydliad a'r llwybrau mynediad a dilyniant posibl sy'n bodoli mewn perthynas â hyn. Mae'r cyfathrebu yn dda....a dyma gryfder allweddol ein partneriaeth.'
(Cydlynnydd Partneriaeth ACL)

'Mae'r bartneriaeth ACL yn fach ond ceir cyfathrebu effeithiol – ceir gweithredu agored, ymddiriedaeth a dim cystadleuaeth, rydym yn rhannu ffurflenni ansawdd ac arfer da. Gan nad oes gennym nifer benodol o ddysgwyr, nid oes angen targedu dysgwyr sefydliadau eraill; yn hytrach, mae'r ffocws ar ddarpariaeth.' (Cydlynnydd Partneriaeth ACL)

- 4.6 Un pwynt arall sy'n codi dro ar ôl tro yw'r anghysondeb wrth ddarparu – yn bendant ar draws Cymru ac mewn rhai achosion, o fewn ardaloedd Partneriaeth. Ni cheir cynnig craidd cyffredin neu fframwaith cwricwlwm cyffredin sy'n sicrhau mynediad cyfartal i gyrsiau ar gyfer dysgwyr. Darparwyd enghreifftiau niferus o amrywiadau o ran yr hyn sy'n cyfateb â ddarpariaeth cyflogadwyedd, gan arwain at wahaniaethau o ran yr hyn y gall dysgwyr fanteisio arno am ddim, e.e. mae Iaith Arwyddion Prydain ar gael yn rhad ac am ddim yn ardal un awdurdod lleol, ond nid yn ardal awdurdod cyfagos.

'Ceir gormod o anghyfartalwch o ran ansawdd a manteisio ar ddysgu.'
(Cydlynnydd Partneriaeth ACL)

Cyfraniad ACL i gymdeithas

Cynorthwyo cyflogadwyedd

- 4.7 Nododd cynrychiolwyr bod hyrwyddo sgiliau cyflogadwyedd wedi cael ei ymgorffori fel blaenoriaeth gadarn o fewn darpariaeth ACL. Yn ogystal, mae partneriaethau'n parhau i hyrwyddo llythrennedd digidol a chynhwysiant digidol. Nododd un Partneriaeth bod ei ddarpariaeth ESOL

wedi cael ei hadolygu dros y blynyddoedd diwethaf er mwyn canolbwyntio ar 'Saesneg ar gyfer cyflogaeth'.

- 4.8 Roedd y partneriaethau'n dadlau'n gryf o blaid y ffaith bod ACL yn cynorthwyo sgiliau dysgwyr cyflogedig a di-waith. Mae'n gwella cyflogadwyedd ac mae'n gallu cael effaith ar weithgarwch economaidd dysgwyr a'u rhagolygon o sicrhau cyflogaeth yn y tymor byr a'r tymor hwy. I ddysgwyr cyflogedig, mae cymryd rhan mewn ACL yn gallu cyfrannu at wella'u perfformiad mewn swydd a'u bodlonrwydd mewn swydd, gan gynyddu'r siawns y byddant yn cael swydd newydd neu ddyrchafiad. Adroddodd cynrychiolwyr ACL bod ACL yn gallu helpu dysgwyr sy'n chwilio am swydd a'u galluogi i gaffael sgiliau newydd er mwyn llwyddo yn y farchnad lafur, a meithrin hyder dysgwyr di-waith i chwilio am waith. Ceir cyswllt agos rhwng y dystiolaeth hon a gyflwynir gan Bartneriaethau ACL ar draws Cymru a chanfyddiadau yn yr adolygiad llenyddiaeth, lle y mae tystiolaeth yn dangos bod ACL yn cael effaith ar weithgarwch economaidd dysgwyr a'u cyflogadwyedd yn y tymor byr a'r tymor hir. Y prif faes lle y gwelir yr effaith yw ar feithrin sgiliau newydd, sy'n cael effaith gynyddol ar feithrin hyder dysgwyr i chwilio am swydd a'u tebygolrwydd o gael swydd newydd neu ddyrchafiad; yn ogystal â gwella'u perfformiad yn eu swydd a'u bodlonrwydd gyda'u swydd.

Ymgysylltu gyda dysgwyr anodd eu cyrraedd

- 4.9 Mae partneriaethau'n ymgysylltu gydag ystod eang o sefydliadau a rhanddeiliaid. Mae hyn yn cynnwys asiantaethau'r llywodraeth (Canolfan Byd Gwaith, Gyrfa Cymru) a nifer o sefydliadau o'r trydydd sector sy'n eistedd ar Bartneriaethau ACL ac y maent yn aml yn cyfeirio dysgwyr anodd eu cyrraedd i ddarpariaeth berthnasol. Mae sefydliadau o'r sector gwirfoddol yn ddarparwyr pwysig ACL mewn nifer o ardaloedd hefyd. Adroddodd partneriaethau y defnyddir y cysylltiadau hyn er mwyn nodi ac ymgysylltu gyda dysgwyr 'anodd eu cyrraedd', gan gynnwys unigolion y mae lefelau llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol a sgiliau cyflogadwyedd isel yn creu rhwystrau iddynt i fyd gwaith. Defnyddir

cyrsgiau mewn ffordd weithredol fel cyfleoedd 'ymgysylltu', gyda'r nod o gyfeirio dysgwyr at ddarpariaeth dros y tymor hwy. Adroddodd cynrychiolwyr ACL eu bod yn mynychu ffeiriau swyddi, digwyddiadau lleol ac ati hefyd, lle y gall dysgwyr siarad gyda thiworiaid, staff. Mae meithrin ymddiriedaeth dysgwyr yn elfen allweddol o hyn ac mae modd i bresenoldeb yn y mathau hyn o ddigwyddiadau lwyddo i annog dysgwyr i fanteisio ar gyfleoedd dysgu.

'Mae dysgwyr yn ymddiried yn y ddarpariaeth ACL – mae'n cynnig y camau dysgu cyntaf, yr holl ffordd i fyny i lefel 2. Mae'n bwynt cyswllt cyntaf gyda'r system ddysgu i nifer o unigolion. Mae ymgysylltu yn elfen allweddol – yna, gallwch ddechrau ymgorffori sgiliau. Gall newid agweddau tuag at ddysgu. Gall gynnig ail gyfle i bobl fanteisio ar ddysgu, ond rhaid bod dilyniant.' (Rhanddeiliad sector ACL)

- 4.10 Mae'r dulliau gweithredu partneriaeth cyffredinol hyn yn cysylltu gyda chanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth sy'n dynodi bod targedu cymunedau a dysgwyr y maent fwyaf mewn angen trwy gyfrwng darpariaeth allgymorth yn hanfodol er mwyn ymgysylltu dysgwyr ar y cyrion.
- 4.11 Er hyn, ceir cydnabyddiaeth ymhlith rhai Partneriaethau, er bod eu dosbarthiadau ACL yn fforddiadwy a bod niferoedd da yn eu mynychu, nad oeddent yn targedu grwpiau blaenoriaeth mewn ffordd effeithiol bob amser. Ceir cwestiynau ynghylch a yw'r ddarpariaeth bresennol yn bodloni anghenion y rhai y mae angen cymorth ychwanegol arnynt fwyaf er mwyn gwella'u sgiliau sylfaenol. Mae pob Partneriaeth yn adrodd y gwelwyd newid yn ddiweddar trwy geisio cyflwyno ffioedd am gyrsiau hamdden ac adloniant, gan ddefnyddio'r Grant Dysgu Cymunedol i gynorthwyo'r dysgwyr sy'n cael blaenoriaeth gan Lywodraeth Cymru.

Ymgysylltu cynnar a dilyniant

- 4.12 Mae partneriaethau'n adrodd bod y rhan fwyaf o'u darpariaeth yn gyrsiau rhagflas ac yn gyrsiau cyn-mynediad hyd at Lefel 2. Mae partneriaethau'n cyflawni amrediad o weithgarwch ymgysylltu er mwyn rhoi cyflwyniadau i gyfleoedd dysgu. Mae hyn yn cynnwys sesiynau galw

heibio anffurfiol sy'n targedu'r rhai nad ydynt yn ymgysylltu ar hyn o bryd. I ddechrau, cynigir unedau Agored cyn iddynt gael eu cyflwyno i gyfleoedd dysgu ehangach. Mae WEA YMCA yn arwain llawer o'r gwaith ymgysylltu ar draws Partneriaethau, gan weithio gyda darparwyr eraill. Mae digwyddiadau wedi'u targedu fel yr Wythnos Addysg Oedolion, yn ddefnyddiol wrth ymgysylltu dysgwyr.

- 4.13 Mae'r dulliau gweithredu hyn tuag at ymgysylltu yn cysylltu gyda chanfyddiadau a amlinellir yn yr adolygiad llenyddiaeth lle y nodwyd bod mabwysiadu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr yn ffactor allweddol er mwyn sicrhau llwyddiant. Mae'r lenyddiaeth yn awgrymu bod angen i ddysgu fod yn berthnasol i brofiadau bywyd bob dydd dysgwyr, a bod dull gweithredu hyblyg, gan gynnwys cyrsiau byrrach, amrediad o ddulliau darparu a dulliau gweithredu asesu, yn bwysig wrth annog ymgysylltu gyda dysgu.
- 4.14 Amlinellwyd pwysigrwydd cynllunio darpariaeth sy'n debygol o apelio i ddysgwyr nad ydynt wedi ymgysylltu gyda dysgu ers cryn amser gan nifer o gynrychiolwyr. Pwysleisiodd rhai cyfranwyr nad yw pob dysgwr yn dymuno symud ymlaen i gyflogaeth a'i bod yn 'afrealistig' meddwl y bydd dysgu oedolion yn arwain at bobl yn dechrau gweithio. Roedd eraill yn dadlau bod yn rhaid i ACL gael ei ystyried fel rhan o gontinwrm dysgu, ac y dylid nodi hyn mewn ffordd eglur fel rhan allweddol o genhadaeth ACL.

'Rhaid i ddysgu pellach, dysgu uwch a chyflogaeth fod yn nodau allweddol i ACL – cynorthwyo pobl i gyrraedd lefelau 1 a 2 ac ymhellach pan fo modd. Rhaid iddo fod yn ddyheadol.' (Rhanddeiliad sector ACL)

- 4.15 Mae partneriaethau ACL yn cydweithio'n agos er mwyn ymgysylltu oedolion sydd â sgiliau isel gyda dysgu, gan ddatblygu eu sgiliau meddal (gan gynnwys eu hyder i ddysgu) a chynorthwyo dilyniant i ddysgu mwy ffurfiol a/neu gyflogaeth. Adroddodd rhai partneriaethau eu bod yn cael cyswllt gydag ysgolion sy'n cynnwys canran uchel o ddisgyblion sy'n cael pryddau ysgol am ddim er mwyn darparu sesiynau dysgu i'r teulu, ffoneg, a sesiynau eraill sy'n cynnig blas ar ddarpariaeth er mwyn cynorthwyo

sgiliau rhianta. Mae'r dull gweithredu hwn yn cysylltu gyda chanfyddiadau'r adolygiad llenyddiaeth ynghylch yr effaith y mae modd i ACL ei gael ar ddysgu fel teulu, a'i botensial i ddylanwadu ar ddysgu ar draws y cenedlaethau a meithrin cysylltiadau a chymunedau cryfach.

'Rydym wedi ceisio sicrhau bod ein darpariaeth yn cynnig cyfleoedd i bob math o ddysgwyr – y rhai difreintiedig, y rhai heb sgiliau hanfodol, siaradwyr Cymraeg a dysgwyr hŷn. Fodd bynnag, mae'n wir dweud ein bod wedi canolbwyntio mwyafrif ein darpariaeth am ddim ar y dysgwyr mwyaf difreintiedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac y mae angen iddynt wella'u sgiliau ar gyfer byd gwaith.' (Cydlynnydd Partneriaeth ACL)

Cymorth ar lefel gymunedol

4.16 Adroddodd cynrychiolwyr partneriaethau am ffyrdd amrywiol y mae ACL yn cyfrannu at gydlyniant cymunedol a chyswllt dinasyddion. Nododd cynrychiolwyr awdurdodau lleol a cholegau AB bod darpariaeth yn cyfrannu at unigolion yn teimlo fel pe baent yn fwy cysylltiedig gyda'u cymunedau, gyda'r agenda iechyd a lles a gyda mentrau megis heneiddio'n dda ar gyfer y rhai dros 50 oed.

'Mae'r ffocws ar sgiliau am oes. Mae dysgwyr yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn dysgu, i newid eu bywydau, i sicrhau eu bod yn fwy cyflogadwy ac i ddianc rhag bywyd sy'n dibynnu ar fudd-daliadau.'

'Mae'r manteision i ddysgwyr yn rhai cymdeithasol, mynd allan, integreiddio a chael cyfeillgarwch, yn ogystal â chanlyniadau dysgu, ac mae modd i ddilyniant gael ei fesur mewn nifer o wahanol ffyrdd.' (Cynrychiolwyr Partneriaethau ACL)

4.17 Amlygodd partneriaethau bod y gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr hŷn yn bryder parhaus. O ganlyniad i'r 'diffyg dewis o ran cyrsiau nos, nododd cynrychiolydd un awdurdod lleol bod pryderon ynghylch arwahanrwydd unigolion.'

Mesur cyfraniad ACL i gymdeithas

4.18 Holwyd y rhai a gyfrannodd i'r adolygiad am eu barn ynghylch sut y dangosir effaith y ddarpariaeth ACL. Adroddodd nifer bod y data a

gyflwynir i Lywodraeth Cymru (ac i Estyn yn ystod arolygiadau) yn cynnig rhywfaint o dystiolaeth o'r effaith. Mae Adroddiadau Canlyniadau Dysgwyr yn darparu data ynghylch cyfraddau llwyddo dysgwyr a'r cymwysterau sy'n cael eu sicrhau gan ddysgwyr. Maent yn galluogi cymariaethau ar draws Partneriaethau ACL. Yn ogystal, mae adroddiadau Llais y Dysgwr, sy'n cael eu paratoi ar gyfer pob Partneriaeth hefyd, yn cynnig crynodebau o fodlonrwydd dysgwyr gyda'r ddarpariaeth y maent wedi manteisio arni.

- 4.19 Mae partneriaethau'n parhau i fuddsoddi mewn systemau rheoli data er mwyn gwella data dysgwyr: mae nifer o bartneriaethau'n cadw cofnodion o ddysgwyr ar restrau aros am gyrsiau, maent yn dymuno datblygu offerynnau er mwyn olrhain dysgwyr, a systemau cofrestru ar-lein a llwybrau dilyniant. Fodd bynnag, defnyddir gwahanol systemau o fewn yr un Partneriaethau mewn rhai achosion, gan arwain at ddyblygu gweithgarwch a diffyg cysondeb er mwyn caniatáu gweithgarwch monitro a dadansoddi cadarn.
- 4.20 Cyfeiriodd partneriaethau at yr anawsterau y byddant yn eu hwynebu wrth fesur yr effaith. Nododd cydlynnydd un Bartneriaeth bod y sector 'wedi bod yn wan wrth olrhain dilyniant a chyrchfannau dysgwyr yn draddodiadol'. Caiff hyn ei briodoli yn rhannol i'r anawsterau wrth olrhain y llwybrau cymhleth y bydd rhai dysgwyr yn eu dilyn, ac y maent yn ysbeidiol weithiau. Mae rhai o elfennau'r ddarpariaeth ACL yn cynnwys darparu dysgu heb ei achredu ac mae hyn yn gallu arwain at sialensiau wrth fesur a monitro dilyniant a chanlyniadau dysgwyr. Yn ogystal, nododd partneriaethau nad oes ganddynt yr adnoddau i olrhain cyrchfannau dysgwyr mewn ffordd systematig ar hyn o bryd.
- 4.21 Nododd cynrychiolwyr na fu gofyn i awdurdodau lleol a phartneriaid eraill ddangos effaith y Grant Dysgu Cymunedol. Fel y dywedodd un, '*nid yw'r cyllid ynghlwm wrth ganlyniadau, byddwch yn cael yr arian beth bynnag fo'r rhain.*' Roedd rhai cynrychiolwyr yn cydnabod bod y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r effaith a gyda dilyniant dysgwyr yn aml yn anecdotaidd. Roedd consensws bras ymhlith y rhai a gyfrannodd i'r adolygiad y byddai modd gwneud mwy er mwyn olrhain dilyniant dysgwyr unigol a mesur

canlyniadau ACL, ac y dylai hyn gynnwys cyfuniad o fesurau ansoddol a meintiol er mwyn cydnabod amrediad y ddarpariaeth a gynigir.

'Mae'n perfformiad wrth ddangos yr effaith yn wael. Pe byddai cyllid yn cael ei reoli mewn ffordd wahanol, byddai'n haws mesur yr effaith – byddai modd gosod cyflawniadau/canlyniadau wrth gynlluniau cyflawni.'
(Cynrychiolydd Partneriaeth ACL)

4.22 Roedd rhywfaint o weithgarwch dysgu a ddarparwyd trwy gyfrwng rhaglenni trechu tlodi a darpariaeth arall yn destun beirniadaeth gan gynrychiolwyr Partneriaeth a rhanddeiliaid. Er bod cynrychiolwyr yn cydnabod rôl Cymunedau yn Gyntaf wrth ymgysylltu pobl difreintiedig gyda dysgu, er hyn, roedd cyfranwyr niferus yn barnu bod diffyg manylrwydd ac ansawdd i'w weld yn eu gweithgareddau er mwyn datblygu sgiliau sylfaenol.

'Ni chaiff y ddarpariaeth hon ei monitro, nid yw'r staff yn gymwys, ac mae'n dorcalonnus clywed nad yw'r prosiectau hyn yn cyflawni.'
(Cynrychiolydd Partneriaeth ACL)

Effeithiau cwtogi'r cyllid

4.23 Yn raddol gydag amser, mae'r cyllid wedi cael ei leihau ac mae gwaith ailstrwythuro wedi digwydd o fewn Partneriaethau. Er y ceir rhai sectorau lle y mae mwy nag un partner yn cyflenwi, mae'r gostyngiad yn y cyllid wedi arwain at rai Partneriaethau'n methu bodloni'r galw ymhlith dysgwyr.

4.24 Mae newidiadau i'r cyllid wedi cael effaith ar allu Partneriaethau i gyflawni rhai o'u nodau, h.y. mae cael gwared ar y cyllid ar gyfer dysgu fel teulu wedi lleihau'r hyn y mae modd iddynt ei wneud wrth hyrwyddo lles teuluol yn sylweddol. Mae rhai partneriaid, fodd bynnag, wedi cwestiynu ansawdd rhywfaint o'r ddarpariaeth hon a'i heffaith ar ddysgwyr.

4.25 Mae partneriaethau wedi amlinellu'r newidiadau a welwyd fel canlyniad uniongyrchol y gostyngiadau i'r cyllid. Mae'r ddarpariaeth wedi cael ei chwtogi ac mae'n gyfyngedig iawn mewn rhai rhannau o Gymru, yn enwedig mewn rhai ardaloedd gwledig. Collwyd cyrsiau ac mae darparwyr dysgu oedolion wedi colli cyswllt gyda nifer o diwtoriaid profiadol o ganlyniad. Darparwyd enghreifftiau gan bartneriaethau o

ddarpariaeth wedi'i seilio ar y celfyddydau, ieithoedd modern a chyrsgiau BSL yn cael ei therfynu. Yn ogystal, roeddent yn nodi bod llai o fynediad am ddim i leoliadau.

4.26 Esboniodd un coleg eu bod yn arfer cyflogi Rheolwyr Partneriaeth amser llawn a thua 20 o diwtoriaid ACL yn flaenorol. Ar ôl i'r cyllid gael ei gwtogi, mae'r coleg wedi colli dros 160 o staff, gan gynnwys y Rheolwr Partneriaeth a'r tiwtoriaid ACL, ac ar hyn o bryd, nid oes unrhyw un ar gael i gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth.

4.27 Nododd lleiafrif o gyfranwyr bod toriadau i'r cyllid wedi arwain at rai canlyniadau cadarnhaol anfwriadol, gan arwain at '*ddarpariaeth sy'n cynnwys mwy o ffocws*' a darparwyr yn '*canolbwyntio meddyliau ar yr agenda sgiliau*'.

4.28 Gwelwyd barn unfrydol ymhlith cyfranogwyr y gwaith ymchwil, sef bod y system gyllido bresennol yn annheg a'i bod wedi dyddio. Roedd rhanddeiliaid a chynrychiolwyr partneriaethau yn dadlau dros gael system decach o neilltuo cyllid ar ffurf grantiau i'r sector. Roedd rhai yn nodi bod y system gyllido bresennol '*yn dibrisio dysgu ac yn tanseilio cynllunio effeithiol*' oherwydd yr amrywiadau enfawr mewn dyraniadau, nad ydynt yn adlewyrchu anghenion dysgwyr ar lefel leol a rhanbarthol. Gwnaethpwyd galwadau niferus i gronfeydd gael eu dosbarthu mewn ffordd gyfartal a mwy o gydnabyddiaeth i gyfraniad dysgu oedolion i gydlyniant cymdeithasol, meithrin sgiliau a chynnydd addysgol.

4.29 Roedd rhai yn dadlau y gallai cyfuno'r holl gyllid cyhoeddus sy'n cynorthwyo dysgu oedolion (gan gynnwys cyfran o'r cyllid mewn rhaglenni trechu tloidi) gynnig sylfaen ar gyfer gweithgarwch cynllunio strategol effeithiol ac wedi'i gydlynu yn fwy. Mae'r safbwyntiau hyn yn cysylltu gyda rhai o ganfyddiadau allweddol yr adolygiad llenyddiaeth, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod ymgorffori cynladwyedd ariannol (e.e. trwy gyfrwng cylchoedd cyllido ar gyfer y tymor hwy) wedi arwain at ddarpariaeth ACL lwyddiannus, a bod symleiddio prosesau ymgeisio wedi helpu i ymgysylltu amrediad o sefydliadau i gynorthwyo'r ddarpariaeth a'r gwaith cyflenwi.

5. Casgliadau ac argymhellion yr adolygiad

5.1 Mae'r bennod hon yn rhoi crynodeb o gasgliadau cyffredinol yr adolygiad. Yn ogystal, mae'n nodi nifer fach o argymhellion â ffocws, y bwriedir iddynt gyfrannu at drafodaeth yn y dyfodol ynghylch cyfeiriad strategol ACL yng Nghymru.

ACL yng Nghymru: yr achos dros newid

5.2 Mae'r sector ACL yng Nghymru wedi bod dan bwysau difrifol ar ôl i'r cyllid gael ei gwtogi dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r ddarpariaeth wedi lleihau ar draws Cymru ac mae wedi lleihau'n ddifrifol mewn rhai ardaloedd. Ar yr un pryd, mae'r sector wedi ceisio parhau i gyfrannu at ystod eang o flaenoriaethau strategol, gan gynnwys ail-ymgysylltu grwpiau anodd eu cyrraedd gyda dysgu, cynyddu cyflogadwyedd a chynorthwyo iechyd a lles. Mae'r ffaith bod y sector yn parhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl mewn cymaint o ffyrdd yn adlewyrchiad o ymrwymiad ac ymdrech rheolwyr a staff mewn awdurdodau lleol, colegau a darparwyr eraill.

Argymhelliad 1:

Dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan ei hymrwymiad i gynorthwyo ACL, gan egluro ei gweledigaeth ar gyfer y sector. Byddai hyn yn golygu paratoi diffiniad eglur a phenodol o rôl ACL mewn perthynas â:

- chynorthwyo cyflogadwyedd a ffyniant economaidd;
- hyrwyddo iechyd a lles;
- ymgysylltu a chynorthwyo cydlyniant cymdeithasol.

5.3 Mae adrannau blaenorol yr adroddiad hwn wedi cyfeirio at yr anghysondebau o ran y ffordd y caiff ACL ei ariannu, ei gynllunio a'i ddarparu. Yn wir, nodweddir y sector gan anghysondebau a chroestyniadau. Er bod Partneriaethau ACL yn buddsoddi cryn amser ac egni yn y gwaith o gynllunio a chydlynu'r ddarpariaeth, mae'r sector yn parhau i fod yn gymharol ddigynllun ac nid oes ganddo ddatganiad o

fwriad pendant sy'n ei ddwyn ynghyd. Dylid rhoi sylw i hyn, gan bwysleisio'r angen hefyd i ddysgu oedolion yn y gymuned gael cymorth fel rhan o addysg y brif ffrwd.

Argymhelliad 2:

Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r dewisiadau a ffeirir ganddi er mwyn ailstrwythuro'r ffordd y caiff y ddarpariaeth ACL ei chynllunio a'i darparu ar draws Cymru. Dylai hyn ystyried y dystiolaeth o'r adolygiad hwn, sy'n cyfeirio at yr angen am weledigaeth sy'n fwy eglur o ran ei diffiniad ar gyfer ACL a darpariaeth sy'n fwy teg a chyson ar gyfer dysgwyr.

5.4 Mae'r broses o gyllido ACL yng Nghymru yn gymhleth ac yn anghyfartal, ac nid yw'r cyllid yn seiliedig ar yr angen. Mae'r amrywiadau sylweddol o ran y cyllid trwy'r Grant Dysgu Cymunedol yn cyfrannu at yr anghydraddoldeb o ran y cyfleoedd i ddysgwyr mewn gwahanol rannau o Gymru i fanteisio ar ddarpariaeth; ac mae'r gostyngiadau pellach i'r cyllid cyffredinol ar gyfer dysgu rhan-amser mewn Colegau AB wedi gwaethygu'r materion hyn. Mae'n hanfodol bod cymorth digonol ar gyfer ACL er mwyn sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel ar draws y genedl sy'n gyson ac sy'n hygyrch. Os mai gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw cynnal ACL ac ysgogi gwelliannau mewn ansawdd a chanlyniadau, mae angen cael seilwaith, adnoddau ac ymarferwyr sy'n denu ac sy'n cadw dysgwyr.

Argymhelliad 3:

Mae angen cynnal adolygiad manwl o'r cyllid ar gyfer ACL. Dylai hwn ystyried dichonolrwydd cydgrynhoi neu gyfuno'r ffrydiau cyllid cyhoeddus amrywiol sy'n cynorthwyo ACL, gyda'r nod o sicrhau gweithgarwch cynllunio strategol mwy ystyrion a phwrpasol.

5.5 Caiff ACL yng Nghymru ei gynllunio, ei gydlynw a'i ddarparu mewn gwahanol ffyrdd ar draws Cymru. Mae ansawdd ac effeithiolrwydd Partneriaethau ACL yn amrywio. Mae dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac sy'n ymateb i flaenoriaethau lleol, sy'n

manteisio ar arbenigedd partneriaid perthnasol ac sy'n cynnwys rhannu gwybodaeth am ddysgwyr a llwybrau dilyniant, wedi bod yn llwyddiannus. Mewn rhai achosion, ceir dulliau gweithredu partneriaeth go iawn sy'n ceisio ymateb i anghenion dysgu, ac yn wir i anghenion cyflogwyr, mewn gwahanol ardaloedd lleol. Mewn rhannau eraill o Gymru, mae ACL yn parhau i fod yn seiliedig ar batrymau darparu hanesyddol i raddau helaeth, heb fawr iawn o dystiolaeth o weithgarwch craffu cadarn o ansawdd neu ganlyniadau.

- 5.6 Mater a godwyd yn aml yn ystod yr adolygiad yw'r diffyg cysondeb o ran yr hyn a gynigir a'r hyn sydd ar gael i ddysgwyr. Mae modd priodoli hyn i sawl peth, gan gynnwys y ddarpariaeth hanesyddol y cyfeiriwyd ati uchod, gwahanol ddehongliadau o ganllawiau a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, cyfraniad gwahanol sefydliadau partner, a phwysau ariannol. Wrth wraidd y broblem, fodd bynnag, gwelir absenoldeb fframwaith dysgu oedolion cyffredin neu gwricwlwm craidd.
- 5.7 Gallai datblygiad fframwaith o'r fath ar gyfer ACL annog dull gweithredu cenedlaethol cyson, gan ganiatáu hyblygrwydd i ymateb i'r angen lleol hefyd. Mae'n dilyn y dylai unrhyw fframwaith ACL gael ei dywys gan ddatganiad o weledigaeth sy'n nodi diben a swyddogaeth y sector. Byddai modd datblygu meysydd cwricwlwm a themâu dysgu yn eu tro er mwyn adlewyrchu'r weledigaeth a'r blaenoriaethau a nodwyd.

Argymhelliad 4:

Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda phartneriaid ar draws y sector ACL er mwyn paratoi fframwaith cenedlaethol cyffredin ar gyfer ACL, a fydd yn cynnig sail ar gyfer gwaith cynllunio a darparu yn y dyfodol.

- 5.8 Ym marn tîm yr adolygiad, mae'r materion a godwyd uchod, ynghyd â'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn adrannau cynharach yr adroddiad hwn, yn cynrychioli achos cryf dros newid. Gan ystyried y ffaith bod lefelau sgiliau hanfodol yn isel o hyd a bod cyfraddau anweithgarwch economaidd uchel i'w gweld mewn sawl rhan o'r wlad, mae angen darpariaeth ACL effeithiol ar Gymru, sy'n ymgysylltu gyda'r grwpiau anoddaf eu cyrraedd, sy'n helpu

i newid agweddau tuag at ddysgu ac sy'n cynnig ail gyfle i bobl fanteisio i'r eithaf ar eu potensial. Fel y mae'r lenyddiaeth ehangach yn dangos, gall ACL wneud gwahaniaethau go iawn i fywydau pobl trwy gynnig plattform er mwyn iddynt symud ymlaen i ddysgu pellach, hyfforddiant a chyflogaeth. Isod, rydym yn trafod rhai modelau darparu amgen a'r egwyddorion y dylid eu cynnwys mewn unrhyw ddulliau gweithredu strategol yn y dyfodol.

Modelau darparu yn y dyfodol: casgliadau ac ystyriaethau

5.9 Mae mwyafrif clir o'r rhai a gyfrannodd i'r adolygiad – gan gynnwys rhanddeiliaid a chynrychiolwyr Partneriaethau ACL, yn cydnabod bod angen ad-drefnu'r sector a symud tuag at fodel darparu mwy effeithiol a theg. Nid yw'r adolygiad hwn wedi cynnal dadansoddiad manwl o fanteision dulliau gweithredu strategol posibl amrywiol. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, mae tîm yr adolygiad wedi nodi nifer o argymhellion y gallent helpu i gyfrannu at drafodaethau yn y dyfodol ynghylch cyfeiriad strategol ACL ar gyfer y dyfodol.

Argymhelliad 5:

Gan gydnabod effaith gadarnhaol ACL ar unigolion, cymunedau a'r economi ehangach, dylid hyrwyddo ACL fel rhan allweddol o strategaethau ar draws Cymru er mwyn trechu tlodi a chynorthwyo lles dinasyddion. Byddai hyn yn helpu i godi proffil ACL, gan gysylltu'r sector gyda pholisïau addysg, iechyd a lles a chynhwysiant cymdeithasol.

5.10 Gallai cryfhau'r cysylltiadau rhwng ACL ac agendâu polisi eraill godi cwestiynau ynghylch yr angen i gysoni ffrydiau cyllido, fel y nodwyd yn Argymhelliad 2 uchod. Mae tystiolaeth o'r adolygiad llenyddiaeth a thystiolaeth ansoddol a gasglwyd yn ystod yr adolygiad yn awgrymu bod ACL yn cyfrannu at flaenoriaethau a chanlyniadau iechyd ac adfywio cymunedol. Dylai hyn agor y drws i drafodaethau ynghylch y cwestiwn a ddylai cyllid o gyllidebau rhaglenni neu gyllidebau adrannol eraill gynorthwyo'r ddarpariaeth dysgu oedolion. Dylai unrhyw fodel yn y

dyfodol geisio cyfuno a neilltuo cyllid mewn ffordd decach, ar sail yr angen.

- 5.11 Byddai modd cynllunio a rheoli rhai elfennau o ACL ar lefel genedlaethol, naill ai gan Lywodraeth Cymru neu gan un asiantaeth yn gweithredu ar ei rhan. Dylid rhoi blaenoriaeth genedlaethol i'r ymdrech i godi safonau a chynorthwyo i broffesiynoli'r gweithlu, a fe ddylai hyn ddod dan un strategaeth a weithredir ar draws Cymru gyfan. Yn yr un modd, gallai'r ddarpariaeth ACL fod yn destun safonau sicrhau ansawdd unffurf sy'n berthnasol i'r holl ddarpariaeth.

Argymhelliad 6:

Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cam o gomisiynu datblygiad strategaethau a fframweithiau cenedlaethol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus a sicrhau ansawdd o fewn ACL.

- 5.12 Dan fodel darparu newydd, efallai y bydd Llywodraeth Cymru yn dymuno ystyried ffyrdd lle y byddai modd defnyddio dulliau gweithredu arloesol er mwyn cynorthwyo'r ddarpariaeth, gan gynnwys annog darparwyr i fabwysiadu strategaethau mwy 'masnachol'. Er enghraifft, pan godir ffioedd am gyrsiau hamdden ac adloniant, gellid annog (neu fynnu bod) darparwyr yn ail-fuddsoddi unrhyw warged mewn darpariaeth ar gyfer grwpiau targed allweddol. Mae rhai darparwyr yn gyfarwydd gyda gweithredu modelau tebyg. Gallai hyn annog dull gweithredu mwy arloesol ac ymatebol wrth ddatblygu darpariaeth. Yn ogystal, byddai modd ail-fuddsoddi gwarged neu elw mewn creu llwybrau dilyniant newydd i ddysgwyr.

- 5.13 Roedd rhai o'r bobl a gyfrannodd at yr adolygiad yn credu'n gryf mewn symud i ffwrdd o strwythur cyfredol y Bartneriaeth ACL tuag at fodel rhanbarthol. Awgrymwyd y byddai modd seilio partneriaethau darparu ACL rhanbarthol ar olion troed y Partneriaethau Dysgu Rhanbarthol cyfredol. Ar sail y dystiolaeth a gyflwynwyd yn ystod yr adolygiad, ceir manteision amlwg i'r cam o symleiddio'r gweithgarwch cynllunio a darparu, gan dynnu adnoddau i ffwrdd o'r prosesau gweinyddol a'u

cyfeirio at ddysgwyr. Canfu'r adolygiad llenyddiaeth dystiolaeth i gefnogi dulliau gweithredu rhanbarthol strategol hefyd. Gallai hyn olygu bod asiantaethau ar wahân yn cael eu comisiynu neu'n cael cylch gwaith i arwain y gwaith o ddarparu ACL ym mhob rhanbarth, gan fanteisio ar gymorth darparwyr amrywiol yn ôl y gofyn.

- 5.14 Roedd rhanddeiliaid eraill yn cefnogi model darparu amgen, lle y gallai un sefydliad fod yn gyfrifol am arwain ACL ar draws Cymru, trwy gyfrwng model gwasanaeth canolog a gwasanaethau cysylltiedig o bosibl. Awgrymwyd y byddai'r ymagwedd hon yn rhoi arweinyddiaeth genedlaethol, gwelededd ac arbenigedd i'r sector, y mae angen dirfawr amdano, ac y byddai'n cynnig ffocws ar gyfer cyllid a chydgyssylltu ar draws y rhanbarthau. Mae'r ddau fodel yn cyflwyno cyfleoedd i ddatblygu cryfderau'r Partneriaethau sy'n bodoli eisoes.
- 5.15 Gan nas cynlluniwyd yr adolygiad hwn i fod yn asesiad opsiynau strwythuredig, ni fyddai'n briodol gwneud argymhelliad a chyfeirio at fodel a ffefrir. Mae angen gwneud gwaith pellach er mwyn nodi sut y gallai'r modelau amgen hyn weithio, ynghyd â'u priod fanteision ac anfanteision.
- 5.16 Dylai unrhyw fodel newydd barhau i hyrwyddo egwyddorion gweithio mewn partneriaeth ac yn ddelfrydol, dylai gael ei lywodraethu gan gynlluniau strategol sy'n rhychwantu 3-5 mlynedd. Yn ogystal, dylai'r ddarpariaeth yn y dyfodol gyd-fynd yn agos gyda chanlyniadau Adolygiad Donaldson a datblygiad trefniadau cwricwlwm newydd yng Nghymru. Roedd Donaldson wedi dadlau o blaid cael 'dysgwyr gydol oes cydnerth'. Mae modd trosglwyddo'r 'colofnau' yn Adolygiad Donaldson i faes ACL, yn enwedig yr uchelgais i greu 'dysgwyr galluog uchelgeisiol; unigolion iach hyderus; cyfranwyr creadigol moesegol a dinasyddion gwybodus moesegol'.
- 5.17 Er gwaethaf y toriadau i'r cyllid a'r sialensiau ar draws y sector, mae ACL yng Nghymru yn parhau i gynnig ystod eang o fanteision i ddysgwyr trwy gyfrannu at addysg, iechyd a lles y genedl. Gyda ffocws o'r newydd ar weledigaeth a strategaeth, strwythurau, partneriaethau ac ansawdd, heb

os nac oni bai, mae potensial i'r sector ACL barhau i gyflawni rôl arweiniol wrth gynorthwyo unigolion a chymunedau ar draws Cymru.

Atodiad A: Cyfeiriadau

Adran Addysg a Sgiliau (2012) *Community Education Programme, Operational Guidelines for Providers*. Iwerddon: Adran Addysg a Sgiliau.

Adran Addysg a Sgiliau (2013) *Review of ALCES funded Adult Literacy Provision*. Iwerddon: Adran Addysg a Sgiliau.

Adran Cyflogaeth a Dysgu. (2016) *Further Education Means Success: The Northern Ireland Strategy for Further Education*. Gogledd Iwerddon: Adran Cyflogaeth a Dysgu. Ar gael trwy droi at:

<https://www.delni.gov.uk/sites/default/files/publications/del/FE%20Strategy%20%20FE%20Means%20Business.pdf>

Audit Scotland (2015) *Scotland's colleges 2015*. Caeredin, Yr Alban: Audit Scotland.

BIS (2016) Datganiad Ystadegol Cyntaf, *Further Education and Skills Learner Participation, Outcomes and Level of Highest Qualification Held*. Llundain, Lloegr: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Ar gael trwy droi at:

https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/493773/SFR_commentary_January_2016.pdf

BIS (2014) Papur Ymchwil BIS Rhif 163 *Community Learning Trust pilot evaluation*. Llundain: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

BIS (2013b) *Evaluation of Community Learning Trust pilots summary of key findings*. Llundain, Lloegr: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

BIS (2013c) *Spotlight on community learning: supplement to the BIS further education and skills newsletter - April 2013*. Llundain, Lloegr: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau. Ar gael trwy droi at: <http://www.learningandwork.org.uk/community-learning/sites/default/files/resources/a-spotlight-on-community-learning.pdf>

BIS (2012) *Review and update of research into the wider benefits of adult learning*. Llundain, Lloegr: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

BIS (2011a) *Informal adult and community learning review: revised screening equality impact assessment*. Llundain, Lloegr: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

BIS (2011b) *New Challenges, New Chances: Next Steps in Implementing the Further Education Reform Programme*. Llundain, Lloegr: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

Blake Stevenson Ltd (2011) *Evaluating the Impact of CLD on National and Local Outcomes*. Yr Alban: Addysg yr Alban.

- Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau (2016) *Arolwg Sgiliau Cyflogwyr 2015: Canlyniadau ar gyfer y DU*. Llundain, Lloegr: Comisiwn y DU dros Gyflogaeth a Sgiliau.
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (dim dyddiad) *Pwysigrwydd ac Effaith Gwasanaethau Cymunedol yng Nghymru*. Cymru: Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru.
- Cyfarwyddiaeth Gyffredinol Ymchwil ac Arloesedd y Comisiwn Ewropeaidd (2013) *Adult and continuing education in Europe: Using public policy to secure a growth in skills*. Brwsel, Gwlad Belg: Comisiwn Ewropeaidd.
- Cyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd (2011) *Council Resolution on a renewed European agenda for adult learning*. Ar gael trwy droi at: [http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX%3A32011G1220\(01\)](http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX%3A32011G1220(01))
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (2014a) *Impact of WEA Adult Education 2014*. Llundain: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr.
- Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (2014b) *Long term Impact of WEA Adult Education*. Llundain: Cymdeithas Addysg y Gweithwyr.
- Cymdeithas y Colegau (2013) *Communities in Action Yorkshire and the Humber*. Swydd Efrog, Lloegr: Fforwm Rhanbarthol Swydd Efrog a Humber.
- Díaz López, M. P, López Liria, R., Aguilar Parra, J. M. a Padilla Góngora, D. (2016) *Keys to active ageing: new communication technologies and lifelong learning*. SpringerPlus 5: 768 DOI 10.1186/s40064-016-2434-8.
- Estyn (2015a) *Adroddiad yn dilyn monitro: Estyn yn monitro Partneriaeth ACL Caerdydd a'r Fro*. Caerdydd, Cymru: Estyn.
- Estyn (2015b) *Adroddiad am ACLP Gwent*. Caerdydd, Cymru: Estyn.
- Estyn (2014) *Effeithiolrwydd strategaethau cynnwys dysgwyr mewn dysgu oedolion yn y gymuned a dysgu yn y gwaith*. Caerdydd, Cymru: Estyn.
- Estyn (2013a) *Adroddiad ar Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Caerdydd*. Caerdydd, Cymru: Estyn.
- Estyn (2013b) *Adroddiad ar Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Merthyr Tudful*. Caerdydd, Cymru: Estyn.
- Estyn (2012a) *Medrau ar gyfer dysgwyr hŷn: effaith dysgu oedolion yn y gymuned ar les dysgwyr hŷn*. Caerdydd, Cymru: Estyn.

Estyn (2012b) *Adroddiad ar Bartneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Pen-y-bont ar Ogwr*. Caerdydd, Cymru: Estyn.

Evans, K., Schoon, I. a Weale, M. (2013) *Can Lifelong Learning Reshape Life Chances?* British Journal of Educational Studies. 61 (1) t. 25-47.

Fujiwara, D. (2012) *Valuing the Impact of Adult Learning. An analysis of the effect of adult learning on different domains of life*. Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

Fujiwara, D. a Campbell, R. (2011) *Valuation Techniques for Social Cost–Benefit Analysis: Stated Preference, Revealed Preference and Subjective Well-Being Approaches*. Llundain, Lloegr: Adran Gwaith a Phensiynau.

Grŵp Addysg i Oedolion Caeredin (2014) *Adult Education Matters: A Framework for Community Based Adult Learning In Edinburgh*. Caeredin, Yr Alban: Cyngor Dinas Caeredin.

Hague, C. (2009) *Adult informal learning: Policy recommendations*. Bryste, Lloegr: Futurelab.

HMIE (2011) *Learning in Scotland's Communities*. Livingston, Yr Alban: Arolygiaeth Addysg EM.

Hung, J. Y., a Lu, K. S. (2014) *Research on the healthy lifestyle model, active ageing, and loneliness of senior learners*. Educational Gerontology. 40 t. 353–362.

Llywodraeth Cymru (2015a) *Adroddiad Cryno y Rhaglen Lywodraethu 2015*.

Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael trwy droi at:

<http://gov.wales/docs/strategies/150616-progress-en.pdf>

Llywodraeth Cymru (2015b) *Arolwg Llais y Dysgwyr Cymru – canlyniadau 2015 Ipsos MORI*. Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2014) *Cynllun Gweithredu ar gyfer Sgiliau*. Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru (2013) *Dysgu Cymunedol*. [WWW]

<http://gov.wales/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/?lang=en>

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010a) *Cyflenwi dysgu cymunedol i Gymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2010b) *Strategaethau Cynnwys y Dysgwyr Canllaw i ddarparwyr dysgu gydol oes a sgiliau yng Nghymru. Canllawiau Llywodraeth*

Cynulliad Cymru Rhif Cylchlythyr: 002/2010. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

London Economics ac Ipsos MORI (2013) *BIS Research Paper Number 127. Economic and social benefits associated with further education and skills: learning for those not in employment.* Llundain, Lloegr: Yr Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau.

Merriam, S. B. a Kee, W. (2014) *Promoting Community Wellbeing: The Case for Lifelong Learning for Older Adults.* *Adult Education Quarterly.* 64 (2) t. 128–144.

NIACE (2015a) *Adult Learning - An investment, not a cost?* Ar gael trwy droi at: <http://www.learningandwork.wales/ACL-annual-conference-adult-learning-investment-not-a-cost>

NIACE (2015b) *Lifelong Learning Counts Impact Report.* Caerlŷr, Lloegr: NIACE. Ar gael trwy droi at: http://www.learningandwork.org.uk/sites/niace_en/files/resources/NIACE_Annual%20Report%202015_0.pdf

NIACE (2014a) *Adult and Community Learning Priorities Development Project Report.* Caerdydd, Cymru: NIACE.

NIACE (2014b) *Community Learning Innovation Fund.* DU: NIACE.

NIACE (2013) *Review of ACL Strategic Partnerships.* Caerdydd, Cymru: NIACE.

NIACE (2012a) *Community Learning in rural areas. A Report by NIACE for the Department for Business, Innovation and Skills and Department for Environment, Food and Rural Affairs.* Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

NIACE (2012b) *Review of informal adult and community learning, National consultation for citizens: final report.* DU: NIACE.

NIACE (2011) *A dynamic nucleus Colleges at the heart of local communities The Final Report of the Independent Commission on Colleges in their Communities.* Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

NIACE (2010a) *Transformation Fund - A summary of findings from the Transformation Fund for informal adult and community learning.* Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

NIACE (2010b) *Transformation Fund Older Learners.* Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

Offerynnau Statudol yr Alban. (2013) *The Requirements for Community Learning and Development (Scotland) Regulations 2013.* Ar gael trwy droi at: http://www.legislation.gov.uk/ssi/2013/175/pdfs/ssi_20130175_en.pdf

Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin (2015) *Overseeing financial sustainability in the further education sector Thirteenth Report of Session 2015–16*. Ar gael trwy droi at:

<http://www.publications.parliament.uk/pa/cm201516/cmselect/cmpublic/414/414.pdf>

Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol (2014) *Get the Message, A Regional Learner Involvement Event*. Cymru: Partneriaeth Dysgu Rhanbarthol De Orllewin a Chanolbarth Cymru.

Rheolwyr Dysgu a Datblygu Cymunedol yr Alban (2013) *Prevention and Early Intervention Case studies of Community Learning and Development in action*. Yr Alban: Rheolwyr Dysgu a Datblygu Cymunedol yr Alban.

Ross, S. (2016) *Adult Achievement Awards Initial Evaluation of the Pilots*. Ar gael trwy droi at: <http://www.communitydevelopmentalliancescotland.org/research-and-reports/adult-achievement-awards-2>

Robey, C. (2015a) *Citizens' Curriculum Case Study EFA London*. Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

Robey, C. (2015b) *Citizens' Curriculum Case Study Manton Children's Centre*. Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

Robey, C. (2015c) *Citizens' Curriculum Case study Rochdale Borough Council*. Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

Robey, C. (2015d) *Citizens' Curriculum Case Study Tomorrow's Wirral Women*. Caerlŷr, Lloegr: NIACE.

Uned Datblygu Addysg Bellach, Adran Addysg a Gwyddoniaeth (2008) *Widening Participation in Adult Learning: Guidelines for Effective Planning and Delivery of Back to Education Initiative Outreach Provision*. Duly, Iwerddon: Adran Addysg a Gwyddoniaeth.

UNESCO (2014) *Recommendation on Adult Education (2015)*. Ar gael trwy droi at: http://www.uil.unesco.org/fileadmin/keydocuments/AdultEducation/Confintea/en/1976RecommendationAdultEducation_Draft_.pdf

Ymchwil Arad (2015) *Adolygiad llenyddiaeth i lywio datblygiad y rhaglen newydd ar gyfer cyflogadwyedd oedolion*. Caerdydd, Cymru: Llywodraeth Cymru.

Ystadegau Cymru (2016) *Mesurau Canlyniadau Dysgwyr ar gyfer Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned: 2014/15*. Ar gael trwy

droi at: <http://gov.wales/docs/statistics/2016/160407-learner-outcome-measures-further-education-work-based-adult-community-learning-2014-15-en.pdf>

Ystadegau Cymru (2015) *Addysg Bellach, Dysgu Seiliedig ar Waith a Dysgu Oedolion yn y Gymuned: 2014/15 (ffigurau amodol)*. Ar gael trwy droi at: <http://gov.wales/docs/statistics/2015/151125-furthereducation-work-based-learning-community-learning-2014-15-provisional-en.pdf>

Atodiad B: Offerynnau ymchwil

Templed a ddefnyddiwyd er mwyn mapio'r Partneriaethau ACL sy'n bodoli eisoes a'r ddarpariaeth

Partneriaeth: [enw'r Bartneriaeth ACL]

1. Aelodaeth

--

2. Trosolwg o'r bartneriaeth

Mecanwaith darparu

Trefniadau cyllido (fesul awdurdod lleol ym mhob ardal partneriaeth)

Pwy yw'r partner arweiniol / Sut mae'r bartneriaeth yn gweithredu

Sut mae partneriaid yn cydweithio

3. Nodau a blaenoriaethau strategol

Crynodeb o'r nodau (fel sy'n cael ei gyfleu yn y cynllun partneriaeth neu mewn ffynhonnell arall)

Os nad oes cynllun mewn grym – sut y caiff nodau eu nodi mewn deunyddiau eraill a gyhoeddir.

Sut mae partneriaethau wedi nodi meysydd blaenoriaeth o ran y ddarpariaeth ACL?

4. Math(au) o ddarpariaeth

Crynodeb o'r ddarpariaeth sydd ar gael

<https://statswales.wales.gov.uk/Catalogue/Education-and-Skills/Post-16-Education-and-Training/Further-Education-and-Work-Based-Learning/Learners/Time-Series/numberoflearningactivities-by-subjectarea-mediumofdelivery>

[Y mater yma yw sut i gyflwyno'r wybodaeth hon mewn ffordd nad yw ar ffurf rhestr hir o gyrsiau?]

5. Canfyddiadau o'r adolygiadau a'r adroddiadau arolygu

Tynnwyd o adroddiadau partneriaethau mewnol / adroddiadau Estyn

6. Lleoliadau

Lleoliad	Darparwr arweiniol	Cod post

ADOLYGIAD O ACL: canllaw i'r pynciau i'w trafod yn ystod cyfweiliadau gyda phartneriaethau

Partneriaeth ACL: prosesau cynllunio a gweithredol

1. Sut y caiff penderfyniadau eu gwneud ar hyn o bryd ynghylch pa ddarpariaeth ACL fydd yn cael ei darparu a pha bartner fydd yn arwain?
 - A oes unrhyw is-grwpiau sy'n arwain ar agweddau amrywiol ar gynllunio a darparu? Os oes, beth yw'r prif grwpiau a sut maent yn gweithredu?
2. Beth yw prif gryfderau darpariaeth ACL yn ardal eich awdurdod lleol / partneriaeth?
3. A oes unrhyw ffyrdd y byddai modd gwella darpariaeth ACL yn ardal eich partneriaeth chi? Os oes, sut?
 - A oes dyblygu?

Darpariaeth

4. Mae cyrsiau cyflogadwyedd yn faes darparu mawr: a yw hwn yn faes y rhoddwyd mwy o sylw iddo yn ddiweddar ar draws y Bartneriaeth?
5. Sut mae'r Bartneriaeth yn gwneud penderfyniadau am gyflwyno'r ddarpariaeth ACL trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog?

Cyllid

6. Pa effaith y mae cwtogi'r cyllid wedi'i gael ar lefel a math y ddarpariaeth ACL sydd ar gael yn ardal eich partneriaeth?
 - A ydych chi wedi sicrhau cyllid trwy ffynonellau cyllido newydd er mwyn cynorthwyo ACL?
 - Pa effaith mae hyn wedi'i gael ar gynllunio ac ar ddarparu ACL?
 - *[Os yw hynny'n briodol] Cwestiwn cychwynnol er mwyn egluro os bydd unrhyw beth yn aneglur o ymateb y bartneriaeth i'r templed mapio cychwynnol: Pa ffynonellau cyllido ychwanegol a ddefnyddir er mwyn cynorthwyo darpariaeth ACL yn eich ardal chi? Beth yw'r cyfleoedd a'r sialensiau sy'n gysylltiedig gyda chynnig darpariaeth sy'n cael ei chynnal trwy gyfrwng ffyrddiau cyllido lluosog?*

[Cwestiwn WEA ychwanegol: A ydych chi'n cadw gwybodaeth am lefel wahanol y cyllid sy'n cael ei wario ym mhob awdurdod lleol?]

Effaith ac effeithiolrwydd

7. Beth yw'ch barn chi am gyfraniad bras ACL i gymdeithas?
 - Sut mae'n cael effaith ar gynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles, cyflogadwyedd?
 - A ydych chi wedi casglu neu a ydych chi'n cadw unrhyw ddata am effaith gymdeithasol, addysgol a/neu economaidd ACL yn ardal eich partneriaeth?
8. Pa fathau o ddarpariaeth ACL yw'r rhai mwyaf effeithiol wrth gynorthwyo amrediad o ganlyniadau cadarnhaol i ddysgwyr? (e.e. beth sy'n gweithio'n dda o ran moddau darparu, lleoliadau a meysydd pwnc?)

Darpariaeth yn y dyfodol

9. Beth mae modd ei wneud yn y dyfodol er mwyn sicrhau mwy o gysondeb a thegwch yn y cyfleodd ACL sydd ar gael i ddysgwyr ar draws Cymru? Sut mae modd i bartneriaethau sicrhau mynediad cyfartal i ddarpariaeth mewn meysydd allweddol (ESOL, Sgiliau Sylfaenol, rhifedd Digidol)
10. Beth all neu beth ddylai partneriaethau ei wneud er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r tymor hwy?
11. A oes model amgen er mwyn darparu ACL y dylid bwrw ymlaen ag ef yn eich barn chi?
12. Pa un enghraifft o arfer da o'ch Partneriaeth yr hoffech chi ei rannu gyda Phartneriaethau eraill yng Nghymru?